

Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
wrexham

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

11.00 y.b., DYDD IAU, 20FED GORFFENNAF, 2017

Lleoliad

Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF

Pwynt Cyswllt

Einir Rhian Davies

01286 679868

cabinet@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd DyddiadAmhenodol)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Cynghorydd Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Gareth Jones	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Gareth Thomas	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rita Price	Esgobaeth Wrecsam
Diane Chisholm	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Mair Herbert	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

Swyddogion Heb Bleidlais

Delyth Molyneux	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Karen Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Ian Budd	Cyngor Sir y Fflint
John Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd

Swyddogion yn bresennol

Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Iwan G. Evans	Awdurdod Lletyol
Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Martyn Gray	Llywodraeth Cymru
Susan Owen Jones	Rheolwr Busnes a Chyllid GwE
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Rhys Howard Hughes	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2017-18

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2017-18

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYG

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryg ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 7

(copi wedi ei atodi)

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 8 - 62

8. COFRESTR RISG 63 - 66

9. CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION ESTYN 67 - 78

10. AMCANION 3 BLYNEDD GWE

Cyflwyniad ar Lafar

11. TREFNIADAU GWEITHREDU GWE	79 - 81
12. CYFRIFON 2016-17	82 - 123
13. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2016-17	124 - 132
14. FFRAMWAITH DEILLIANNAU-GRANT GWELLA ADDYSG	133 - 136
15. CALENDR CYFARFODYDD 2017-18	137 - 139

CYD-BWYLLGOR GwE 08.03.2017

Yn bresennol: **Y Cyng. Wyn Ellis Jones (Cadeirydd)**
 Y Cyng. Michael Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Kenneth P. Hughes, Gareth Thomas, Eryl Williams

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Mair Herbert (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd)

Swyddogion Heb bleidlais: Ian Budd (Cyfarwyddwr Arweiniol - Cadeirydd y Bwrdd Rheoli (Cyngor Sir y Fflint), Dr. Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Delyth Molyneux (Cyngor Sir Ynys Môn), Julian Molloy (Cyngor Sir Ddinbych), John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

Hefyd yn Bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Martyn Gray (Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Hefin Owen (Cynrychiolydd Cyllid Cyngor Gwynedd yr Awdurdod Lletyol), Gareth Jones (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Iwan T Jones (Cyngor Gwynedd), Sandra Evans (Cyngor Gwynedd) a Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

1. **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint), Mrs K Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Dafydd L Edwards (Cyngor Gwynedd), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr), Dr Gwynne Jones (Cyngor Ynys Môn), Rita Price (Esgobaeth Wrecsam), Dr Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE)

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Gadawodd nifer yr ystafell (gan gynnwys y Cadeirydd) ar gyfer yr eitem Penodi Rheolwr Cyfarwyddwr.

3. **MATERION BRYS**

Nid oedd materion brys.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Derbyniwyd y cofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Chwefror, 2017, fel rhai cywir.

5. **PENODI RHEOLWR CYFARWYDDWR GwE**

Cadeiriodd y Cyngorydd Michael Williams y drafodaeth ar yr eitem hon.

Rhoddodd Ian Budd amlinelliad o'r drefn benodi ynghyd a sylwadau am yr ymgeiswyr a gododd yn ystod y broses benodi. Roedd consensws unfrydol ymysg y Panel y dylid argymhell penodi Arwyn Thomas yn Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

Cynigiodd Cyng. Eryl Williams y cynnig a gafodd ei eilio gan Y Cynghorydd Gareth Thomas. Roedd y Cyd-bwyllgor yn unfrydol am y penodiad a chytunwyd cynnig y Swydd i Arwyn Thomas.

Diolchwyd i bawb a fu yn rhan o'r broses ac i Sandra Evans yn benodol am ei gwaith.

6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN BUSNES CYFREDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rhys Howard Hughes. Tywysodd RHH yr Is-grŵp drwy'r adroddiad a nodwyd y canlynol :

i.Nododd John Davies bod adolygiad gan gyd-weithwyr wedi cymryd lle yn Wrecsam a bod adroddiad o'r canlyniadau i'w drafod yn eu Pwyllgor Craffu maes o law. Cytunodd John Davies i rannu y wybodaeth gydag aelodau'r Cyd-bwyllgor.

ii.Nododd y Cadeirydd ei bod yn braf gweld gwelliant.

7. BLAENORIAETHU'R CYNLLUN BUSNES 2017-2020

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arwyn Thomas. Tywysodd AT yr Is-grŵp drwy'r adroddiad a nodwyd y canlynol :

i.Un her sy'n ein hwynebu yw bod yn ymwybodol o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yng nghyd-destun hyn cwestiynodd Gareth Thomas sut fyddai modd ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd o fewn GwE ble cadarnhawyd fod GwE yn y broses o dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r sgiliau byddai cyflogwyr yn dymuno eu cael.

ii.Mae pryder ynglŷn â'r ail-strwythuro sydd yn cymryd lle yn Gyrfa Cymru

iii.Mae rôl Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn hynod bwysig ac mae'r gwaith ynghlwm a'r Bwrdd Uchelgais yn allweddol bwysig

iv.O ran STEM ac AD TRAC – mae yn hynod bwysig bo Addysg gyda mewnbwn i'r Cwmni Gyrfa - mae gwaith dadansoddi angen ei wneud yma.

Cytunwyd i gymeradwyo derbyn y blaenoriaethau gyda chais i'r Bwrdd newydd barhau gyda'r blaenoriaethau.

8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB 2016/17

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hefin Owen ble nodwyd bod y tanwariant yn gymharol fychan. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyd-bwyllgor.

9. ADRODDIAD CYLLIDEB 2017/18

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hefin Owen ble nodwyd bod £414,967 o'r gronfa cyllido wrth gefn. Cytunwyd i fabwysiadu y gyllideb a derbyn yr adroddiad.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL GwE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arwyn Thomas gan ddiolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd at yr adroddiad sydd yn canolbwyntio ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Ar ôl ein tywys drwy yr adroddiad nodwyd :

i.Bod angen edrych yn is na CA4 i weld gwraidd y broblem

ii.Bod angen gweld sut i wella carfanau arbennig

iii. Bod angen modd o gefnogi Arweinwyr sydd eisoes yn bodoli gan adnabod talent, gan fod a'r arbenigedd i gefnogi o fewn yr Ysgol/GwE a'r Awdurdod.

Agorwyd y drafodaeth i sesiwn cwestiynau, a holiwyd fel a ganlyn :

i. Ble rydym arni o ran ariannu 80 Cynradd / 20 Uwchradd? Cadarnhawyd bod hyn yn cael ei weithredu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

ii. A oes modd cael darn o waith ar sut mae'r arian am fod yn hunangynhaliol?

iii. A fyddai Pennaeth ysgol ffederal yn cael cyswllt ac un neu ddau Ymgynghorydd Her? Cadarnhawyd mai 2.

Cadarnhawyd y bydd drafft terfynol o'r adroddiad ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Nodwyd mai hwn oedd y cyfarfod diwethaf cyn yr Etholiad. Dymunwyd yn dda i bob un oedd yn ail sefyll a diolchwyd i John Davies am ei gyfraniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 13.40 p.m. a daeth i ben am 15:05 p.m.

CADEIRYDD



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 GORFFENNAF 2017

Report by: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Subject: Adroddiad Blynyddol GwE 2016-17

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE 2016-17.

2.0 Cefndir

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng –Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol.

2.2 Cyflwynwyd y fersiwn drafft yn y cyfarfod cyd-bwyllgor diwethaf, ac mae wedi ei ddiwigio yn dilyn trafodaethau pellach.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Yn ôl ein gweledigaeth, bydd gan GwE:

Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion.

3.2 Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, byddwn yn gosod isafswm disgwyliadau, neu ddisgwyliadau gofynnol, i ni'n hunain, ac i ysgolion.

Dyma'r disgwyliadau hyn:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda;

- Addysgu da;
- Cael gwared ar amrywiad o fewn ysgol;
- Dim un o ysgolion GwE i fod mewn categorïau statudol Estyn;
- Dysgu a lles disgyblion yn dda, o leiaf;
- Dyfodol Llwyddiannus ar waith

3.3 Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n disgwyliadau, rydym wedi diffinio gwerthoedd gwasanaeth a gwerthoedd personol, a fydd yn gymorth i'n harwain yn ein gwaith. Dyma nhw:

- Ymddiriedaeth;
- Dim tuedd;
- Tegwch;
- Parch at amryfaliaeth;
- Cefnogi a chydweithio;
- Dwyieithrwydd;
- Gwrthrychedd;
- Mynnu safonau uchel;
- Gonestrwydd.

3.4 Mae blaenoriaethau cynllun busnes GwE ar gyfer 2017-18 fel sydd isod:

- **Safonau** - sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.
- **Cwricwlwm ac asesu** - sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.
- **Arweinyddiaeth** - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
- **Lles** - creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.
- **Addysgu** - sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.
- **Busnes** - sicrhau bod gan GwE lywodraethu cadarn a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.
- **Argymhellion Estyn** - sicrhau bod cynnydd angenrheidiol yn cael ei wneud yn erbyn pob argymhelliad o fewn yr amserlen ddisgwyliedig:
 - **A1:** Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella

perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.

- **A2:** Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
- **A3:** Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.
- **A4:** Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.
- **A5:** Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.
- **A6:** Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor cymeradwyo a derbyn yr adroddiad

5.0 Goblygiadau ariannol

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

- 8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

9.0 Atodiadau

- 9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2016-17

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu i'r cynnwys o safbwynt priodoldeb ariannol, ond mae rhai adrannau o'r adroddiad yn cynnwys cyfeiriad at "gampau nesaf". Bydd angen gweithredu oddi fewn yr adnoddau

ariannol cyfredol, sydd eisoes yn cynnwys targed arbedion £131,967 sefydlwyd yng nghyllideb 2016/17, lle disgwylir i'r Rheolwr Gyfarwyddwr gyflwyno cynllun gweithredu.

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-2017

CYNNWYS

1. Gweledigaeth
2. Crynodeb Gweithredol
3. Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes am 2017-18
4. Safonau
 - Cyd-destun
 - Cyfnod Sylfaen
 - Cyfnod Allweddol 2
 - Cyfnod Allweddol 3
 - Cyfnod Allweddol 4
 - Cyfnod Allweddol 5
 - Safonau Llythrennedd
 - Safonau Rhifedd
 - Safonau yn y Gymraeg
5. Safonau (Grwpiau o Ddysgwyr)
 - Bechgyn a Genethod
 - Prydau Ysgol am Ddim
 - Plant Mewn Gofal
 - Saesneg fel iaith ychwanegol
 - Anghenion Addysgol Arbennig
 - Tarddiad Ethnig
 - Sipsiwn a Theithwyr
 - Mwy Abl a Thalentog
6. Proffil Arolygiadau Ysgolion Estyn
7. Categoriaddio Cenedlaethol
8. Darpariaeth
 - Cefnogaeth
 - Effaith rhaglenni cefnogaeth
 - Monitro, herio ac ymyrryd
 - Cwricwlwm, addysgu ac asesu
 - Asesu
 - Grwpiau o ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr bregus
 - Cymorth ar gyfer arwain, rheoli a llywodraethu
 - Hyrwyddo a chyflawni mentrau Llywodraeth Cymru
9. Arweinyddiaeth
 - Gweithio mewn Partneriaeth
 - Gwerth am Arian

Atodiadau

1. Safonau
2. Safonau Grwpiau o Ddysgwyr
3. Deilliannau Arolygiadau Estyn: Medi 2015-Mawrth 2017

1. GWELEDIGAETH

Yn ôl ein gweledigaeth, bydd gan GwE:

Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, byddwn yn gosod isafswm disgwyliadau, neu ddisgwyliadau gofynnol, i ni'n hunain, ac i ysgolion.

Dyma'r disgwyliadau hyn:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda;
- Addysgu da;
- Cael gwared ar amrywiad o fewn ysgol;
- Dim un o ysgolion GwE i fod mewn categorïau statudol Estyn;
- Dysgu a lles disgyblion yn dda, o leiaf;
- Dyfodol Llwyddiannus ar waith

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n disgwyliadau, rydym wedi diffinio gwerthoedd gwasanaeth a gwerthoedd personol, a fydd yn gymorth i'n harwain yn ein gwaith. Dyma nhw:

- Ymddiriedaeth;
- Dim tuedd;
- Tegwch;
- Parch at amryfaliaeth;
- Cefnogi a chydweithio;
- Dwyieithrwydd;
- Gwrthrychedd;
- Mynnu safonau uchel;
- Gonestrwydd.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

SAFONAU

Cryfderau perfformiad;

- Cyfnod Allweddol 2 - mae'r cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] rhwng 2014 a 2016 yn uwch na'r cynnydd yn genedlaethol. Yn 2016, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint. Yn 2016, perfformiodd 3 o'r 6 awdurdod yn well na'u safle PYD, neu'n debyg.
- Yn 2016 yng Nghyfnod Allweddol 3, gwelwyd rhagor o gynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC]. Mae perfformiad y rhanbarth yn y DPC yn dal i fod yr uchaf ymhlith y pedwar consortiwm gyda phob awdurdod, ac eithrio Wrecsam, yn perfformio'n uwch na'u safle PYD, neu'n agos.
- Ar y lefelau uwch [lefel 6+] yng Nghyfnod Allweddol 3, gwelwyd cynnydd ym mhob pwnc craidd. Roedd cynnydd y rhanbarth yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg. Perfformiad mewn mathemateg yw'r gorau o'r pedwar consortiwm, gyda'r tri phwnc craidd arall yn ail orau.

- Cyfnod Allweddol 4 - yn 2016, perfformiodd Gwynedd a Sir Ddinbych fel y disgwyliwyd yn L2+. Yn gyffredinol eleni, perfformiodd Gwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn fel y disgwyliwyd ym mwyafrif y dangosyddion.

Dyma'r meysydd ble mae angen gwella perfformiad:

- Bu cyflymder y cynnydd yn y Cyfnod Sylfaen yn arafach nag a welwyd yn genedlaethol. Mae codi safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwelliant yn y consortiwm.
- Yn gyffredinol, bu cyflymder y cynnydd yn y prif ddangosyddion yn CA4 yn rhy araf o gymharu â gweddill Cymru, a gwella'r perfformiad hwn yw prif flaenoriaeth y consortiwm. Mae gormod o ysgolion ar draws y consortiwm yn perfformio ymhell o dan y disgwyliadau yn L2+. Mae angen rhoi sylw i broffil arolygiadau ysgolion uwchradd.
- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad awdurdodau lleol unigol yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Mae Sir y Fflint yn is na'r disgwyl ym mhob un, gyda Wrecsam a Chonwy yn sylweddol is. Mae gwella safonau yn yr awdurdodau lleol hynny sy'n perfformio'n is na'u safle PYD cymharol yn flaenoriaeth fawr.
- Mae angen gwella deilliannau uwch ar draws y cyfnodau allweddol yn gyflymach.
- Perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim - dros dair blynedd, bu cyfradd y gwelliant yn rhy araf, ac mae'n is na'r cynnydd cyfartalog yn genedlaethol. Yn 2016, roedd perfformiad dysgwyr PYD 4.4. pwynt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y Sgôr Bwyntiau wedi'i Chapio, er bod y bwch rhwng dysgwyr PYD a dim PYD wedi lleihau o 3.2 pwynt.

DARPARIAETH

Cryfderau:

- Rhoddwyd pwyslais cynyddol yn ystod 2016-17 ar wella ansawdd arweinyddiaeth gan ganolbwyntio ar wella ansawdd arfarnu a chynllunio gwelliant. Mae tystiolaeth glir bod y gweithdai arweinyddiaeth a gynhaliwyd ar gyfer arweinwyr ysgolion cynradd wedi arwain at ddeilliannau gwell, a chadernid gwell o fewn ysgolion i yrru eu taith eu hunain tuag at welliant.
- Mae GwE yn darparu ystod o raglenni dysgu proffesiynol i ymarferwyr, yn amrywio o Gymorthyddion Addysgu Lefel Uwch, i Benaethiaid profiadol.
- Bu Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth pob Hwb yn gweithredu'n llawer mwy effeithiol wrth sicrhau ansawdd pob agwedd ar waith yr Ymgynghorwyr Her yn eu timau perthnasol. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan Estyn ar ansawdd yr adroddiadau cyn-arolygu ac ail-arolygu, y cryfaf o'r 4 consortiwm.
- Mae gwella safonau a darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn un o'n blaenoriaethau. Eleni, cynigiwyd rhaglen gefnogaeth ranbarthol i'r Cyfnod Sylfaen am y tro cyntaf, yn edrych ar gynllunio, addysgu, asesu ac arwain. Canolbwyntiwyd ar gynllunio

gweithgareddau heriol a gwahaniaethol i ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 ar draws pob maes addysgu, yn unol ag egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen.

- Mae tîm yr Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd wedi darparu amrywiaeth fawr o raglenni cefnogi a datblygu ar draws y rhanbarth i sicrhau cynllunio a darpariaeth o ansawdd da yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Cafodd bob ysgol yn y categori cefnogaeth coch neu felyngoch raglen gefnogaeth unigryw, wedi'i llunio yn benodol ar gyfer eu hanghenion datblygu nhw. Bu'r gefnogaeth hon yn hollbwysig wrth dynnu wyth ysgol o gategorïau Estyn, ac wrth helpu saith ar ugain o ysgolion i wella'u statws o ran categori cefnogaeth. Ar ben y gefnogaeth uniongyrchol hon i ysgolion, darparwyd rhaglen ddatblygu eang i ysgolion, yn targedu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.
- Mae prosesau a roddwyd ar waith dros y ddwy flynedd diwethaf wedi arwain at ddull mwy cyson o asesu ar draws y rhanbarth Mae safon y cymedroli mewn clystyrau wedi gwella'n sylweddol drwy uwch sgilio arweinwyr ar asesu a hyfforddi ymarferwyr. Drwy adroddiadau'r Ymgynghorwyr Her, gallwn adnabod nifer o arferion da ar draws y rhanbarth mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd.
- Yn rhan o gynnig Dyfodol Llwyddiannus, gweithio gyda phob ysgol i benodol Arweinydd Dyfodol Llwyddiannus ym mhob clwstwr o ysgolion ar draws y rhanbarth, a chynllunio i'w huwch sgilio am y tro cyntaf. Byddwn yn parhau i ddatblygu gwaith ar ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (OECD), a gweithio ar y cyd gyda'r Academi Arweinyddiaeth Addysg newydd yng Nghymru. Mae angen i ni gorffori agenda Dyfodol Llwyddiannus yn rheolaidd yng ngwaith tîm ehangach GwE.

Dyma'r meysydd sydd angen eu datblygu:

- Cynlluniau busnes cadarn sy'n ymateb yn finocach i ddatblygu anghenion awdurdodau ac ysgolion unigol, a drafodwyd ac a gytunwyd gyda rhanddeiliaid.
- Gofalu bod y model uwchradd diwygiedig yn cael ei sefydlu ac yn gweithredu'n effeithiol.
- Bod gan bob ysgol uwchradd yn y categori cefnogaeth coch/melyngoch gynlluniau cefnogaeth ar waith sydd wedi'u llunio'n briodol.
- Sicrhau bod ystod ehangach o ddata a gwybodaeth fyw am gynnydd wrth law i YH, Swyddogion yr ALI ac ysgolion, a bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn amserol a hynny'n gyson ar draws pob lefel o weithredu.
- Rhaglenni DPP i uwch sgilio ymgynghorwyr her ymhellach.
- Ystod cyfoethocach o raglenni datblygu ar gael i ysgolion, ar lefel ranbarthol, ALI a chlwstwr/grŵp.
- Defnyddio penaethiaid llwyddiannus yn fwy effeithiol i ategu sail arbenigedd a sgiliau'r tîm.
- Defnyddio YH pynciol yn fwy effeithiol, a defnyddio rhwydweithiau pynciol i gryfhau cydweithio adrannol.

- Ysgolion yn gweithredu ar yr arweiniad rhanbarthol ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig o ran 'ffit orau' mewn asesiadau athro.
- Targedu arweiniad yn effeithiol i arweinwyr mewn meysydd strategol allweddol [hunan arfarnu, cynllunio gwelliant, herio asesiadau ac ati].

ARWEINYDDIAETH

Ers sefydlu GwE yn 2013, mae'r disgwyliadau o ran rôl y Consortia wedi codi'n sylweddol. Mae adolygiad pellach o'r Model Cenedlaethol ar fin cael ei gynnal ac mae'n glir bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r cyfrifoldebau ymhellach byth i feysydd Llesiant, Tegwch ac efallai Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Cryfderau:

- Dros y tair blynedd diwethaf, mae perthynas GwE ag ysgolion wedi gwella wrth i'r sefydliad ddod o hyd i well cydbwysedd rhwng yr angen i gefnogi ysgolion a'u herio. Mae'r her a'r gefnogaeth i'r sector cynradd yn dda ar y cyfan, ac mae'r mynediad at raglenni hyfforddi a datblygu wedi gwella a dod yn gliriach.
- Mae'r swyddogaeth craffu wedi aeddfedu ar draws y rhanbarth Mae gan aelodau craffu lleol well dealltwriaeth o bwrpas GwE a'i amcanion. Yn yr achosion gorau, mae aelodau pwyllgorau craffu wedi ymweld ag ysgolion i ofyn am farn penaethiaid ynghylch y ffordd y mae GwE yn herio ac yn cefnogi ysgolion Maent wedi dod â'u canfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor ac wedi cynnal cyfarfod trioglgu ag arweinydd hwb GwE a swyddogion yr ALI i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu
- Yn gyffredinol, mae prosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith gan y consortiwm. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r cyd bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae'r broses cynllunio busnes wedi'i gwella'n sylweddol yn ddiweddar ac mae'n fwy cadarn o lawer erbyn hyn. Mae gan uwch arweinwyr yn y consortiwm, ac yn yr Awdurdodau Lleol, fwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros y broses. Mae'r strwythur atebolrwydd yn gliriach a'r prosesau monitro'n fwy cadarn.
- Mae GwE yn gweithio'n dda i hyrwyddo blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae wedi gwneud cynnydd da ar yr agenda Dyfodol Llwyddiannus, o ran ei ddeall a'i gyflawni ar y dechrau. O ganlyniad, mae GwE mewn lle da i barhau i hyrwyddo a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae nifer cynyddol o ysgolion Arloesi ar draws rhanbarth GwE ac mae dull amserol a chynlluniedig ar waith yn awr i ymgysylltu â'r holl ysgolion drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu effeithiol.

Dyma'r meysydd sydd angen eu datblygu:

- Y sector uwchradd - oherwydd y model hawliau 80:20 sy'n gweithredu ar hyn o bryd a'r anhawster o ran recriwtio ymgynghorwyr amser llawn o safon dda, mae diffyg mynediad o hyd at Ymgynghorwyr Her amser llawn effeithiol ar gyfer y sector uwchradd Mae hyn yn arbennig o ddifrifol mewn meysydd blaenoriaeth fel arweinyddiaeth ar wahanol lefelau, Mathemateg a Saesneg. Mae'r diffyg capasiti hwn yn y sector uwchradd yn llesteirio gallu GwE i gael effaith yn syth.

- Y swyddogaeth craffu - gwneir rhagor o waith wrth i aelodau gysgodi ymgynghorwyr her GwE mewn gwahanol agweddau ar eu gwaith i ddyfnhau eu dealltwriaeth yn fwy byth.
- Gwella ein dadansoddi ariannol i'n cefnogi wrth gyflawni ein cynllun busnes diwygiedig dros dair blynedd. Datblygir cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu i gyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

3. BLAENORIAETHAU'R CYNLLUN BUSNES AM 2017-18

1. **Safonau** - sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.
2. **Cwricwlwm ac asesu** - sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.
3. **Arweinyddiaeth** - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
4. **Lles** - creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.
5. **Addysgu** - sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.
6. **Busnes** - sicrhau bod gan GwE lywodraethu cadarn a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.
7. **Argymhellion Estyn** - sicrhau bod cynnydd angenrheidiol yn cael ei wneud yn erbyn pob argymhelliad o fewn yr amserlen ddisgwyliedig:
 - A1:** Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.
 - A2:** Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
 - A3:** Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.

A4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.

A5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cydbwyllgor.

A6: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolog yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.

4. SAFONAU

Cyd-destun

Mae Tabl 1 yn dangos canran y disgyblion o oedran ysgol statudol a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim dros y pedair blynedd diwethaf, mewn cymhariaeth â Chymru a'r awdurdodau unigol.

Mae'r safleoedd yn dangos sefyllfaoedd yr awdurdodau mewn cymhariaeth â'r awdurdodau yng Nghymru, a'r safle uchaf yn dangos y cohort lleiaf o ddisgyblion 5-15 mlwydd oed sy'n cael PYD. Y ganran yn y rhanbarth sy'n cael PYD yw'r isaf o'r 4 consortiwm. Mae'r Tabl yn awgrymu, gan gymryd bod yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd, y dylai perfformiad Ynys Môn yn 2016, er enghraifft, fod yn ddegfed yn fras ymhlith yr holl awdurdodau yng Nghymru, h.y. yn cyfateb i'r safle prydau ysgol am ddim.

Tabl 1: canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim [PYD]

	2013		2014		2015		2016	
	%	Safle	%	S	%	S	%	S
Ynys Môn	20.5	13	18.5	11	17.4	11	17.0	10
Gwynedd	13.7	5	12.9	4	13.3	4	13.0	4
Conwy	18.3	9	18.1	10	17.1	9	16.2	8
Sir Ddinbych	19.1	11	19.4	13	19.0	13	19.1	14
Sir y Fflint	13.5	4	13.9	5	14.9	6	15.0	6
Wrecsam	18.1	8	18.0	9	16.6	8	16.4	9
GwE	16.7	1	16.4	1	16.1	1	15.9	1
Cymru	19.5		19.1		18.8			

Dengys y tablau isod gynnydd dros gyfnod treigl yn y prif ddangosyddion ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Mae Tabl 2 yn crynhoi safleoedd yr awdurdodau mewn cymhariaeth ag awdurdodau Cymru yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol. Y rhif rhwng cromfachau yw safle cymharol yr awdurdod ar sail canran y disgyblion 5-15 oed sy'n cael PYD [gweler Tabl 1]. Trafodir hyn yn fanylach yn y sylwadau am bob cyfnod allweddol yn yr adroddiad hwn.

Tabl 2: crynodeb o safleoedd yr awdurdodau yn y prif ddangosydd ar gyfer pob cyfnod allweddol [Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4]


	2014				2015				2016			
	DCS	DPC CA2	DPC CA3	L2+	DCS	DPC CA2	DPC CA3	L2+	DCS	DPC CA2	DPC CA3	L2+
Ynys Môn (10)	12	7	9	14	15	3	9	12	20	9	7	13
Gwynedd (4)	10	14	1	5	11	6	1	5	14	7	2	4
Conwy (8)	13	17	8	11	21	19	6	18	21	20	9	17
Sir Ddinbych (14)	9	10	10	10	13	12	12	14	10	14	12	14
Sir y Fflint (6)	14	13	5	3	9	11	7	8	13	5	6	10
Wrecsam (9)	20	19	16	18	19	14	19	20	15	18	16	18
GwE (1)	3	4	1	2	4	2	1	3	3	3	1	3

*Y rhif rhwng cromfachau yw'r safle PYD (1 flwyddyn)

Mae perfformiad awdurdodau lleol unigol mewn perthynas â'u safleoedd o ran derbyn PYD yn y prif ddangosyddion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Yn 2016, dim ond Sir Ddinbych a oedd yn perfformio'n dda yn y prif ddangosydd yn yr holl gyfnodau allweddol ac mae perfformiad Gwynedd yn dda yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae perfformiad Wrecsam a Chonwy yn is na'u safleoedd PYD yn y prif ddangosydd ym mhob un o'r cyfnodau allweddol (ac eithrio Conwy yn CA3).

Cyfnod Sylfaen

Tabl 3: canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS]



Bu cyflymder y cynnydd yn y Cyfnod Sylfaen yn arafach nag a welwyd yn genedlaethol. Mae codi safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwelliant yn y consortiwm.

Mae perfformiad GwE yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn y trydydd safle o blith y 4 consortiwm rhanbarthol, ac mae perfformiad 5 o'r 6 Awdurdod Lleol yn is na'r disgwyl mewn perthynas â'u safle PYD (Sir Ddinbych yw'r unig ALI sy'n perfformio'n well na'r disgwyl ar sail


y model). Yn asesiadau athrawon 2016, gwelwyd cynnydd bach yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DCS. Ar draws y rhanbarth, Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen sydd wedi arwain y gefnogaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn hanesyddol.

Y camau nesaf:

- sicrhau bod addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei chyflawni'n effeithiol a bod yr addysgu'n dda yn gyffredinol;
- cael gwared â'r dehongliad 'ffit orau' anghyson ar draws y rhanbarth;
- sicrhau bod asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn adlewyrchu safonau disgyblion unigol yn glir.

Cyfnod Allweddol 2

Tabl 4: Canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yng Nghyfnod Allweddol 2 [CA2]




Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r cynnydd o ran canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] rhwng 2014 a 2016 yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol. Er hynny, cafwyd ychydig yn llai o gynnydd y flwyddyn hon [0.6% o'i gymharu â 0.9% ar lefel genedlaethol]. Yn 2016, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint, ac Ynys Môn oedd yr unig awdurdod lle cafwyd gostyngiad. Yn 2016, roedd 3 o'r 6 awdurdod wedi perfformio'n well neu'n debyg i'w safle PYD, a dim ond 2 awdurdod [Conwy a Wrexham] oedd wedi perfformio ar lefel is o lawer na'u safle PYD disgwylidig. Gwelwyd cynnydd yng nghanran y dysgwyr PYD a gyflawnodd y DPC, ac yn y pedwar pwnc craidd ar y lefel ddisgwylidig. Fodd bynnag, mae perfformiad dysgwyr PYD ar y lefelau uwch yn faes sydd angen ei wella.

Y camau nesaf:

- gwella perfformiad ysgolion yng Nghonwy a Wrexham;
- codi disgwyliadau drwy osod targedau ymestynnol i ysgolion er mwyn gwella perfformiad;
- sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer cymedroli clwstwr er mwyn gofalu bod asesiadau'n adlewyrchu safonau dysgwyr unigol yn gywir.

Cyfnod Allweddol 3

Tabl 5: Canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yng Nghyfnod Allweddol 3 [CA3]



Yn 2016 yng Nghyfnod Allweddol 3, gwelwyd rhagor o gynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC]. Mae perfformiad y rhanbarth yn y DPC yn dal i fod yr uchaf ymhlith y pedwar consortiwm gyda phob awdurdod, ac eithrio Wrecsam, yn perfformio'n uwch na'u safle PYD, neu'n agos. Yn 2016, ar y lefel ddisgwyliedig, perfformiad y rhanbarth yw'r uchaf o'r 4 consortiwm ym mhob pwnc craidd. Ar y lefelau uwch, gwelir cynnydd ym mhob pwnc craidd. Fodd bynnag, er bod cynnydd y rhanbarth yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, mae'n is ar gyfer y pynciau craidd eraill ac, mewn rhai awdurdodau lleol, mae angen rhagor o welliant yn y perfformiad ar y lefelau uwch (yn enwedig mewn perthynas â pherfformiad bechgyn). Gwelir cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion PYD sy'n cyflawni'r DPC. Gwelwyd cynnydd hefyd ymysg disgyblion PYD ym mhob un o'r 4 pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefelau uwch. Er hynny, mae perfformiad dysgwyr PYD mewn rhai awdurdodau yn peri pryder o hyd.



Y camau nesaf:

- gwella perfformiad awdurdod lleol Wrecsam ac ysgolion unigol ar draws y rhanbarth;
- gwella addysgu;
- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Cyfnod Allweddol 4

Yn gyffredinol, bu cyflymder y cynnydd yn y prif ddangosyddion yn CA4 yn rhy araf o gymharu â gweddill Cymru, a gwella'r perfformiad hwn yw prif flaenoriaeth y consortiwm.



Tabl 6a: canran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Cynwysedig Lefel 2 [L2+] heb gynnwys 'mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol'



Consortia	2011	2012	2013	2014	2015	2016
GwE	52.1	53.2	56.0	57.1	57.5	60.5
EAS	44.4	46.4	49.0	52.2	55.1	
ERW	53.9	54.8	55.6	57.9	61.0	
CSC	47.0	47.8	49.4	54.1	58.5	
Cymru/Wales	50.1	51.1	52.7	55.4	57.9	

ALI / LA	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Ynys Mon	47.9	52.2	54.2	53.8	56.9	59.3
Gwynedd	53.4	55.0	58.0	61.1	63.3	69.0
Conwy	49.8	49.3	56.0	55.5	54.2	56.0
Denbighshire	52.5	54.7	53.4	55.6	56.1	60.9
Flintshire	58.2	59.6	62.2	61.9	60.6	61.7
Wrexham	46.2	45.3	48.4	51.0	52.1	55.4

Tabl 6b: canran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Cynwysedig Lefel 2 [L2+] yn cynnwys 'mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol'



Consortia	2011	2012	2013	2014	2015	2016
GwE	52.1	53.2	56.0	57.1	57.5	59.6
EAS	44.4	46.4	49.0	52.2	55.1	55.5
ERW	53.9	54.8	55.6	57.9	61.0	64.0
CSC	47.0	47.8	49.4	54.1	58.5	60.9
Cymru/Wales	50.1	51.1	52.7	55.4	57.9	60.3

ALI / LA	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Ynys Mon	47.9	52.2	54.2	53.8	56.9	58.8
Gwynedd	53.4	55.0	58.0	61.1	63.3	65.9
Conwy	49.8	49.3	56.0	55.5	54.2	55.9
Denbighshire	52.5	54.7	53.4	55.6	56.1	58.7
Flintshire	58.2	59.6	62.2	61.9	60.6	61.5
Wrexham	46.2	45.3	48.4	51.0	52.1	55.3

Mae'r cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni Trothwy Cynwysedig Lefel 2 [L2+] yn uwch o lawer eleni [+2.1% neu +3.0% heb gynnwys 'mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol'] na'r cynnydd a welwyd yn 2015 [0.4%]. Yn 2016, mae pob un o'r 6 awdurdod wedi gwneud cynnydd yn L2+, a gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd a Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion ar draws y consortiwm yn perfformio ymhell o dan y disgwyliadau yn L2+.

Mae Tabl 7 yn dangos safle perfformiad pob ALI yn y dangosyddion perfformiad allweddol [Lefel 2+, Lefel 1, Lefel 2, Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio a 5A*-A] mewn cymhariaeth â phob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Tabl 7: crynodeb o safleoedd yr awdurdodau yn y dangosyddion perfformiad allweddol yn CA4

	2014					2015					2016				
	L2+	L1	L2	SPCh	5A*-A	L2+	L1	L2	SPCh	5A*-A	L2+	L1	L2	SPCh	5A*-A
Ynys Môn (10)	14	6	9	3	10	12	8	16	9	13	13	5	15	11	10
Gwynedd (4)	5	1	4	1	2	5	1	6	1	3	4	1	10	4	8
Conwy (8)	11	8	8	11	8	18	14	14	17	16	17	18	17	17	19
Sir Ddinbych (14)	10	11	2	5	9	14	17	11	10	8	14	20	14	16	14
Sir y Fflint (6)	3	14	15	13	19	8	18	15	15	15	10	13	16	15	12
Wrecsam (9)	18	21	21	20	20	20	20	22	21	20	18	19	21	18	21
GwE (1)	2	2	2	2	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3

Mae perfformiad yr awdurdodau lleol unigol yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Yn 2016, Gwynedd a Sir Ddinbych yw'r unig ddau awdurdod sydd wedi perfformio yn ôl y disgwyl yn L2+. Yn gyffredinol y flwyddyn hon, mae Gwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn wedi perfformio yn ôl y disgwyl ym mwyaf y dangosyddion; Mae Sir y Fflint wedi perfformio'n is na'r disgwyl ym mhob un, a Wrecsam a Chonwy wedi perfformio'n is o lawer na hynny. Mae gwella safonau yn yr awdurdodau lleol hynny sy'n perfformio'n is na'u safle PYD cymharol yn flaenoriaeth bwysig.

Cafwyd cynnydd cadarn yng nghanran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-C mewn Saesneg yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych. Fodd bynnag, dim ond cynnydd bach a welwyd yng Nghonwy a gostyngiad yn Wrecsam a Sir y Fflint. Bu cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-C mewn Mathemateg ym mhob un o'r 6 awdurdod. Er hynny, mae'r cynnydd yn amrywio'n sylweddol rhwng yr awdurdodau a chafwyd y cynnydd lleiaf yng Nghonwy a Sir y Fflint. Mae'r perfformiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn parhau'n dda ledled y rhanbarth ac yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr yn hytrach na cohort y flwyddyn gyfan. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yn y ganran a enillodd raddau A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yng Ngwynedd (yr awdurdod lle mae'r ganran uchaf o'i gohort yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf). Mae canran y dysgwyr sydd wedi cyflawni Gwyddoniaeth Lefel 2 yn y rhanbarth yn is eleni. Gwelwyd gostyngiad o'r fath hefyd ar lefel genedlaethol gan fod mwy o ysgolion yn cyflwyno disgyblion i ddilyn TGAU Gwyddoniaeth yn hytrach na chymwysterau galwedigaethol. Cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn Gwyddoniaeth Lefel 2 yng Nghonwy, tra bu cynnydd sylweddol yn Wrecsam.

Yn 2016, roedd tua un rhan o dair o'r holl ysgolion o fewn 1% i'w rhagamcanion terfynol ar gyfer L2+; roedd tua dwy ran o dair wedi cyrraedd eu rhagamcan neu o fewn 5% iddo; a dim ond mewn 6 ysgol (11%) yr oedd perfformiad 10% yn is na'u rhagamcanion. Mae hyn yn well na'r sefyllfa yn 2015 pan oedd gormod o ysgolion yn is na'u rhagamcanion terfynol. Serch hynny, mae'n dal yn faes sydd angen ei wella ymhellach. Yn gyffredinol yn 2016, mae gormod o ysgolion ar draws y rhanbarth yn perfformio'n is na'r canolrif yn y meincodi ar gyfer PYD yn y dangosyddion perfformiad allweddol (heblaw ar Lefel 1), ac mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn yn peri pryder. Mae perfformiad ysgolion unigol yn amrywio'n sylweddol o fewn Awdurdodau Lleol, a rhyngddynt. Er bod y proffiliau meincodi PYD ar gyfer Gwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn gystal neu'n well na'r disgwyl yn gyffredinol, mae'r proffiliau ar gyfer Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam yn peri pryder gan fod gormod o ysgolion o dan y canolrif yn y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r dangosyddion allweddol.

Y camau nesaf:

- cyflwyno rhaglen gydlynol wedi'i thargedu mewn tua hanner o'n hysgolion uwchradd i wella safonau, y broses o gynllunio'r cwricwlwm, ac arweinyddiaeth;
- cysoni mentrau cenedlaethol ag anghenion gwella lleol mewn ysgolion.

Cyfnod Allweddol 5

Mae'r model darparu ar gyfer Cyfnod Allweddol 5 yn amrywio o fewn awdurdodau, ac ar draws y rhanbarth. Cyflwynir y ddarpariaeth un ai gan ysgolion unigol, colegau chweched dosbarth, colegau addysg bellach neu ysgolion (a cholegau) yn cydweithio o fewn y consortiwm. Oherwydd hyn, mae'n anodd dod i gasgliad ystyrion ynghylch perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 5 mewn ysgolion yn y rhanbarth. Er hynny, mae'r data a gasglwyd gan ysgolion yn dangos bod perfformiad ysgolion ar y graddau uwch (A*-A) yn agwedd sydd angen ei gwella.

Y camau nesaf:

- penodi arweinydd rhanbarthol ar gyfer Safon Uwch ac ôl-16;
- adolygu'r her a'r gefnogaeth ar gyfer darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion;
- gwella perfformiad ar y graddau uwch.

Safonau Llythrennedd

Gwnaed cynnydd cadarn wrth ddatblygu llythrennedd ar draws y rhanbarth yn y rhaglenni targed. Gweithredwyd strategaeth ddiwygiedig yn llwyddiannus, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar wella perfformiad dysgwyr yn yr ysgolion targed. Cafodd bob ysgol yn y categori cefnogaeth coch neu felyngoch raglen gefnogaeth unigryw mewn Llythrennedd, a arweiniodd at wyth ysgol yn y rhanbarth yn cael eu tynnu'n llwyddiannus o gategori Estyn, a saith ar hugain yn gwella yn eu categori cefnogaeth. Bu'r Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth Llythrennedd Cynradd hefyd yn gweithio'n effeithiol gyda 73 ysgol ar draws y rhanbarth y gwelwyd eu bod yn perfformio, yn hanesyddol, yn is na chwarteli meincnodau PYD ar gyfer Saesneg ac/neu Gymraeg, ac felly hefyd yn y Dangosydd Pynciau Craidd. Yn y gweithdai cydweithredol hyn gyda chyfoedion, defnyddiwyd tystiolaeth uniongyrchol o lyfrau disgyblion targed i ganolbwyntio ar:

1. wella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion yn briodol, ar bob lefel
2. Defnyddio'r rhaglenni astudio fel dogfen gynllunio
3. Darparu adborth priodol i ddysgwyr adnabod a thargedu'r camau nesaf yn eu dysgu
4. Sicrhau arferion asesu manwl gywir.

Wrth ddadansoddi'r ail ragdybiaethau a gasglwyd gan ysgolion, o'u cymharu â'r targedau cychwynnol, dangosir bod y cynnydd cyfartalog yn y DPC i ysgolion oedd yn cael yr ymyrraeth hon yn 3.23% o gymharu â chynnydd cyfartalog o 0.76% i ysgolion heb gael yr ymyrraeth hon. Yn yr un modd, ar y lefelau uwch, rhoddodd y gefnogaeth effeithiol hon gynnydd cyfartalog o 6.27% mewn Saesneg L5+, o gymharu â 2.08% mewn ysgolion eraill. Gwelwyd yr un patrwm i ysgolion a gafodd gefnogaeth mewn Cymraeg Iaith Gyntaf a gyflawnodd gynnydd cyfartalog o 4.79% mewn L5+, 3.54% yn uwch na'r ysgolion heb gael y gefnogaeth hon. Gyda chyfanswm gwariant fesul ysgol o £256.10, mae'r rhaglen gefnogaeth hon yn rhoi gwerth da am arian.

Mae canlyniadau profion darllen cenedlaethol cyfrwng Saesneg yn 2016 yn dangos bod canlyniadau rhanbarthol ar gyfer SS<85 wedi aros yn gyson is na'r gyfran ddisgwyliedig o 16%. Er hynny, mae perfformiad ar gyfer SS>115 wedi gostwng 0.9% dros dair blynedd i fod yn is na'r gyfran ddisgwyliedig o 16% yn 2016. Mae'r perfformiad rhanbarthol yn 3ydd ar

gyfer SS>85 ac yn 4ydd ar gyfer SS>115. Mae canlyniadau profion darllen cenedlaethol cyfrwng Saesneg yn dangos bod y ganran yn cyflawni SS<85 yn sylweddol is na'r profion darllen Cymraeg ym mhob cyfnod allweddol. Mae perfformiad SS>115 wedi disgyn ychydig dros dair blynedd yn CA2 a CA3, tra bu canlyniadau'r CS yn anwadal dros yr un amser, gan ostwng o'r canlyniad uchaf mewn tair blynedd ar 16.4%, i 15.7% eleni. Mae canlyniadau profion darllen cenedlaethol Cymraeg ar gyfer SS>85 wedi aros yn is na'r cyfrannau disgwyledig am y tair blynedd diwethaf, tra gwelwyd canlyniadau SS>115 yn aros yn uwch na'r gyfran ddisgwyledig. O ganlyniad, mae'r perfformiad rhanbarthol yn 2016 yn 3ydd ar gyfer SS>85, ac yn 2il ar gyfer SS>115 yn 2016. Perfformiodd CA3 yn gadarn yn y profion darllen Cymraeg o gymharu â'r cyfnodau eraill ar gyfer <85 a >115. Er hynny, mae perfformiad ar gyfer SS>115 ym mhob cyfnod allweddol wedi gostwng 2.2% ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf.

Y camau nesaf:

- Codi lefel yr her a'r amrywiaeth o'r mathau o destunau a ddefnyddir ym mlynedd 1 a 2 a CA2, er mwyn galluogi disgyblion i gyrraedd lefel y ddealltwriaeth sy'n ddisgwyledig.
- Datblygu'r agwedd Ymateb a Dadansoddi yn y rhaglenni astudio Saesneg ar gyfer Darllen yn CA2 yn nosbarthiadau CA2 a CA3.
- Mae angen datblygu ymhellach Darllen dan Arweiniad, fel ffordd benodol a chynnil o gyflwyno 'darllen er mwyn dysgu', ar draws y rhanbarth yn CA2 a CA3.
- Datblygu rhaglen, fesul hanner tymor, o gyfarfodydd rhwydwaith arweinwyr llythrennedd i ganolbwyntio ar gyfleu negeseuon a disgwyliadau allweddol mewn Llythrennedd a Rhifedd.

Safonau Rhifedd

Gwnaed cynnydd cadarn wrth ddatblygu Rhifedd ar draws y rhanbarth yn y rhaglenni targed. Drwy weithredu strategaeth Rifedd effeithiol, darparwyd cefnogaeth effeithiol i bob ysgol mewn categori cefnogaeth coch neu felyngoch. O ganlyniad i'r rhaglenni unigryw hyn, tynnwyd wyth ysgol o gategorïau Estyn, a llwyddodd saith ar hugain o ysgolion i wella'u statws o ran categori cefnogaeth. Bu'r Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth Rhifedd yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda 73 ysgol ar draws y rhanbarth y gwelwyd eu bod yn perfformio yn y chwarteli meincnodi PYD isaf. Bu'r rhaglen gefnogaeth fuddiol hon yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion disgyblion yn briodol, ar bob lefel, drwy ddefnyddio'r rhaglenni astudio yn effeithiol fel dogfen gynllunio, a thrwy ddarparu adborth priodol i ddysgwyr adnabod a thargedu'r camau nesaf yn eu dysgu. Ochr yn ochr â sicrhau arferion asesu manwl gywir, roedd y rhaglen effeithiol hon o weithdai cydweithredol yn annog gweithio cyfoed i gyfoed, gyda'r thystiolaeth yn llyfrau disgyblion yn sail i hyn. O ganlyniad uniongyrchol, gwelwyd cynnydd cyfartalog o 3.99% mewn L4+ mathemateg gan yr ysgolion a fu'n rhan o'r rhaglen (o'r targed cychwynnol i'r ail ragdybiaeth), sef 2.37% yn fwy na phob ysgol arall. Yn yr un modd, mae'r cynnydd cyfartalog o 5.96% mewn Mathemateg ar gyfer L5+, mewn ysgolion sy'n cael y gefnogaeth, yn sylweddol uwch na'r 2.53% a welir ym mhob ysgol arall.

Mae perfformiad y rhanbarth yn y profion Gweithdrefnol cenedlaethol wedi aros yn is na'r gyfran ddisgwyledig o 16% ar gyfer SS<85 am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad ar gyfer SS>115 wedi gostwng 0.9% dros y tair blynedd diwethaf i fod yn is na'r gyfran ddisgwyledig dros y cyfnod hwnnw. Mae perfformiad ar gyfer SS<85 yn y profion Rhesymu cenedlaethol wedi aros o leiaf 4.2% yn is na'r cyfrannau disgwyledig. Mae'r perfformiad rhanbarthol ar gyfer SS>115 wedi bod yn uwch na'r gyfran ddisgwyledig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar ôl codi 2% yn 2015, mae'r canlyniad rhanbarthol wedi gostwng 1.5% i

16.3% yn 2016. Yn 2016, mae'r perfformiad rhanbarthol yn 2il ar gyfer SS>85 ac yn 3ydd ar gyfer SS>115. Mae perfformiad ar y lefel uwch ar gyfer SS>115 yn amlwg yn uwch yn y CS, ar 17%, na'r ddau gyfnod allweddol arall. Dros dair blynedd, mae canlyniadau'r CS wedi bod yn 17.2% ar gyfartaledd, ac mae gan CA2 a CA3 sgôr gyfartalog sy'n is na'r gyfran ddisgwyliedig am yr un cyfnod. Mae canlyniadau ar gyfer SS<85 yn y profion Rhesymu wedi aros yn is na'r gyfran ddisgwyliedig dros dair blynedd. Mae'r CS a CA2 wedi cyflawni sgôr safonedig gyfartalog sy'n fwy na 100.

Y camau nesaf:

- Gwella sgiliau gweithdrefnol pob disgybl cynradd. Sicrhau her briodol, pwysigrwydd sgiliau mathemateg pen, a'r gallu i gymhwyso cysyniadau oherwydd dysgu dwfn.
- Datblygu rhesymu Rhifyddol a dealltwriaeth o broses rhesymu systematig wrth ddatrys problemau mewn lleoliadau'r CS.
- Datblygu rhesymu Rhifyddol yn CA2 a CA3 a'r ddealltwriaeth o broses rhesymu systematig wrth ddatrys problemau.
- Sicrhau bod tasgau rhifedd pwrpasol, ymestynnol, difyr a chyfoethog yn cael eu cynllunio, sy'n gysylltiedig â safonau, fel y gall pob dysgwr gyrraedd ei botensial llawn.
- Datblygu rhaglen, fesul hanner tymor, o gyfarfodydd rhwydwaith arweinwyr rhifedd i ganolbwyntio ar gyfleu negeseuon a disgwyliadau allweddol mewn Llythrennedd a Rhifedd.

Safonau yn y Gymraeg

Yn GwE mae'r ganran uchaf o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol (B2, 6, 9 a 11) sydd yn derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf yng Nghymru. Mae'r ganran wedi aros yn gyson dros y 5 mlynedd diwethaf (31.7% yn 2016). Mae'r ganran ar draws Cymru wedi codi 1% dros yr un cyfnod o 18.3% i 19.3%. Mae amrywiaeth fawr ar draws y rhanbarth yn y ddarpariaeth sydd yn amrywio o Wynedd 89.7%, yr uchaf yng Nghymru, i 5.3% yn Sir y Fflint, y pedwerydd isaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ganran sy'n llwyddo i ennill A*-C mewn Cymraeg iaith Gyntaf wedi bod yn dda dros gyfnod treigl, er ei fod wedi gostwng ychydig yn 2016. Mae 28.4% o'r cohort llawn wedi sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf yn 2016 o'i gymharu â 29.2% yn 2015. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg wedi codi i 92.9%, gyda GwE yn perfformio orau o'r holl ranbarthau. Yn 2016, mae'r ganran sy'n cyflawni lefel 6 neu uwch mewn Cymraeg wedi codi i 61.3% ac yn uwch na'r ganran genedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ganran a lwyddodd i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg wedi gostwng gyda GwE yr isaf o'r holl ranbarthau. Mae'r ganran a lwyddodd i gyrraedd lefel 5 neu uwch hefyd wedi gostwng, gyda GwE yn perfformio ail orau o'r holl ranbarthau. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ganran a lwyddodd i gyrraedd y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch yn y Gymraeg wedi gostwng yn 2016.

Y camau nesaf:

- codi safonau Cymraeg yn erbyn y continwwm iaith;
- creu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- gweithredu cynlluniau lleol i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg.

5. SAFONAU - GRWPIAU O DDYSGWYR

Bechgyn a Genethod

Mae perfformiad y bechgyn a'r genethod yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, mae'r genethod yn parhau i berfformio yn well na'r bechgyn, ac mae'r bwlch rhwng perfformiad y genethod a'r bechgyn yn parhau. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a genethod, yn yr holl ddangosyddion, yn amrywio'n fawr yn yr awdurdodau unigol.

Prydau Ysgol am Ddim (PYD)

Yn gyffredinol, bu cyflymder y cynnydd ym mherfformiad dysgwyr PYD yn y prif ddangosyddion yn CA4, yn rhy araf o gymharu â gweddill Cymru. Mae gwella perfformiad dysgwyr PYD yn dal yn flaenoriaeth allweddol i'r rhanbarth.

Mae nifer y disgyblion ar draws y rhanbarth sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i ostwng. Yn 2016, roedd 15.9% o'r holl ddisgyblion oedran statudol yn y rhanbarth yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o gymharu â 17.1% yn 2011. Roedd hyn yn is na'r ganran genedlaethol o 18.8% yn 2016. Mae'r tueddiad yn parhau yn 2017 gyda gostyngiad pellach o 0.4% i 15.5%.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gyda'r bwlch rhwng disgyblion PYD a dim PYD wedi lleihau yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol. Yn 2016, gwelwyd gwelliant o 4.2% yn rhanbarthol ym mherfformiad dysgwyr PYD ar L2+. Roedd hyn yn fwy na'r cynnydd cenedlaethol (4.0%). Serch hynny, dros dair blynedd, bu cyfradd y gwelliant yn rhy araf, ac mae'n is na'r cynnydd cyfartalog yn genedlaethol. Yn 2016, roedd perfformiad dysgwyr PYD a dim PYD yn y Trothwy L1 wedi lleihau o 5.9% i 1.9%, gyda pherfformiad dysgwyr PYD yn codi o 2.3% gyda'r rhanbarth yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (92.7% o gymharu â 92.0% yn genedlaethol). Yn 2016, roedd perfformiad dysgwyr PYD 4.4. pwynt yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio, er bod y bwlch rhwng dysgwyr PYD a dim PYD wedi lleihau o 3.2 pwynt.

Yn 2016, gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghanran y dysgwyr PYD yn cyflawni'r DPC yn CA3 (5.7% o gymharu â 3.5% yn genedlaethol), gyda GwE yn parhau i fod y rhanbarth oedd yn perfformio orau. Mae'r bwlch rhwng dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn parhau i gau yn CA2, CA3 a'r Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, yn gyffredinol dros dair blynedd, nid yw perfformiad dysgwyr PYD yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 wedi gwella ar yr un gyfradd â honno'n genedlaethol ar y lefelau uwch neu ddisgwyliedig.

Plant Mewn Gofal (PMG)

Mae niferoedd plant mewn gofal ar draws y rhanbarth yn fychan – rhwng 0.6% a 1% o'r cohortiau yn 2016 felly gall perfformiad amrywio yn sylweddol yn seiliedig ar berfformiad un unigolyn. Ar y cyfan, mae perfformiad PMG yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn yn y prif ddangosyddion.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn eithriad. Yn 2016, yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad PMG ar L2+ wedi disgyn ychydig i 21.7%, o gymharu â 22.4% y flwyddyn flaenorol.

Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)

Mae nifer y disgyblion a gofnodwyd fel Saesneg fel iaith ychwanegol ar draws y rhanbarth yn weddol fychan – rhwng 1.0% a 4.9% o'r cohortiau yn 2016, felly gall perfformiad amrywio yn

sylweddol yn seiliedig ar berfformiad nifer bach o blant. Mae perfformiad plant y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi disgyn yn 2016 yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod. Yn 2016, yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad dysgwyr SIY yn cyflawni L2+ wedi disgyn (28.6 % o gymharu â 36.2% yn 2015).

Anghenion Addysgol Arbennig - Disgyblion ar Ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy

- Mae perfformiad plant ar ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy, yn y prif ddangosyddion, yn amrywio ar draws y cyfnodau. Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y plant ar ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy sy'n cyflawni L2, wedi disgyn yn 2016 (18.0% o gymharu â 18.8% yn 2015). Yn 2016 yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd ar ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy a lwyddodd yn y Dangosydd Pynciau Craidd. Fodd bynnag, yn y Cyfnod Sylfaen, gwelwyd gostyngiad yn y ganran a lwyddodd yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen.

Perfformiad yn ôl Tarddiad Ethnig

Ar y cyfan, mae perfformiad plant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig, wedi cynyddu yn y prif ddangosyddion, ond mae'n is na'r ganran ar gyfer disgyblion Gwyn/Prydeinig. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ganran o blant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig a lwyddodd i gyrraedd y L2+ wedi cynyddu ychydig (60.9% yn 2016 o'i gymharu â 60.2% yn 2015). Yn 2016, roedd hyn yn cynrychioli 4.6% o'r cohort llawn.

Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r nifer sydd yn y garfan hon yn gymharol fechan ar draws y rhanbarth. Yn 2016, roedd 5 disgybl ym Mlwyddyn 11 ar draws y rhanbarth. Mae'r ganran a lwyddodd i gyrraedd y L2+ wedi disgyn i 20.0% yn 2016 (o'i gymharu â 33.3% yn 2015 a 20% yn 2014). Mae'r cohort hefyd yn fychan yn y cyfnodau allweddol eraill hefyd, ac mae'r ganran sydd wedi llwyddo yn y prif ddangosydd ym mhob cyfnod allweddol wedi gostwng.

Mwy Abl a Thalentog

Yn y deilliannau uwch [deilliant disgwylledig +1] yn y Cyfnod Sylfaen, gwelwyd cynnydd yn y dangosyddion ar gyfer Saesneg, Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol, a oedd yn uwch neu'n debyg i'r cynnydd cenedlaethol. Cafwyd gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd Cymraeg. Mae perfformiad yr awdurdodau lleol unigol yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth.

Ar y lefelau uwch [lefel 6+] yng Nghyfnod Allweddol 2, gwelwyd cynnydd mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, ond mewn Gwyddoniaeth yn unig yr oedd y cynnydd hwn yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol. Nid yw perfformiad y rhanbarth ar y lefelau uwch gystal â'r disgwyl, ac mae hyn yn agwedd sy'n galw am sylw [Ynys Môn: Cymraeg a gwyddoniaeth; Conwy: Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth; Sir Ddinbych: mathemateg a Saesneg; Sir y Fflint: Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth; Wrecsam: Cymraeg, Saesneg a mathemateg].

Ar y lefelau uwch [lefel 6+] yng Nghyfnod Allweddol 3, gwelwyd cynnydd ym mhob pwnc craidd. Roedd cynnydd y rhanbarth yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, ond yn is ar gyfer y pynciau craidd eraill. Perfformiad mewn mathemateg yw'r gorau o'r pedwar consortiwm, gyda'r tri phwnc craidd arall yn ail orau. Mae perfformiadau'r awdurdodau'n well neu'n debyg i'w safleoedd PYD, ac eithrio: Ynys Môn mewn

gwyddoniaeth; Gwynedd mewn Cymraeg [lle mae'r niferoedd sy'n dilyn Cymraeg iaith yn uwch o lawer na'r awdurdodau eraill ar lefel genedlaethol]; Sir y Fflint mewn Gwyddoniaeth, a Wrecsam mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad disgyblion ar 5A*-A wedi mynd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer gwelliant ar draws y rhanbarth.

Y camau nesaf:

- Sicrhau bod Cynlluniau Busnes yr ALI unigol, ble'n berthnasol, yn canolbwyntio ar gau'r bwlch rhwng perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr a gwella cyflawniad disgyblion MAT.
- Sicrhau bod data yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella perfformiad pob grŵp o ddisgyblion.
- Penodi arweinydd rhanbarthol ar gyfer lles a dysgwyr bregus;
- Gofalu bod pob ysgol yn gosod targedau heriol i wahanol grwpiau o ddysgwyr.
- Gofalu bod pob ysgol yn cael ei herio'n gadarn ar ei defnydd o'r GAD i wella deilliannau dysgwyr PYD.
- Adolygu'r defnydd o gyllid rhanbarthol ar gyfer cefnogi Plant Mewn Gofal, a rôl GwE a'r Awdurdodau Lleol;
- cryfhau a datblygu'r cysylltiadau rhwng GwE a gwasanaethau'r awdurdodau lleol i wella'r safonau a gyrhaeddir gan ddisgyblion ADY.

6. PROFFIL AROLYGIADAU YSGOLION ESTYN

Mae'r proffil arolygiadau at gyfer ysgolion Cynradd yn gadarnhaol ac yn dangos gwelliannau pendant. Yn 2015-16, barnwyd bod 70% neu ragor o'r ysgolion a arolygwyd (48 o ysgolion) yn dda neu'n well ym mhob un o'r dyfarniadau allweddol. Mae'r canlyniadau hyn yn cymharu'n ffafriol â'r canlyniadau i Gymru gyfan. Mae'r proffil ar gyfer ysgolion Uwchradd yn llai cadarnhaol, gyda dim ond 44.4 % o'r ysgolion a arolygwyd (9 ysgol) yn cael eu dyfarnu'n dda neu'n well yn yr holl ddyfarniadau allweddol. Mae'r canlyniadau hyn yn well na'r canlyniadau i Gymru gyfan. Fodd bynnag, yn 2015-16, mae canran yr ysgolion uwchradd y barnwyd eu bod yn anfoddhaol mewn pedwar o'r pum dyfarniad allweddol (22.2%), yn uwch o lawer na'r canlyniadau ar gyfer Cymru gyfan. Ysgolion uwchradd yw tair o'r pum ysgol a roddwyd yn y categori 'Gwelliant Sylweddol' neu 'Mesurau Arbennig' ers mis Medi 2015 (arolygiadau a gyhoeddwyd hyd at hanner tymor mis Chwefror 2017). Mae dwy Uned Cyfeirio Disgyblion hefyd yn y categori 'Gwelliant Sylweddol'.

Yn yr arolygiadau ysgolion Cynradd a gyflawnwyd eisoes yn 2016-17, mae'r ffigurau ar gyfer yr holl Ddyfarniadau Allweddol wedi codi'n sylweddol. Yn ystod 2016-17 (hyd at, ac yn cynnwys mis Chwefror 2017), mae cyfanswm o 24 o Sefydliadau Addysgol (22 ysgol gynradd/2 ysgol uwchradd) wedi'u harolygu gan Estyn a'r adroddiad arolygu ar eu cyfer wedi'i gyhoeddi. O blith y rhain:

- Barnwyd bod 19 o ysgolion (79.2%) yn Dda neu'n well ar sail eu perfformiad presennol, 15.2% yn well nag yn 2015-16
- Barnwyd bod 1 ysgol (Uwchradd) yn Anfoddhaol ar sail ei pherfformiad presennol
- Barnwyd bod 18 o ysgolion (75%) yn Dda neu'n well o ran eu rhagolygon gwella, 6.2% yn well nag yn 2015-16
- Nid oedd yr un ysgol wedi'i barnu'n Anfoddhaol o ran ei rhagolygon gwella
- Ni roddwyd 75% o ysgolion (18) mewn unrhyw gategori 'dilyniant'.
- Mae un ysgol (Uwchradd) wedi'i rhoi yn y categori 'Gwelliant Sylweddol', ac nid oes yr un ysgol wedi'i rhoi yn y categori 'Mesurau Arbennig'.

- Barnwyd bod Safonau (CwA1) yn Dda neu'n well mewn 19 o ysgolion (79.2%), 15.2% yn well nag yn 2015-16
- Barnwyd bod Darpariaeth (CwA2) yn Dda neu'n well mewn 20 ysgol (83.3%), 7.5% yn well nag yn 2015-16.
- Barnwyd bod Arweinyddiaeth (CwA3) yn Dda neu'n well mewn 18 o ysgolion (75%), 6.2% yn well nag yn 2015-16.
- Nid oedd yr un ysgol wedi'i barnu'n Anfoddhaol o ran Darpariaeth ac Arweinyddiaeth.

Y camau nesaf:

- Lleihau nifer yr ysgolion uwchradd sydd mewn perygl o ddisgyn i categori statudol Estyn.

7. CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

Fel y nodwyd yn Adroddiad Estyn, mae'r consortiwm yn adnabod ei ysgolion yn gynyddol dda. Mae adroddiadau cyn arolygiad ar gyfer ysgolion gan yr awdurdod lleol, gan ddilyn cyngor gan y consortiwm, yn gyson â deilliannau arolygu i raddau helaeth. Ceir llai o bryderon ymhlith arolygwyr ynglŷn â'r adroddiadau hyn na mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae deilliannau arolygu yn dangos bod ysgolion wedi'u categorio'n briodol ar y cyfan.

Gwelwyd cynnydd yn y ganran o ysgolion cynradd sydd yn ngrŵp safonau 1 neu 2 yng Ngham 1 o'r broses - cynnydd o 58.8% yn 2015-16 i 66.8% yn 2016-17. Yn ychwanegol, gwelwyd cynnydd yn y ganran o ysgolion cynradd sydd wedi derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o'r broses - cynnydd o 85.3% yn 2015-16 i 89.0% yn 2016-17. O'r herwydd, gwelwyd cynnydd yn y ganran o ysgolion cynradd yn y categorïau Gwyrdd a Melyn - cynnydd o 80.7% yn 2015-16 i 84.8% yn 2016-17.

Ar y cyfan, mae proffil categori cefnogaeth cynradd bob awdurdod wedi gwella o gymharu â 2015, gyda chynnydd yn y niferoedd o ysgolion a ddynodwyd yn wyrdd ym mhob awdurdod. Mae'r ganran sydd wedi eu categorio yn felyngoch neu goch wedi gostwng mewn 4 o'r 6 awdurdod; wedi aros yn gyson yn Sir Ddinbych; ac wedi cynyddu o 11.9% i 15.5% yn Wrecsam.

Fodd bynnag, ni welir yr un patrwm o welliant yn yr uwchradd. Dros yr un cyfnod, mae dosraniad y canrannau yn y grwpiau safonau wedi aros yn weddol gyson, gyda chynnydd o 1.8% yn 2016 yn yr ysgolion sydd yng ngrwpiau 1 a 2. Mae'r ganran o ysgolion yng nghategori cefnogaeth Gwyrdd/Melyn wedi llithro o 60.0% yn 2015-16 i 58.2% yn 2016-17. Serch hynny, bu i'r ganran oedd yn derbyn y dyfarniadau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o'r broses, aros yn sefydlog dros y cyfnod [36.4%].

Cymysg ydi'r newidiadau i broffil categori cefnogaeth ysgolion uwchradd ar gyfer yr awdurdodau unigol. Mae'r nifer o ysgolion gwyrdd wedi disgyn yn Ynys Môn (o un i ddim), wedi aros yn gyson yng Ngwynedd a Chonwy ac wedi cynyddu yn y tri awdurdod arall. Mae'r ganran sydd wedi eu categorio yn felyngoch neu goch wedi gostwng yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych ond wedi cynyddu yn y tri awdurdod arall. Nid oes yr un ysgol yn y categori coch yn Ynys Môn, Gwynedd na Chonwy, ac mae'r nifer wedi gostwng hefyd yn Sir Ddinbych a Wrecsam, ond wedi cynyddu yn Sir y Fflint.

Y camau nesaf:

- Mewn ymateb i'r pryderon am berfformiad ysgolion uwchradd, mae'r gwasanaeth wedi diwygio yn llwyr y model gweithredu o Basg 2017 ymlaen.

8. DARPARIAETH

Pa mor dda yr ydym yn darparu cefnogaeth, her ac ymyrraeth yn ein hysgolion??

Cefnogaeth

Datblygwyd modelau penodol a gwahaniaethol o weithredu eleni gydag ysgolion yn y categori cefnogaeth Gwyrdd/Melyn; Categoriâu cefnogaeth Melyngoch/Coch. Bellach, mae gan ysgolion yn y categori cefnogaeth gwyrdd sydd arnynt angen y lefel isaf o gefnogaeth gan GwE, fwy o gyfrifoldeb am eu gwelliant eu hunain. Mae ysgolion yn y categori coch y mae arnynt angen y mwyaf o gefnogaeth, yn cael cefnogaeth ddwysach i ddatblygu eu gallu i wella. Mae'r gweithredu wedi arwain at well cysondeb yn ansawdd y gynhaliath a'r arweiniad i ysgolion ar draws y rhanbarth, ac at sicrhau bod cynlluniau cefnogaeth wedi'u teilwra yn ôl amgylchiadau ac anghenion penodol yn weithredol ym mhob ysgol sydd yn y categorïau dwysaf.

Mae ysgolion, ar draws yr amryfal categorïau cefnogaeth, yn cael mynediad at raglenni ar 3 haen:

- rhaglenni generig rhanbarthol;
- rhaglenni lleol ar sail hwb;
- rhaglenni sydd yn benodol i anghenion yr ysgol ei hun.

Effaith rhaglenni cefnogaeth

Rhodddwyd pwyslais cynyddol yn ystod 2016-17 ar wella ansawdd arweinyddiaeth. Roedd y ddarpariaeth yn datblygu ar weithdai llwyddiannus a gynhaliwyd y llynedd i ysgolion targed, a oedd yn canolbwyntio ar wella ansawdd arfarnu a chynllunio gwelliant. Mae tystiolaeth glir bod y gweithdai arweinyddiaeth a gynhaliwyd ar gyfer arweinwyr ysgolion cynradd wedi arwain at ddeilliannau gwell, a chadernid gwell o fewn ysgolion i yrru eu taith eu hunain tuag at welliant. Gwelwyd cynnydd yn y ganran o ysgolion cynradd yn y categorïau Gwyrdd a Melyn - cynnydd o 80.7% yn 2015-16 i 84.8% yn 2016-17. Yn ychwanegol, gwelwyd cynnydd yn y ganran o ysgolion cynradd sydd wedi derbyn y lefelau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o'r broses - cynnydd o 85.3% yn 2015-16 i 89.0% yn 2016-17. Mae proffil arolygiadau Estyn yn y sector cynradd hefyd yn gadarnhaol ac yn amlygu gwelliannau cadarn. Yn 2015-16, barnwyd bod 70% neu ragor o'r ysgolion a arolygwyd (48 o ysgolion) yn dda neu'n well ym mhob un o'r dyfarniadau allweddol. Yn yr arolygiadau a gyflawnwyd eisoes yn 2016-17 [20 ysgol], mae'r ffigur wedi codi eto i 80.0%. Yn 2015-16, dyfarnwyd barn Anfoddhaol i ansawdd arweinyddiaeth mewn 4.2% o'r ysgolion cynradd a arolygwyd. Yn 2016-17, nid oes yr un ysgol wedi derbyn dyfarniad Anfoddhaol. Fodd bynnag, nid yw'r effaith na'r dylanwad yn gwbl gyson ar draws pob ardal o'r Consortia. Gweithredwyd yn benodol i fynd i'r afael â hyn. Gwelwyd yr effaith mwyaf positif yn y sector cynradd yn awdurdodau Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych.

Dros yr un cyfnod, yn y sector uwchradd, mae'r ganran o ysgolion yn y categori cefnogaeth Gwyrdd/Melyn wedi llithro o 60.0% yn 2015-16 i 58.2% yn 2016-17. Serch hynny, bu i'r

ganran oedd yn cyrraedd y categorïau uchaf [A neu B] yng Ngham 2 o'r broses, aros yn sefydlog dros y cyfnod [36.4%]. Roedd proffil arolygiadau uwchradd yn ystod 2015-16 hefyd yn amlygu pryderon gydag ychydig dros 44.0% yn derbyn dyfarniad Digonol neu Anfoddhaol ar gyfer ansawdd arweinyddiaeth. Er bod patrwm cadarnach bellach mewn rhai awdurdodau, mae rhagor o waith sylweddol angen ei wneud i sicrhau bod deilliannau arolygiadau yn gwella yn yr uwchradd. Mewn ymateb i'r sefyllfa bryderus am berfformiad ysgolion uwchradd, bydd y gwasanaeth yn mynd ati i lwyr ddiwygio'r model gweithredu o Basg 2017 ymlaen, gan sicrhau bod canran sylweddol uwch o Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio yn y sector yn cael eu tynnu i mewn o blith penaethiaid sydd wedi llwyddo yn ddiweddar i arwain gwelliant yn eu hysgolion.

Monitro, Herio ac Ymyrryd

Rhodddwyd blaenoriaeth i gysoni ansawdd y monitro a'r herio ar draws y 3 hwb. Cyflwynwyd rhaglen gefnogaeth ddwys i'r Ymgynghorwyr Her. Yn ogystal â'r rhaglen hyfforddiant, darparwyd llawlyfr pwrsol yn diffinio ac amlygu disgwyliadau. Rhodddwyd trefn ar waith i anwytho staff newydd yn drylwyr. Bu Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth pob Hwb yn gweithredu'n llawer mwy effeithiol wrth sicrhau ansawdd pob agwedd ar waith yr Ymgynghorwyr Her yn eu timau perthnasol. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan Estyn ar ansawdd yr adroddiadau cyn-arolygu ac ail-arolygu, y cryfaf o'r 4 consortiwm. Rhwng 2014 a 2016, nododd Estyn fod pryderon sylweddol neu fawr am y barnau mewn 16.1% o'r adroddiadau gan GwE. Roedd y ffigwr hwn yr isaf o'r 4 consortia, ac yn sylweddol is na'r ffigwr cyfatebol i 2 o'r consortia. Ar gyfer 2016, roedd canran yr adroddiadau ble roedd Estyn wedi mynegi pryderon sylweddol neu fawr am ddilysrwydd y barnau, wedi lleihau'n sylweddol i 6.7%. Dyma dystiolaeth sy'n ategu effeithiolrwydd y prosesau Sicrhau Ansawdd a ddilynwyd.

Mae ansawdd yr ymweliadau monitro a'r adroddiadau dilynol wedi gwella'n sylweddol. Yn yr arferion gorau a mwyaf effeithiol, gwelwyd Ymgynghorwyr Her yn darparu her a chynllunio cefnogaeth trwy:

- ddefnyddio ystod eang ac amserol o ddata a gwybodaeth;
- craffu ar dystiolaeth o waith disgyblion ac arsylwi gwersi i fonitro cynnydd tuag at dargedau perfformiad;
- ymchwilio ar y cyd gydag arweinwyr ysgolion i ansawdd perfformiad a darpariaeth ar lefel ysgol gyfan, amrywiol bynciau, grwpiau blwyddyn a grwpiau o ddisgyblion;
- cymharu cynnydd disgyblion unigol, ac/neu grwpiau ohonynt, â'r cynnydd a wnaed mewn ysgolion tebyg;
- nodi meysydd ble roedd tangyflawni a bylchau mewn cyflawniad;
- cadarnhau, gyda phenaethiaid, pa feysydd sydd i gael blaenoriaeth ar gyfer gwella;
- comisiynu cefnogaeth benodol i ddiwallu gofynion;
- cytuno ar dargedau a deilliannau heriol i ysgolion cyswllt;
- annog ysgolion cyswllt i fanteisio'n llawn ar yr arlwy ranbarthol a lleol;
- buddsoddi amser i adeiladu cynhwysedd yr UDRh ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion cyswllt;
- mynychu cyfarfodydd gyda'r corff llywodraethol i adrodd ar gynnydd.

Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod arferion da yn cael eu rhaeadru yn fwy rheolaidd ac effeithiol ar draws yr hybiau, wedi arwain at well cysondeb mewn gweithredu. Bellach mae rhaglen gadarnach o fonitro, herio ac ymyrryd ar waith. Mewn ysgolion ble mae pryder am ddiffyg cynnydd, neu gynnydd araf, cânt eu cyfeirio yn gynharach i sylw byrddau ansawdd lleol yr awdurdodau unigol. Yn dilyn grymuso a chysoni y trefniadau ar gyfer cyfathrebu a sicrhau atebolrwydd, mae perthynas waith effeithiol rhwng Uwch Ymgynghorwyr Her GwE a

swyddogion yr awdurdodau. O ganlyniad, mae swyddogion yr awdurdodau mewn sefyllfa aeddfetach i wneud penderfyniadau ar yr angen i ddefnyddio yr ystod o bwerau sydd ar gael iddynt. Mae sefydlu'r fforwm rhanbarthol, y Rhwydwaith Gwella Ysgolion, dan gadeiryddiaeth un o'r Cyfarwyddwyr Addysg, hefyd wedi arwain at gysoni arferion a disgwyliadau ar draws y chwe awdurdod. Yn rhan o'r model rhanbarthol sy'n esblygu, caiff y bwrdd rhanbarthol ei gryfhau a'i finiogi ymhellach yn 2016-17, ac yn benodol felly i sicrhau bod cyflymder gweithredu, a chyflymder gwelliant yn y pendraw, yn cael ei gyflymu'n sylweddol o fewn y sector uwchradd.

Y camau nesaf:

- cynlluniau busnes cadarn, a drafodwyd gyda rhanddeiliaid, sy'n ymateb yn finocach i ddatblygu anghenion datblygu awdurdodau ac ysgolion unigol.
- gofalu bod y model uwchradd diwygiedig yn cael ei weithredu'n effeithiol.
- bod gan bob ysgol uwchradd yn y categori cefnogaeth coch/melyngoch gynlluniau cefnogaeth ar waith sydd wedi'u llunio'n briodol.
- sicrhau bod ystod ehangach o ddata a gwybodaeth fyw am gynnydd wrth law i YH, Swyddogion yr ALL ac ysgolion, a bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn amserol a hynny'n gyson ar draws pob lefel o weithredu;
- sicrhau bod pob ymgynghorydd her yn monitro cynnydd yn erbyn targedau ysgolion unigol yn effeithiol;
- rhaglenni DPP i uwch sgilio ymgynghorwyr her ymhellach;
- ystod cyfoethocach o raglenni datblygu ar gael i ysgolion, ar lefel ranbarthol, ALL a chlwestwr/grŵp;
- defnyddio penaethiaid llwyddiannus yn fwy effeithiol drwy secondiadau;
- defnyddio YH pynciol yn fwy effeithiol, a defnyddio rhwydweithiau pynciol i gryfhau cydweithio adrannol;
- targedu cefnogaeth ac arweiniad i arweinwyr mewn meysydd strategol allweddol, yn effeithiol.

Cwricwlwm, Addysgu ac Asesu

Mae gwella safonau a darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn un o'n blaenoriaethau. Eleni, darparwyd rhaglen gefnogaeth ranbarthol i'r Cyfnod Sylfaen am y tro cyntaf, yn edrych ar gynllunio, addysgu, asesu ac arwain. Canolbwyntiwyd ar gynllunio gweithgareddau heriol a gwahaniaethol i ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 ar draws pob maes addysgu, yn unol ag egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen. Cynigwyd arweiniad rhanbarthol ar gyfer athrawon a chymorthyddion ar dargedu uwch sgiliau disgyblion ym mlynnyddoedd 1 a 2, ynghyd â gweithdai yn edrych ar gyfateb sgiliau â datganiadau deilliannau diwygiedig y Cyfnod Sylfaen. Bu 305 o ymarferwyr (67% o'r holl ysgolion) ar weithdai cynllunio a gweithgareddau heriol y Cyfnod Sylfaen, a bu 289 o ymarferwyr (63% o'r holl ysgolion) ar weithdai cyfarwyddo â deilliannau diwygiedig a chynllunio darpariaeth y Cyfnod Sylfaen. Bu 236 o Benaethiaid (52%) ar weithdai Arweinyddiaeth y Cyfnod Sylfaen, yn canolbwyntio ar beth yw darpariaeth a safonau da neu well o fewn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae gan benaethiaid, athrawon a chymorthyddion ddealltwriaeth gadarnach o'r hyn yw darpariaeth effeithiol a safonau da neu well o fewn y Cyfnod Sylfaen. Mae deilliannau a ragwelir ar gyfer 2016/17 (o Basg 2017 ar sail mewnbyn ysgolion ar bwynt rhagamcan 2) yn dangos bod y DCS yn debygol o godi o 86.2 yn 2016 i 87.2 yn 2017 (+1%), ac mae deilliannau uwch yn debygol o wella mewn Iaith Llythrennedd Cyfathrebu Saesneg (+0.2%), Iaith Llythrennedd Cyfathrebu Cymraeg (+2.4%), Datblygiad Mathemategol(+1.55%).

Bydd y camau nesaf o ran rhaglen ranbarthol, yn ymwneud â pharhau i geisio codi safonau, ynghyd â thargedu agweddau penodol ar y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth sydd wedi eu

hadnabod fel meysydd ar gyfer gwelliant. Bydd y rhaglen ranbarthol hefyd yn ymgorffori blaenoriaethau gweithredu 'Cynllun Gweithredu Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru'.

Mae tîm yr Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd wedi darparu amrywiaeth fawr o raglenni ar draws y rhanbarth i sicrhau bod gwell cynllunio a darpariaeth yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Cafodd bob ysgol yn y categori cefnogaeth coch neu felyngoch raglen gefnogaeth unigryw, wedi'i llunio yn benodol ar gyfer eu hanghenion datblygu nhw. Bu'r gefnogaeth hon yn hollbwysig wrth dynnu wyth ysgol o gategorïau Estyn, ac wrth helpu saith ar hugain o ysgolion i wella'u statws o ran categori cefnogaeth. Ar ben y gefnogaeth uniongyrchol hon i ysgolion, darparwyd rhaglen ddatblygu eang i ysgolion, yn targedu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Darparwyd rhaglen Arweinyddiaeth ranbarthol i arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar sgiliau arweinyddiaeth generig yn ogystal ag arweinyddiaeth Llythrennedd a Rhifedd arbenigol. O ganlyniad, mae aelodau o 108 o ysgolion ar draws y rhanbarth wedi datblygu eu harferion drwy lwyddo i gwblhau tasgau penodol i wella gweithdrefnau tracio a thargedu sy'n cael dylanwad uniongyrchol ar y dysgu a'r addysgu.

Aethpwyd ati i wella'r modd y codir proffil Darllen er Pleser ar draws y sector cynradd. Rhannwyd ymchwil cyfredol yn cysylltu llythrennedd llwyddiannus â darllen cynnar er pleser er mwyn cynnal rhagor o waith ymchwil. Datblygwyd 193 o arweinwyr llythrennedd dros ddwy flynedd - 137 yn y flwyddyn gyntaf, a 56 yn yr ail flwyddyn. Bydd y 56 Arweinydd Llythrennedd a gofrestrodd ar y rhaglen eleni yn adrodd ar effaith eu prosiectau darllen ym mis Mehefin 2017. Defnyddir eu sylwadau i gynllunio prosiectau yn y dyfodol ar draws y rhanbarth.

Targedwyd y ddarpariaeth mewn llythrennedd i ddysgwyr Mwy Abl a Thalentog drwy gyfres o weithdai ranbarthol mewn dwy ran, gyda'r bwriad o godi safonau'r ddarpariaeth mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu. Cofrestrodd 182 o athrawon ar draws y rhanbarth ar sesiynau cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai cynllunio rhifedd trawsgwricwlaidd, yn targedu ysgolion gyda grwpiau blwyddyn cymysg (blwyddyn 3/4, 5/6 a CA2 i gyd o fewn yr un dosbarth) i gyfoethogi'r ddarpariaeth rifedd drawsgwricwlaidd, sicrhau tasgau ymestynnol, cyfoethog a difyr gyda'r bwriad o ddatblygu dysgwyr o bob gallu. Canolbwyntiwyd yn benodol ar ddefnyddio 'Cwestiynau Mawr', gan sicrhau bod yr aelodau yn elwa o gael cyfleoedd ymarferol i weithredu cynlluniau gwahaniaethol ar gyfer y grwpiau oedran cymysg yn eu dosbarthiadau nhw. Edrychodd Ymgynghorydd Her yr Ysgol neu'r Ymgynghorydd Her Rhifedd ar lwyddiant gweithredu'r cynlluniau hyn mewn ymweliadau ac adroddiadau dilynol.

Cynhaliwyd gweithdai mathemateg pen i athrawon CA2 i gyfoethogi'r ddarpariaeth mathemateg pen ddyddiol, gan sicrhau bod cyfleoedd i adolygu, atgyfnerthu, a datblygu ar sgiliau cyfrifo pen plant. Canolbwyntiwyd yn benodol ar gwestiynau heriol, gwahaniaethol a difyr gyda'r bwriad o symud dysgwyr o bob gallu ymlaen.

Roedd gweithdai hyfforddiant ranbarthol ar gael i holl athrawon CA2, ar ffurf dau sesiwn hanner diwrnod, fis ar wahân. Roeddent yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol:

- cyflwyno ac archwilio testunau mathemateg, mewn ffyrdd ymarferol a phenagored;
- gwella dyfnder ac ansawdd trafodaethau mathemategol;
- defnyddio cyfarpar, delweddau a modelu bar i gryfhau dealltwriaeth;
- datblygu iaith gyffredin ar gyfer hybu agweddau cadarnhaol at fathemateg;
- corffori strategaethau asesu ar gyfer dysgu sy'n effeithlon ac yn cael effaith fawr;
- Dyfnhau dealltwriaeth fathemategol drwy ddefnyddio ystod o dasgau cyfoethog.

Daeth cyfanswm o 199 o athrawon o 158 o ysgolion ar draws y rhanbarth, sydd bellach yn gallu cynnwys yr arferion gorau a welwyd yn eu cynllunio a'u haddysgu. Rhwng mis Medi 2016 a Phasg 2017, daeth 1197 yn rhagor o ymarferwyr (athrawon a chymorthyddion dysgu) i ystod eang o ddyddiau hyfforddiant Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Mae'r DPC yn debygol o godi o 88.8 yn 2016 i 90.0 yn 2017 (+1.2%). Mae deilliannau uwch yn debygol o wella mewn Saesneg (+2.8%), Cymraeg (+2.3%), Mathemateg (+4.0%) a Gwyddoniaeth (+3%). Mae'r amrywiad yng Nghyfnod Allweddol 2 yn y chwe awdurdod lleol wedi lleihau o 5% yn 2016 i 3% adeg rhagamcan Pasg 2017 (-2%).

Mae arolygiadau ESTYN rhwng mis Medi 2016 a Phasg 2017, hefyd yn dangos gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau yn ysgolion cynradd y rhanbarth.

- Dengys Cwestiwn Allweddol 1 welliant o 71% yn dda neu'n well yn 2015/16, i 76% yn 2016/17(+5%).
- Dengys Cwestiwn Allweddol 2 welliant o 77% yn dda neu'n well yn 2015/16, i 84% yn 2016/17 (+7%).
- Dengys Cwestiwn Allweddol 3 gynnydd yn nifer yr ysgolion yn cael rhagoriaeth mewn Arweinyddiaeth o 4% i 12% (+8%).
- Bu lleihad yn nifer yr ysgolion mewn Categori Statudol rhwng 2015/16 a 2016/17 o 7% i 4% (-3%).
- Bu cynnydd yn nifer yr ysgolion na roddwyd mewn unrhyw gategori o 42% yn 2015/16 i 72% yn 2016/17 (+30%).

Rhoddwyd cymorth yn ystod y flwyddyn i ysgolion uwchradd roi'r manylebau TGAU diwygiedig a'r Fagloriaeth ddiwygiedig ar waith yn llwyddiannus. Mae ysgolion uwchradd wedi gallu cael cefnogaeth arbenigol ar gyfer mathemateg, Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4 drwy gymorth arbenigol gan Ymgynghorwyr Her yn yr holl bynciau craidd ar draws y rhanbarth. Mae strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ar draws y rhanbarth. Sefydlwyd rhaglen gefnogaeth rhwng ysgolion uwchradd ar gyfer y Pynciau Craidd yn CA4 drwy rwydweithiau lleol i Benaethiaid Adran.

Mae Ymgynghorwyr Her Pwnc arbenigol wedi darparu cefnogaeth effeithiol a chyfarwyddyd arbenigol ar dair lefel:

- rhwydweithiau pynciau craidd ar gyfer holl benaethiaid adran yr awdurdodau [sy'n cwrdd pob tymor] i ganolbwyntio ar arwain y dysgu a'r addysgu'n effeithiol; asesu, tracio ac ymyrryd yn effeithiol; a sicrhau bod adrannau'n barod ar gyfer y manylebau a'r dangosyddion newydd;
- grwpio ysgolion er mwyn cydweithio ar elfennau cyffredin sy'n galw am sylw;
- targedu cefnogaeth ar gyfer ysgolion penodol.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Rhaglenni cydweithredol i athrawon arloesi wrth addysgu Mathemateg yn CA4;
- Datblygu'r dull o gyflwyno sgiliau datrys problemau mewn Mathemateg yn CA4;
- Rhannu'r arferion gorau yng nghyd-destun y cwricwlwm ac addysgeg â phenaethiaid adran, yn yr holl bynciau craidd yn CA4.

Y camau nesaf:

- Datblygu model newydd o weithio gydag Ysgolion Uwchradd a fydd yn cynyddu'r capasiti o ran her a chefnogaeth yn CA4.
- Sicrhau bod gwaith cynllunio a datblygu'r cwricwlwm yn gyson â CA3 a'r manylebau newydd ar gyfer TGAU yn CA4.

- Sicrhau bod yr holl ysgolion wedi'u paratoi'n briodol i ymateb i ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd a'r cwricwlwm newydd arfaethedig.

Asesu

Mae GwE yn ceisio sicrhau gwell cysondeb mewn asesu, safoni a chymedroli ar draws y rhanbarth. Mae'r prosesau a roddwyd ar waith dros y ddwy flynedd diwethaf wedi arwain at ddull mwy cyson o asesu ar draws y rhanbarth. Mae safon y cymedroli clwstwr wedi gwella'n sylweddol drwy uwchsgilio arweinwyr ar asesu a hyfforddi ymarferwyr. Mae ansawdd y drafodaeth ar asesiadau athro wedi cryfhau gyda phroffiliau asesu bron pob ysgol o safon dda. Mae'r ysgolion hynny sydd heb ddarparu digon o dystiolaeth, neu wedi darparu asesiadau anghywir, wedi cael eu hysbysu a'u helpu wedyn i wella eu harferion. Adroddodd Estyn ar enghreifftiau o arfer dda wrth gwblhau eu Hadroddiad Gorchwyl.

Yn ystod tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf, mae GwE wedi gweithredu i sicrhau bod gan yr holl ysgolion a chlystyrau ar draws y rhanbarth systemau cadarn ar waith i ofalu bod asesiadau athrawon yn gyson, yn ddibynadwy ac o ansawdd da. Mae'r prosiect hwn wedi ymateb i gynllun Llywodraeth Cymru 'Atgyfnerthu hyder yn asesiadau athrawon: y broses o'r dechrau hyd at y diwedd i sicrhau ansawdd, cysondeb a dibynadwyedd'. Mae cydlynwyr asesu arweiniol wedi cael eu hyfforddi i ddarparu sesiynau cymedroli clwstwr safonol, a lledaenu gwybodaeth berthnasol i'r holl athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae 51 clwstwr ar draws y rhanbarth gydag Ymgynghorwyr GwE yn mynd i o leiaf un cyfarfod cymedroli clwstwr o fewn pob clwstwr. Yn ystod y cyfarfodydd clwstwr eleni, roedd cynrychiolaeth o bron pob ysgol o fewn y rhanbarth. Neilltodd lawer o glystyrau hanner diwrnod ar gyfer cymedroli, gan felly gadw at yr arweiniad cenedlaethol o ran yr amser a ddyrannir i bob cyfarfod. Daeth bron pob ysgol â phroffiliau dysgwyr/casgliad o waith dysgwyr (llyfrau disgyblion gan mwyaf) ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch na'r lefel ddisgwyliedig. Ar y cyfan, roedd cytundeb ar lefelau ffit orau y rhan fwyaf o ysgolion. Ni ddaeth ychydig iawn o ysgolion â digon o dystiolaeth i ddyfarnu lefel diwedd cyfnod allweddol. Roedd hyn yn tueddu i fod mewn Saesneg a Chymraeg (llafaredd a darllen). Ar y cyfan, roedd ansawdd cymedroli y rhan fwyaf o glystyrau yn dda, gyda lleiafrif yn dangos enghreifftiau o arferion da iawn. Lle roedd y broses yn fwyaf effeithiol, cafwyd arweinyddiaeth a threfniadaeth gref lle roedd athrawon yn rhannu tystiolaeth o bob math yn llyfrau disgyblion a chofnodion gweledol. Mae presenoldeb Ymgynghorwyr Her ac athrawon ymgynghorol y Gymraeg yn y cyfarfodydd wedi cryfhau'r broses.

Mae Ymgynghorwyr Her a Chefnogaeth wedi cynnal gweithdai safoni lle mae athrawon Blwyddyn 2 a 6 wedi cydweithio i lefelu gwaith y dysgwyr a chynllunio'r camau nesaf i ddisgyblion. Roedd ysgolion wedi'u targedu i gymryd rhan yn y rhaglenni hyn. Yn ogystal â hyn, mae GwE wedi sicrhau bod canllawiau clir ar gael i'r holl ysgolion ar y broses safoni a chymedroli yn y Cyfnod Sylfaen, ac wedi lledaenu gwybodaeth am y newidiadau diwygiedig yn neilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Y camau nesaf:

- Parhau i gydweithio ar yr hyfforddiant ar gynllunio, asesu ac ymyrryd ar gyfer athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol i gysoni gwaith lefelu a safoni ar draws y rhanbarth, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.
- Mae'r rhan fwyaf o glystyrau wedi sefydlu prosesau cymedroli effeithiol. Parhau i ddatblygu hyn ymhellach drwy adolygu eu harferion eu hunain a chanolbwyntio, o bosib, ar ddisgyblion 'ffiniol' yn ôl argymhelliad Estyn yn eu hadroddiad thematig yn ddiweddar. (Nid oedd y pedwar rhanbarth yn argymhell hyn y tro hwn).

- Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio datganiad rhanbarthol GwE yn rhan o brosesau asesu'r ysgol ac yn ystod sesiynau cymedroli clwstwr.

Grwpiau o ddysgwyr gan gynnwys dysgwyr bregus

Mae GwE wedi datblygu nifer o strategaethau i gynorthwyo pob dysgwr, gan ganolbwyntio hefyd ar ddysgwyr bregus fel plant sydd mewn gofal, a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Drwy adroddiadau'r Ymgynghorwyr Her, gallwn adnabod nifer o arferion da ar draws y rhanbarth mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Dyma'r enghreifftiau mwyaf effeithiol:

- Dull effeithiol a chadarn o dracio dysgwyr bregus i alluogi ysgolion i bennu'r ymyriadau mwyaf effeithiol i'w defnyddio.
- Ymyriadau priodol dros gyfnod penodol ym maes llythrennedd a rhifedd sy'n dangos yn glir yr effaith ar gyflawniad disgyblion. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y sector cynradd drwy adroddiad effaith "dadansoddi effaith grwpiau ymyrraeth ffiniol CA2 hyd yma".
- Defnyddio deunyddiau "Meddylfryd o Dwf" yn ysgolion cynradd ac uwchradd y rhanbarth, a'i effaith cychwynnol ar feithrin mwy o uchelgais a chydnerthedd emosiynol yn ein dysgwyr. Yn ôl tystiolaeth o fewn y peilot, cyn ac ar ôl ei arfarnu, mae dysgwyr yn gliriach, yn fwy positif o ran hunanymwybyddiaeth, ac yn gallu addasu'n well i'r amgylchedd dysgu. Byddwn yn targedu ysgolion uwchradd yn ystod 2017-18.
- Ystod dda o raglenni hyfforddiant gwahaniaethol effeithiol ar sail rhanbarth, clwstwr ac ysgol, gyda'r bwriad o gefnogi dysgwyr bregus. Arfarnwyd pob rhaglen yn gysylltiedig â GAD plant mewn gofal i ddangos gwelliant yn neilliannau meddal dysgwyr, yn ogystal â dangosyddion perfformiad allweddol yn yr ysgol a'r awdurdod lleol. Rhannwyd y rhaglen, sy'n cael ei chydabod am ei harferion da, gyda chonsortia rhanbarthol eraill.
- Mae'r cyrsiau hyfforddiant a ddarperir o safon dda o safbwynt eu cynnwys a'u trefn, ac fe'u gwerthfawrogir yn fawr gyda chydlynwyr PMG a staff ysgolion yn canmol yr arweiniad a roddir a'r cyfle i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, a rhannu arferion effeithiol. Roedd athrawon yn croesawu'r arweiniad ar reoli ymddygiad, a'r cysylltiadau â damcaniaethau ymlyniad, yn arbennig.
- Bu'r gefnogaeth i gydlynwyr PMG ar draws y chwe awdurdod lleol i ddarparu cefnogaeth i PMG yn y maes addysg yn dda. Yn ystod 2017-18, byddwn yn canolbwyntio ar gysondeb o safbwynt swydd ddisgrifiadau pob ALL.
- Mae gan bron bob ysgol ar draws y rhanbarth 'bencampwr' penodol ar gyfer dysgwyr bregus i sicrhau bod cefnogaeth a darpariaeth yn cael eu targedu, gyda'r nod o godi cyrhaeddiad addysgol. Rydym yn ceisio rhannu arferion da ar draws y rhanbarth a sicrhau cysondeb mewn rôl ac effaith.
- Mae mwyafrif yr ysgolion a'r rhanddeiliaid wedi defnyddio gwefan GwE i gael rhagor o wybodaeth ar astudiaethau achos arfer dda i ddysgwyr bregus, ar ben yr wybodaeth a'r gwaith ymchwil rhanbarthol a chenedlaethol. Byddwn yn datblygu'r elfen hon ymhellach yn unol â strategaeth Ysgol GwE.
- Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd a chynradd wedi cael hyfforddiant trawma/ymlyniad ar gyfer y rhaglen PMG yn ystod 2016-17, sydd wedi arwain at staff addysgu yn dod yn fwy hyderus i ddellio gyda dysgwyr ac adnabod cefnogaeth a darpariaeth addas.
- Ar y cyfan, mae Ymgynghorwyr Her yn gweithio'n dda mewn ysgolion i ddadansoddi eu grant GAD ac adnabod effeithiolrwydd cyflawniad/data dysgwyr PYD. Serch hynny, mae angen systemau cadarnach i sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth a

gwella deilliannau yn CA4 a'r dangosydd Blynyddoedd Cynnar gyda phlant mewn gofal.

- Mae GwE wedi cefnogi awdurdodau lleol yn dda i adnabod dulliau peilot allai arwain at arferion sy'n arwain y sector o fewn y rhanbarth, o safbwynt gwaith pencampwr PYD ALI. Byddwn yn edrych ar y dull, a'i effaith, gyda'r awdurdod yn ystod 2017-18 ac yn ymestyn yr arferion da a welwyd ar draws y rhanbarth.
- Mewn un awdurdod lleol, cefnogir dysgwyr yn y Grŵp Mwy Abl a Thalentog i weithio tuag at ddeilliannau uwch yn CA3 a 4 drwy gyfrwng rôl ymarferydd uwchradd arweiniol. Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i fonitro effaith a chyflawniad.
- Arfer dda gynnar yw'r prosiect "Head sprout", sef ymchwil gweithredu, a ddefnyddir mewn ychydig o ysgolion i dargedu rhieni i gefnogi dysgwyr wella deilliannau a'u hymwneud ag ysgolion.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae gan Gymorthyddion Addysgu well dealltwriaeth o effaith/pwrpas tracio a thargedu effeithiol i adnabod y gefnogaeth a'r ddarpariaeth briodol i ddysgwyr bregus. Datblygir hyn ymhellach yn ystod cyfnod nesaf y cynllun busnes.
- Ar y cyd â Phrifysgol Cymru, Bangor drwy swydd secondiad, mae GwE wedi cefnogi 3 ysgol i gychwyn system newydd i gofnodi, tracio ac arfarnu effaith ymyraethau i ddysgwyr PYD. Arfarnir hyn yn ystod 2017-18 yn unol â phroses/cylch arfarnu'r cwmni.

Y camau nesaf:

Yn ystod 2017/18, bydd GwE yn datblygu a gweithredu strategaeth ddiwygiedig gan ystyried arfarniad ac effaith gwasanaethau yn ystod 2016/17 ar gyfer dysgwyr bregus, ac yn unol â Chynllun Busnes 2017-20 a blaenoriaethau a gwerthoedd rhanbarthol GwE. Rydym wedi datblygu strategaeth/cynllun busnes sydd â dangosyddion perfformiad ac effaith sy'n mesur, ac yn cynnwys y camau gweithredu hyn:

- Parhau i weithio tuag at system sy'n hunan wella ble bydd ysgolion a darparwyr Blynyddoedd Cynnar yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu cynnydd a'u heffaith eu hunain, gyda chefnogaeth y consortiwm rhanbarthol.
- Byddwn yn sicrhau bod gan Ymgynghorwyr Her darged gwelliant i gefnogi ysgolion i gefnogi ymhellach yr Ymyrraeth yn y Blynyddoedd Cynnar/dysgwyr CA4 o safbwynt cyllid GAD. Edrychwn ar y dangosyddion perfformiad allweddol fel gwaelodlin.
- Gweithio gyda'r chwe Awdurdod Lleol i gwblhau cynllun busnes cadarn o ran plant mewn gofal a'r GAD.
- Cytundebau partneriaeth cadarn ar waith i ddatblygu gwaith partneriaeth strategol a gweithredol mwy effeithiol gyda phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, cyflogwyr allweddol a'r trydydd sector. Cefnogi'r gwaith cynllunio ar gyfer cyfnodau trosglwyddo allweddol mewn ysgolion fel bod dysgwyr bregus yn cael chefnogaeth dda ar adegau trosglwyddo allweddol, er enghraifft, o'r blynyddoedd cynnar i'r cyfnod sylfaen, o'r cynradd i'r uwchradd.
- Adnabod chefnogaeth/targedu ysgolion i ddefnyddio system tracio ymyrraeth gynnar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid. Mae'r OPD - Offeryn Proffil Dysgwr yn system dracio gadarn yn CA3 a 4, sy'n cynnwys PYD fel dangosydd allweddol ar lefel disgybl a fydd yn galluogi ysgolion i fonitro bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial.
- Datblygu systemau cadarn i arfarnu effaith y gefnogaeth/ddarpariaeth i ddysgwyr bregus ar draws y rhanbarth er mwyn adnabod yr arferion sy'n arwain y sector, fel rhan o strategaeth Ysgol GwE.
- Datblygu ystod eang o weithgareddau arfarnu ac effaith i ddangos y pellter a deithiwyd gan ddysgwyr o safbwynt deilliannau meddal a chaled.

- Parhau i weithio gyda phob ysgol i sicrhau bod targedau pendant ac ymestynnol yn eu CDY/cynlluniau gwella ar gyfer codi deilliannau i ddysgwyr bregus e.e. plant mewn gofal, ADY, wedi'u hategu gan gynlluniau datblygu proffesiynol cydlynol.
- Cryfhau'r defnydd strategol o adroddiadau arfarnu a data cadarn i gynllunio i wella deilliannau dysgwyr, ac adnabod arferion gorau a gwerth am arian.
- Gweithio gydag Ymgynghorwyr Her i gyfrannu'n effeithiol at sicrhau ansawdd y gefnogaeth i ddysgwyr bregus mewn ysgolion.
- Adnabod yr arferion presennol sy'n arwain y sector, a hwyluso cefnogaeth ysgol i ysgol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Bydd Ymgynghorwyr Her yn ategu'r gwaith hwn drwy gydnabod arferion rhagorol yn eu hysgolion.
- Canolbwyntio'n fwy ar hwyluso cynllunio ar y cyd, ar draws cyfnodau allweddol, er mwyn rhoi cefnogaeth dda i ddysgwyr bregus ar adegau trosglwyddo allweddol.
- Adeiladu ar yr arferion da a ddatblygwyd dros y flwyddyn, er enghraifft y Rhaglen Meddylfryd o Dwf, a gofalu bod gennym systemau arfarnu cadarn ar waith i fesur y pellter a deithiwyd gan bob dysgwr o fewn dangosyddion allweddol ar draws pob rhaglen. Bydd hyn yn waelodlin ar gyfer targedau a thracio rhanbarthol manylach yn erbyn deilliannau emosiynol, cymdeithasol, iechyd a lles dysgwyr.
- Dadansoddi a mapio'r holl gefnogaeth a'r ddarpariaeth bresennol i ddysgwyr bregus, ac adnabod yr arferion gorau ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Rydym yn anelu i gynhyrchu llawlyfr eDdysgu GAD cyffredinol a fydd yn nodi'r arferion gorau, y gefnogaeth a'r ddarpariaeth unigryw ddwyieithog at ddefnydd yr Ymgynghorwyr Her, ysgolion a'r ALI.
- Rhannu arferion da ar draws y rhanbarth, trefnu grŵp ffocws rhanbarthol i staff sy'n gwneud rolau a chyfrifoldebau tebyg a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol.

Cymorth ar gyfer arwain, rheoli a llywodraethu

Rhaglenni Dysgu Proffesiynol

Mae GwE wedi datblygu ystod o raglenni i ymarferwyr, yn amrywio o Gymorthyddion Addysgu Lefel Uwch (CALU), i Benaethiaid profiadol (Rhaglen Datblygu Penaethiaid - RhDP). Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu cydweithio ysgol i ysgol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion yn cyd-gyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella ar draws Gogledd Cymru.

Nod Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth GwE yw:

- hyrwyddo a gweithredu'r Llwybr Datblygu Gyrfa i Gymru
- meithrin y gallu i arwain ym mhob un o'n hysgolion
- gwella a hyrwyddo sgiliau arwain a rheoli athrawon yn ysgolion Gogledd Cymru
- meithrin a datblygu arferion arweinyddiaeth ar gyfer holl staff mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig
- annog, hwyluso a chynnig cyfleoedd cydweithio ysgol i ysgol
- cyfrannu at ddatblygu system sy'n hunan wella sicrhau bod y gweithlu'n datblygu'n effeithiol

Mae bodlonrwydd gyda Rhaglenni Datblygu GwE (RhDG), ar y cyfan, yn uchel iawn gyda dros 90% yn dweud bod y rhaglenni wedi bodloni eu hanghenion yn effeithiol. Mae 95% wedi cael mwy o gyfrifoldebau o ganlyniad i ddilyn rhaglenni penodol, gyda 25% wedi cael eu dyrchafu i swyddi uwch. Dywed ymgeiswyr bod eu gwybodaeth am arwain timau, a'u hyder, wedi gwella, a'u bod wedi manteisio fel a ganlyn:

- galluogi ymgeiswyr i ennill gwybodaeth am arweinyddiaeth,
- rhoi cyfleoedd i ymgeiswyr fyfrio ar eu harferion presennol, gan arwain at wneud newidiadau a gwelliannau;
- sgiliau arwain a rheoli gwell ac uwch ymysg ymarferwyr;
- meithrin a datblygu arferion arwain;
- cynyddu cynhwysedd i arwain ar draws y rhanbarth;
- mwy o ddiwylliant dysgu yn cael ei ddatblygu, yn unol â gweledigaeth yr ysgol, sy'n rhoi sylw i anghenion pob dysgwr;
- gwella safonau mewn agwedd benodol ar ddatblygu/gwella ysgol.

Mae GwE wedi cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, a'r consortia eraill, i ddatblygu'r rhaglenni. Yn dilyn cais gan y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol (BDAC) i gonsortia arwain ar ddatblygu agweddau penodol ar y Llwybr Datblygu Gyrfa, derbyniodd GwE gyfrifoldeb arweiniol am lunio datblygiad proffesiynol effeithiol ar gyfer arweinwyr canol a Phenaethiaid mewn swydd. Gwerthuswyd y rhaglenni datblygu ar gyfer arweinwyr canol a Phenaethiaid gan ymgynghorydd allanol. Rhannwyd y cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd yn genedlaethol. O ganlyniad:

- Daeth 9 ymarferydd o ranbarth ERW i Raglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE,
- Mabwysiadodd ERW Raglen Datblygu CPCP 2016 / 2017 GwE, a
- CSC yn mabwysiadu elfennau o'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid.

Cynigir rhagor o raglenni sy'n fwy lleol, yn dibynnu ar anghenion penodol unigolion neu grwpiau o ysgolion. Mae amrywiaeth o weithdai arweinyddiaeth wedi cael eu cyflwyno i uwch arweinwyr ym mhob ysgol gynradd ym mhob hwb, gyda dilyniant wedi'i gynllunio dros y tymor nesaf. Mae'r ddarpariaeth yn datblygu ar y gweithdai a gynhaliwyd y llynedd i ysgolion targed, sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd arfarnu a chynllunio gwelliant. Mae camau gweithredu yn 2015-16 wedi gweld cynnydd yn y ganran o ysgolion yn y categorïau Gwyrdd a Melyn - cynnydd o 80.7% yn 2015-16 i 84.8% yn 2016-17. Ar ben hynny, bu cynnydd yn y ganran o ysgolion yn cael y graddau uchaf [A neu B] yng nghanam 2 y broses - cynnydd o 85.3% yn 2015-16 i 89.0% yn 2016-17.

Mae proffil arolygiadau ysgolion Cynradd Estyn yn gadarnhaol ac yn dangos gwelliannau pendant. Yn 2015-16, barnwyd bod 70% o'r ysgolion a arolygwyd (48 o ysgolion) yn *dda neu'n well* am ansawdd arweinyddiaeth. Yn yr arolygiadau a gyflawnwyd eisoes yn 2016-17 [20 ysgol], mae'r ffigwr wedi codi eto i 80.0%. Yn 2015-16, dyfarnwyd barn *Anfoddhaol i ansawdd arweinyddiaeth* mewn 4.2% o'r ysgolion cynradd a arolygwyd. Yn 2016-17, nid oes yr un ysgol wedi derbyn *dyfarniad Anfoddhaol*.

Cynigwyd rhaglenni cefnogaeth generig a phwrpasol effeithiol i ddatblygu staff GwE. Mae'r rhaglenni datblygu yn cynnwys:

- Dull tîm-cyfan, e.e. rhaglen ar gyfer datblygu sgiliau hyfforddi a mentora yr holl ymgynghorwyr her;
- Cefnogaeth eang ar gyfer ymgynghorwyr her newydd;
- Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ymgynghorwyr allanol sy'n cyflawni swyddogaethau ymgynghorwyr her;
- Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ymgynghorwyr her pwnc.

O ganlyniad i Raglen Datblygu Staff GwE, mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r gefnogaeth i ysgolion wedi gwella'n sylweddol, gyda gwelliannau mesuradwy yng ngwaith ymgynghorwyr her unigol.

Hyd yma, mae dros 1200 o ymarferwyr ar draws Gogledd Cymru wedi cymryd rhan yn rhaglenni datblygu GwE, ac mae eu heffaith i'w gweld ar lefel unigol, ysgol a'r system. Yn y pendraw, ffocws yr holl raglenni yw datblygu unigolion er mwyn sicrhau'r addysg a'r cyfleoedd gorau posibl i'n plant a'n pobl ifanc, a thrwy hynny codi safonau ar draws pob cyfnod allweddol.

Mae ysgolion unigol hefyd yn cyfrannu at y Rhaglen Arweinyddiaeth. Dyma nhw:

- y Rhaglen Gwella Athrawon (RhGA) -
- y Rhaglen Athrawon Eithriadol (RhAE) -
- Rhaglen Arweinyddiaeth Toyota - "Rheoli Darbodus mewn Ysgolion" (LEAN) -

Y camau nesaf:

- Parhau i sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu corffori i gefnogi datblygiadau yn lleol.
- Gweithio gyda Phrifysgolion i ymchwilio i'r posibilrwydd o achredu'r rhaglenni datblygu;
- Mae angen i Ddatblygiadau Proffesiynol Parhaus (DPP) yn y Dyfodol roi sylw i'r pum amcan gwella a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru, Cymwys am Oes 2:
 - Lles
 - Dysgu ac Addysgu (Addysgeg)
 - Cwricwlwm ac asesu, gyda'r Pedwar Diben a ddisgrifir yn Dyfodol Llwyddiannus yn sail i hyn
 - Arweinyddiaeth
 - System sy'n hunan wella
- Mae angen gwneud mwy o waith i dargedu adnoddau ac i sicrhau bod y rhaglenni datblygu pwrrpasol yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion neu grwpiau o ysgolion, yn arbennig yn y sector uwchradd.
- Edrych eto ar Raglen Datblygu Staff GwE, i baratoi am y newidiadau wrth aildrefnu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- Gwella ymhellach y ffordd yr arfarnir y rhaglenni, a'u heffaith.

Hyrwyddo a chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Mae GwE yn gweithio'n dda i hyrwyddo blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac mae wedi gwneud cynnydd da ar yr agenda Dyfodol Llwyddiannus, o ran ei ddeall a'i gyflawni ar y dechrau. O ganlyniad, mae GwE mewn lle da i barhau i hyrwyddo a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae nifer cynyddol o ysgolion Arloesi ar draws rhanbarth GwE ac mae dull amserol a chynlluniedig ar waith yn awr i ymgysylltu â'r holl ysgolion drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu effeithiol.

Mae GwE wedi gwella'r modd o gyflawni agenda Dyfodol Llwyddiannus a gweithio gyda phob ysgol ar draws y rhanbarth drwy benodi:

- 1 x Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth i roi arweiniad strategol ar secondiad 12 mis;
- 1 x Ymgynghorydd Her i weithio ar ysgolion Arloesi/Bagloriaeth Cymru/Dyfodol Bydeang) gan ganolbwyntio ar flaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn ogystal â meysydd eraill er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithlon a pheidio â dyblygu gwaith;
- 2 x athro ar secondiad (1.6 cyfwerth ag amser llawn) yn Gydlynwyr y Rhwydwaith Arloesi.

Rôl tîm Arloesi GwE yw hybu gwaith ysgolion Arloesi ac ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â'r holl ysgolion sy'n bartneriaid Arloesi ar draws y rhanbarth.

Gellir dangos yr effaith ymhellach gyda'r cynhwysedd ychwanegol yn y rhanbarth wrth i staff GwE hwyluso 4 o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad;

- i) Mathemateg a Rhifedd,
- ii) Iechyd a Lles,
- iii) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- iv) Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae hyn wedi arwain at ddarlun cyflawn o ddatblygu'r MDPH ar draws staff GwE. Drwy drafod yn gyson, bu modd rhannu dulliau a negeseuon cyson. Ar ben hynny, bu tîm bach o Ymgynghorwyr Her mewn Cynhadledd Cwricwlwm Ewropeaidd yn Stirling, sydd wedi codi ymwybyddiaeth o'r agenda Dyfodol Llwyddiannus, a sut i fynd ati i ddatblygu'r cwricwlwm yn enwedig. Mae systemau adrodd yn ôl ar waith mewn hybiau, a cheir negeseuon cyson.

Rôl allweddol tîm Arloesi GwE yw datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer yr holl ysgolion ar draws y rhanbarth. Wrth wneud hyn, mae 9 aelod o GwE wedi cwblhau hyfforddiant lefel Sylfaen APMG ar Reoli Newid - bu hyn yn hynod ymarferol a pherthnasol i'r agenda Dyfodol Llwyddiannus. O ganlyniad i hyn, mae'r tîm yn cydweithio â 3 ysgol Arloesi i ddatblygu Fframwaith Cyflawni Newid drafft. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddi 1 diwrnod ar egwyddorion rheoli newid a phecyn cymorth ac adnoddau ymarferol i helpu'r holl ysgolion werthuso eu parodrwydd am y cwricwlwm newydd.

Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gynnal trafodaethau da gyda GwE ar y rôl rheoli newid yn genedlaethol. O ganlyniad, cynhaliwyd 1 diwrnod hyfforddiant pwrpasol. Bu 3 aelod o Uwch Dîm Rheoli GwE ar yr hyfforddiant, sydd wedi codi eu hymwybyddiaeth o raddfa'r diwygio yn y byd addysg. Bu modd trafod cysondeb negeseuon i ysgolion ac Ymgynghorwyr Her ar draws y rhanbarth.

Cynhaliwyd y cyntaf o'r gweithgareddau ymgysylltu ar y cwricwlwm ar draws y rhanbarth, a chynhaliwyd 6 gweithdy Dyfodol Llwyddiannus ym mhob Awdurdod Lleol. Roedd 117 o athrawon o 100 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn bresennol ac mae'r gwerthusiad yn dangos bod 82% yn cytuno y bydd y gweithdy'n ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol yn gwerthfawrogi'r cyfle i rwydweithio a thrafod gwaith eu hysgol eu hunain yng nghyd-destun datblygiadau cenedlaethol. Cynhaliwyd yr ail gyfres o weithdai, a bu'r galw cynyddol am lefydd yn amlwg ar y draws y rhanbarth, gyda 206 o athrawon wedi cofrestru. Mae hyn yn gynnydd o 76% ac er bod y ffurflenni arfarnu wrthi'n cael eu prosesu, dengys yr ymateb cychwynnol bod athrawon yn fwy ymwybodol o ddiwygio'r cwricwlwm. Mae'r Tîm Arloesi hefyd wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth yn ystod sesiynau eraill i ANG ac Arweinwyr Llythrennedd, er mwyn cyfleu neges gyson.

Mae'r holl ysgolion Arloesi o dan GwE wedi dod at ei gilydd i weithio fel un rhwydwaith i wella'r cyfathrebu rhwng y rhai sy'n ymwneud â Dysgu Proffesiynol, y Cwricwlwm a Dysgu Digidol. O ganlyniad i hyn, mae ysgolion Arloesi wedi nodi eu bod yn fwy ymwybodol o linyddau gwaith eraill ac mae'n bwysig ein bod yn parhau â'r gwaith hwn wrth i waith yr ysgolion Arloesi ddatblygu, ac yn adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau a datblygiadau.

Mae nifer yr ysgolion Arloesi yn rhanbarth GwE sy'n gweithio ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd wedi cynyddu'n sylweddol o 12 i 25. Mae'r gwaith hwn ar y cwricwlwm bellach wedi symud ymlaen i Llyn 2, sef ystyried datblygu'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad. Mae gan GwE gynrychiolaeth dda iawn yn yr holl Feysydd mewn ysgolion uwchradd penodol, rhai cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Cafwyd cynnydd da iawn hefyd yng ngwaith yr ysgolion Arloesi Digidol, ac mae hyn wedi'i hyrwyddo drwy benodi 4 Arweinydd Digidol drwy'r rhwydwaith rhanbarthol TGCh. Cynhaliwyd amrywiaeth fawr o sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddi i helpu athrawon i ddeall a gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) drafft sydd ar gael i'r holl ysgolion ers Medi 2016. Mae'r galw am y sesiynau FfCD wedi bod yn uchel iawn, ac mae mwy na 900 o gynrychiolwyr ysgolion wedi trefnu i gymryd rhan yn y sesiynau a gynhaliwyd hyd yma, a'r rhai sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer y dyfodol. Mae bron pob un o'r penaethiaid wedi mynychu digwyddiadau i gael trosolwg o'r FfCD a'r cymorth y gall GwE ei gynnig i ysgolion. Cynigiwyd hyfforddiant hefyd i staff cymorth yn y Cyfnod Sylfaen, gan drefnu bod staff cymorth sy'n dilyn arferion da cydnabyddedig ym maes dysgu digidol yn hyrwyddo a rhannu arferion da ymhellach, gan feithrin cymhwysedd a hyder staff cymorth. Ar draws y rhanbarth, mae 10 ysgol gynradd wedi'u penodi'n ysgolion arweiniol ar gyfer diogelwch ar-lein er mwyn datblygu eu hysgolion eu hunain ymhellach ac wedyn arwain eu clwstwr ysgolion. Ar hyn o bryd, mae Arweinwyr Digidol yn gweithio gyda chydlynwyr TGCh y sector uwchradd ar draws y rhanbarth i'w helpu i gynllunio a gweithredu'r FfCD ar draws y cwricwlwm.

Gwneir hyn drwy gyfres o 3 sesiwn 'hanner diwrnod'. Bu'r 3 diwrnod hyfforddiant i Arweinwyr Digidol Uwchradd yn llwyddiannus o ran ffurfio rhwydweithiau, i'r fath raddau nes bod yr unigolion bellach wedi gofyn am ragor o gyfarfodydd ym mis Medi 2017, ac wedi'u trefnu. Cwblhaodd 26 o athrawon y rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth ganol, a dywed 100% o'r garfan eu bod yn fwy hyderus ym mhob maes gan gynnwys adolygu ac arfarnu effaith ar ddeilliannau dysgwyr, a sicrhau gwerth am arian.

Mae ysgolion Dysgu Proffesiynol wedi bod yn gweithio ar ddatblygu amrywiaeth o astudiaethau peilot. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda'r OECD ar 7 dimensiwn yr Ysgol fel Sefydliad Dysgu, y cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Dysgu Digidol a hefyd ar dreialu'r Safonau Addysgu Proffesiynol drafft newydd a fydd yn destun ymgynghori ym mis Mawrth 2017. Ym mis Tachwedd 2016, cynhaliodd GwE 3 sesiwn ar draws y rhanbarth lle roedd yr Athro Graham Donaldson yn gallu rhannu ei adroddiad, a'r Athro Mick Waters yn gallu cynnig rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r Safonau Addysgu Proffesiynol yn plethu i'r agenda hon. Ar draws y rhanbarth, daeth 175 o bobl o ysgolion, Awdurdodau Lleol a GwE ac mae'r adborth o'r sesiynau hyn hefyd yn dangos bod ysgolion wedi cael eu hysbrydoli a'u hysgogi a'u bod wedi cael gwell dealltwriaeth hefyd o'r blaenoriaethau Cenedlaethol yn eu cyd-destun lleol.

EFFAITH: Mae'r ymgynghori ar y Safonau Addysgu Proffesiynol wedi cau ac er bod cefnogaeth glir i ethos y 5 dimensiwn, gwelir bod y geirio yn aneglur weithiau a bod y safonau addysgu ac arweinyddiaeth wedi'u newid. Mae'r consortia yn cydweithio i sicrhau y bydd cefnogaeth ar gael i Athrawon Newydd Gymhwyso o fis Medi 2017.

Mae ysgolion Arloesi a'u partneriaid wedi cael cyfle i ddatblygu addysgeg effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Cwblhawyd gwaith ar ddatblygu hyfforddiant i Athrawon a Chymorthyddion Addysgu Rhagorol, datblygu arferion i'w rhannu drwy hyfforddiant a Llwybr Datblygu Gyrfa GwE, a chydweithio â Curee ar ymchwil weithredu i greu map ffordd ar sut i wella dysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth gan weithio gyda grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae GwE wedi cydweithio â'r Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol (BDAC) ar ddatblygu'r Llwybr Datblygu Gyrfa ac wedi cynghori LIC ynghylch meysydd arweinyddiaeth penodol yr oedd angen eu datblygu'n genedlaethol. Mae cylch gorchwyl BDAC wedi'i gwblhau bellach. Er hynny, mae GwE yn parhau i gydweithio'n agos â LIC ar ddatblygu arweinyddiaeth, yn enwedig y datblygiadau a'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol newydd.

Y camau nesaf:

- Yn rhan o gynnig Dyfodol Llwyddiannus, gweithio gyda phob ysgol i benodi Arweinydd Dyfodol Llwyddiannus ym mhob clwstwr o ysgolion ar draws y rhanbarth, a chynllunio i'w huwch sgilio am y tro cyntaf.
- Parhau i gynllunio sesiynau hyfforddiant perthnasol ac amserol gydag Ymgynghorwyr Her a sicrhau bod fforymau Penaethiaid ar draws y rhanbarth yn cael eu diweddarau'n gyson.
- Cydweithio gyda'r ysgolion dysgu digidol i sicrhau bod hyfforddiant ar gael i holl ymarferwyr ysgolion, gan gynnwys clybiau codio a meithrin cynhwysedd o fewn y rhanbarth i gyflawni ar lefel ysgol uwchradd.
- Datblygu gwaith ar ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (OECD), a hybu Arolwg 2 gyda'r 78 o ysgolion ar draws GwE a wahoddwyd i gymryd rhan;
- Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd gyda'r Academi Arweinyddiaeth.
- Corffori agenda Dyfodol Llwyddiannus yn rheolaidd yng ngwaith tîm ehangach GwE.

9. ARWEINYDDIAETH

Ers sefydlu GwE yn 2013, mae'r disgwyliadau o ran rôl y Consortia wedi codi'n sylweddol. Mae adolygiad pellach o'r Model Cenedlaethol ar fin cael ei gynnal ac mae'n glir bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r cyfrifoldebau ymhellach byth i feysydd Llesiant, Tegwch ac efallai Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perthynas GwE ag ysgolion wedi gwella wrth i'r sefydliad daro gwell cydbwysedd rhwng yr angen i gefnogi ysgolion a'u herio. Mae'r her a'r gefnogaeth i'r sector cynradd yn dda ar y cyfan, ac mae'r mynediad at raglenni hyfforddi a datblygu wedi gwella a dod yn gliriach.

Yn gyffredinol, mae'r sector cynradd yn cryfhau ac mae proffil arolygiadau Estyn wedi bod yn dda at ei gilydd. Mae hyn i'w briodoli i ddau brif ffactor:

- mae tuedd sylweddol o 80:20 yn y Model Cenedlaethol wrth ei weithredu yn GwE at y sector cynradd;
- mae mwy o lawer o brofiad a hanes o lwyddiant ar lefel yr uwch arweinwyr yn y sector cynradd ymysg aelodau'r tîm.

Fodd bynnag, mae'r darlun yn wahanol yn y sector uwchradd. Oherwydd y model hawliau 80:20 sy'n gweithredu ar hyn o bryd, a'r anhawster o ran recriwtio ymgynghorwyr amser llawn o safon dda, mae diffyg mynediad o hyd at Ymgynghorwyr Her amser llawn effeithiol ar gyfer y sector uwchradd. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol mewn meysydd blaenoriaeth fel arweinyddiaeth ar wahanol lefelau, Mathemateg a Saesneg. Mae'r diffyg capasiti hwn yn y sector uwchradd yn llesteirio gallu GwE i gael effaith yn syth.

Ar hyn o bryd, mae Ymgynghorwyr Her yn teimlo bod eu rôl yn cael ei chyfyngu ormod gan y model gweithredu presennol. Mae gormod o'u hamser yn cael ei dreulio ar fod yn ymgynghorydd her cyffredinol sy'n gweithio'n bennaf ar gategoreiddio ysgolion. O ganlyniad i hyn, nid yw Ymgynghorwyr Her yn rhoi arweiniad strategol ar faterion addysgol a fyddai'n helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Consortia a'r Awdurdodau Lleol unigol. Felly, yn unigol ac ar y cyd, nid ydynt yn cael eu datblygu'n ddigonol ac nid yw eu harbenigedd yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i arwain ar faterion addysgol ar draws yr hybiau a'r rhanbarth.

Mae gwybodaeth drwyadl am ysgolion ar lefel yr arweinwyr wedi datblygu dros amser. I raddau helaeth, mae hyn yn ganlyniad i'r broses Categoriaddio Cenedlaethol. Er hynny, mae teimlad cynyddol bod angen mireinio'r broses categoriaddio ar y lefel genedlaethol.

Mae rôl GwE wedi bod yn aneglur ac anghyson wrth benodi i swyddi uwch mewn ysgolion. Mae protocol rhanbarthol ar gyfer penodi staff ysgol wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y Cyd-bwyllgor. Rhydd hyn fwy o eglurder i rôl GwE mewn partneriaeth â'r ALI er mwyn sicrhau bod penodiadau'n effeithiol. Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth ranbarthol gydlynol ar gyfer uwch sgilio a datblygu cysylltiadau gweithio â Chyrff Llywodraethu a Byrddau Rheoli.

Nid yw'r cysylltiadau rhwng GwE a gwasanaethau awdurdodau lleol, fel rhai ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant, wedi cael eu datblygu'n ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau dysgwyr bregus a sicrhau darpariaeth briodol. Bydd y ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei chyflwyno mewn nifer o feysydd gwahanol yn galw am gydweithio agosach a dull mwy rhanbarthol o weithredu yn y maes hwn.

Yn gyffredinol, mae perthynas waith dda ar hyn o bryd rhwng holl arweinwyr yr hybiau a'r gwahanol ALI. Mae model yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth a'i ddirprwy yn effeithiol, at ei gilydd, ac yn rhoi cydbwysedd da ym mhob hwb. Mae gwybodaeth yn llifo'n well i'r ddau gyfeiriad ac, yn yr achosion gorau, mae dealltwriaeth glir o rôl y naill a'r llall yn hyrwyddo'r agenda ar wella. Gall y cyfarfodydd hyn fod yn her o ran ceisio dod o hyd i'r ateb gorau, ond mae cryfder y ddeialog a'r cyd-berchenogaeth ar yr agenda gwella yn ffactorau cryf sy'n creu llwyddiant yn yr achosion gorau.

Mae enghreifftiau o arfer dda ym mhob hwb, ond nid yw'r arfer hwn yn cael ei rannu'n effeithiol ar draws y rhanbarth. O ganlyniad, mae arlwy GwE i ysgolion yn amrywio'n ormodol yn ôl lleoliad daearyddol staff a'u sylfaen sgiliau. Mae'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol yn dechrau cysoni arferion yr hybiau unigol drwy nodi'r arferion gorau a'u rhannu ar draws y rhanbarth.

Mae cynlluniau ALI unigol, a oedd yn cael eu galw'n Atodiadau cynt, wedi gwella ac maent o safon dda at ei gilydd. Ceir mwy o lawer o fanylion ar gyfer gwella meysydd a nodwyd ar y cyd, hyd yn oed ar lefel yr ysgol unigol. Mae hyn wedi creu gwell ffocws mewn cyfarfodydd monitro ac atebolrwydd cryfach gan ymgynghorwyr her penodol am gyflawni. Er hynny, mae angen gwneud rhagor o waith ar y broses monitro gyffredinol i sicrhau dull cyson o weithredu ar draws y rhanbarth.

Mae'r swyddogaeth craffu wedi aeddfedu ar draws y rhanbarth. Mae gan aelodau craffu lleol well dealltwriaeth o bwrpas GwE a'i amcanion. Yn yr achosion gorau, mae aelodau pwyllgorau craffu wedi ymweld ag ysgolion i ofyn am farn penaethiaid ynghylch y ffordd y mae GwE yn herio ac yn cefnogi ysgolion. Maent wedi dod â'u canfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor ac wedi cynnal cyfarfod trionglu ag arweinydd hwb GwE a swyddogion yr ALI i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, gwneir rhagor o waith wrth i aelodau gysgodi ymgynghorwyr her GwE mewn gwahanol agweddau ar eu gwaith i ddyfnhau eu dealltwriaeth yn fwy byth. Mae dealltwriaeth aelodau craffu o safonau mewn ysgolion, ac o ddarpariaeth GwE yn eu hysgolion, wedi'i datblygu drwy adroddiadau manwl gan yr Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth. Mae eu presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn wedi helpu i ddelio gyda chanfyddiadau a datrys unrhyw faterion y mae aelodau'n dymuno eu codi ac wedi helpu i reoli disgwyliadau lleol drwy egluro eu rôl yn fanwl.

Yn y gorffennol, nid oedd y cynllun busnes yn cwrdd â'r heriau mewn meysydd sydd â blaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'r broses cynllunio busnes wedi'i gwella'n sylweddol yn ddiweddar ac mae'n fwy cadarn o lawer erbyn hyn. Mae gan uwch arweinwyr yn y consortiwm, ac yn yr Awdurdodau Lleol, fwy o gyfrifoldeb a pherchnogaeth dros y broses. Mae'r strwythur atebolrwydd yn gliriach a'r prosesau monitro'n fwy cadarn.

Mae'r strwythur atebolrwydd presennol ar lefel swyddog yn aneglur. Nid yw'n glir pa swyddog sydd â'r rôl arweiniol mewn perthynas ag atebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor. Mae rolau gan y Prif Weithredwr Arweiniol, y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Rheolwr Gyfarwyddwr, ond nid yw'r rhain wedi'u gwahaniaethu'n ddigon clir mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn arwain at nifer o anawsterau gan gynnwys y pwynt cyswllt sengl â Llywodraeth Cymru a diffyg eglurder o ran y ffordd y mae cyd-Gyfarwyddwyr yn gallu cymryd rhan mewn datblygu cyfeiriad rhwng cyfarfodydd.

Nid yw'r cysylltiadau rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn glir. Mae llawer o waith i'w wneud i sicrhau bod datblygiadau Cenedlaethol yn y dyfodol yn ategu blaenoriaethau lleol. Hefyd, mae angen cael darlun cliriach o'r llwybr y bydd pob ysgol yn ei ddilyn er mwyn bod yn barod am heriau Cymwys am Oes.

Mae Llesiant a Thegwch yn cael eu cyflwyno yn Cymwys am Oes 2. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at adolygu'r Model Cenedlaethol presennol. Gallai hyn gynnwys elfennau ychwanegol o'r gwasanaethau presennol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant sydd o dan adain yr ALI ar hyn o bryd.

Ym mis Ebrill 2016, adolygwyd GwE yn rhan o raglen o arolygiadau oedd yn edrych ar gynnydd y Consortia Rhanbarthol. Gadawyd yr argymhellion hyn.

A1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.

A2: Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.

A3: Gwella trylwyrdd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.

A4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.

A5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.

A6: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.

Y camau nesaf:

- Ail strwythuro'r sefydliad i roi sylw i'r diffygion presennol;
- Datblygu model arweinyddiaeth ddosranedig a fydd yn rhoi mwy o rolau arwain i staff, a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau eu hunain;
- Newid y model gweithredu presennol i ofalu bod pwyslais clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yng CA4;
- Gweithredu model perfformiad gwasanaeth ac unigol a fydd yn gymorth i roi sylw i argymhellion Estyn;
- ALI unigol i edrych ar eu cynhwysedd a'u gallu i weithio mewn partneriaeth gyda GwE i sicrhau bod perfformiad yn gwella;
- Adolygu'r strwythurau Llywodraethu ochr yn ochr ag adolygiad nesaf y Model Cenedlaethol;
- Datblygu eglurder rhwng blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol fel eu bod yn ategu ei gilydd, yn hytrach na chystadlu;
- Adolygu'r cynllun busnes ymhellach fel bod pawb yn deall beth yw blaenoriaethau GwE;
- Crisialu rolau staff, yn enwedig uwch staff, fel bod blaenoriaethau yn cael eu cyflawni;

- Adolygu model cefnogi busnes GwE.

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gwaith partneriaeth wedi gwella, gyda GwE bellach yn gweithio ar y cyd gydag ystod eang o randdeiliaid er mwyn codi safonau a gwella deilliannau i bob dysgwr.

Mae GwE wedi cryfhau ei bartneriaeth gyda'r chwe Awdurdod Lleol. Gwnaed gwaith i gryfhau'r cynllunio busnes o fewn Cynlluniau Busnes Lefel 2 a 3. Nodir blaenoriaethau gwella yn glir yn y cynlluniau. Drwy gynnwys deilliannau a meini prawf llwyddiant heriol, bu'n bosibl cael proses fonitor sy'n gadarnach. Dyrennir adnoddau yn fwy effeithiol ar draws y rhanbarth i sicrhau bod gwelliant yn digwydd yn gyflymach.

Mae GwE wedi symud yn gyflym i gryfhau'r cydweithio, y trafodaethau a'r llinell atebolrwydd gyda'r Awdurdodau Lleol. Cynhelir cyfarfodydd pob pythefnos gyda'r swyddog arweiniol ym mhob ALI ac uwch swyddog cyswllt yr ALI o GwE. Drwy hyn, sicrhau bod trafodaeth a her gyson o ran effeithiolrwydd y gwaith a wna GwE. Cyflwynir elfen ychwanegol hefyd ble bydd uwch swyddogion yr awdurdod yn cyfarfod gyda GwE, pob hanner tymor, i sicrhau y gwneir penderfyniadau llawer mwy effeithiol ac amserol am ysgolion a'u harweinwyr, pan fydd cynnydd yn bryder.

Mae'r Awdurdodau Lleol hefyd wedi sefydlu Byrddau Ansawdd Sirol (BAS) neu Fyrddau Ysgolion sy'n achosi Pryder i ganolbwyntio ar ysgolion y mae angen eu gwella'n gyflym. Bydd y Byrddau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd, ac maent yn cynnwys swyddogion allweddol o'r ALI a GwE. Mae tystiolaeth gynnar bod hyn yn cael effaith, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr arferion gorau ar draws y rhanbarth yn cael eu hymgorffori, a bod y gweithredu yn dylanwadu'n gyflymach ar ddeilliannau disgyblion. Y trafodaethau a'r wybodaeth a geir o'r cyfarfodydd pob hanner tymor gyda GwE fydd yn penderfynu, yn bennaf, a ddylai'r awdurdod roi rhybudd a defnyddio ei bwerau statudol i ymyrryd. Bydd pob BAS yn adrodd i'r Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ble cynhyrchir adroddiad eithriad i'r Bwrdd Rheoli.

Cryfhawyd y berthynas waith rhwng GwE a Llywodraeth Cymru eto eleni drwy gyfrwng dipyn o'r gwaith ar yr agenda Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r 4 consortiwm rhanbarthol wedi cydweithio i roi cynnig ar y cyd i Lywodraeth Cymru weithio'n agos ar ddatblygiadau'r cwricwlwm, yn enwedig y Meysydd Dysgu a Phrofiad newydd, ble mae arweinwyr rhanbarthol yn gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr Llywodraeth Cymru i rymuso'r broses. Mae cyfleoedd i Ddysgu'n Broffesiynol hefyd wedi datblygu ymhellach y berthynas waith gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith ar ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (OECD), y cydweithio ar ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd a'r Safonau Arweinyddiaeth newydd, a'r model CPCP diwygiedig, i gyd yn enghreifftiau o hyn. Bu consortia rhanbarthol yn allweddol wrth sicrhau bod ysgolion yn rhan o'r datblygiadau pwysig hyn. Mae GwE wedi llwyddo i hwyluso'r cyfathrebu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac ysgolion i ofalu bod datblygiadau yn unol ag anghenion. Bu mynd i gyfarfodydd ledled Cymru yn elfen bwysig o'r gwaith, ond rhoddir pwys hefyd ar ddefnyddio fideo gynadledda er mwyn manteisio'n dda ar adnoddau GwE.

Mae'r cydweithio rhwng y consortia yn datblygu'n effeithiol. Mabwysiadwyd dull cenedlaethol gyda'r model cyflawni rhanbarthol, gyda chynlluniau gwaith consortia gwella ysgolion bellach yn canolbwyntio ar:

- Cynllunio Busnes a Gwerth am Arian
- Craffu
- Datblygu arweinyddiaeth

- Dyfodol Llwyddiannus ar waith
- Dysgwyr bregus
- Cyfathrebu
- Asesiad Athro

Mae'r berthynas rhwng GwE a Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Caer yn datblygu gyda GwE yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith sydd gan y Prifysgolion ar y gweill ar Addysg Gychwynnol i Athrawon, wrth iddynt ymateb i Lywodraeth Cymru ac adroddiad John Furlong - "Addysgu Athrawon Yfory". Mae'r camau nesaf yn cynnwys creu sefydliad AGA yng Ngogledd Cymru.

Bydd y "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) rhwng GwE a Phrifysgol Bangor yn golygu y bydd y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sefydlu systemau arfarnu effeithiol o fewn ein sefydliad. Mae'r cydweithio yn golygu edrych ar ddatblygu ymchwil gweithredol o safbwynt elfennau lles, a hefyd ymchwil i elfennau arweinyddiaeth effeithiol.

Mae Prifysgol Bangor a GwE hefyd yn gweithio'n effeithiol ar hybu strategaethau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i wella deilliannau er enghraifft, prosiect NorthWORTS-SP gydag Ysgolion Seicoleg ac Addysg Prifysgol Bangor.

Mae GwE wedi cydweithio'n agos gyda'r Ganolfan ar Ddefnyddio Ymchwil a Thystiolaeth mewn Addysg (CUREE) i roi cefnogaeth effeithiol ar ddatblygu arferion ymchwil ar gyfer ystod o ysgolion ac Ymgynghorwyr Her penodol ar draws y rhanbarth. Mae'r cydweithio wedi llwyddo i ddatblygu map o ddulliau ymchwil a thystiolaeth. Mae ymarferwyr wedi defnyddio'r map hwn i gyfoethogi eu ffyrdd o drin a thrafod llythrennedd ar draws y cwricwlwm, pynciau STEM, gwella adborth a chynyddu lefel briodol o her mewn gwersi.

Mae cydweithio effeithiol hefyd ar y gweill rhwng y rhanbarth a'r ymarferydd addysg adnabyddus, Shirley Clarke. Mae GwE wrthi'n dewis 16 ysgol i gydweithio'n agos gyda Shirley Clarke i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ddefnyddio asesu ffurfiannol yn effeithiol i drawsffurfio'r dysgu. Bydd ysgolion yn datblygu eu prosiectau ymchwil gweithredol eu hunain, ac yna'n mynd ati i rannu'u harferion gorau y flwyddyn ganlynol, gyda 256 ysgol yn rhagor ar draws y rhanbarth. Bydd astudiaethau achos o'r dulliau hyn ar gael i bob ysgol maes o law.

Y camau nesaf:

- datblygu system rheoli gwybodaeth i ddadansoddi a rhannu'r arferion gorau;
- penodi arweinydd Ansawdd a Data rhanbarthol;
- datblygu ymhellach rhaglen graffu ac atebolrwydd, gan yr ALI, ar waith GwE.
- dal ati i ddatblygu'r berthynas waith i gysoni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- Parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth
- Parhau i gryfhau'r cysylltiadau gydag ystod eang o bartneriaid yn unol â'r datblygu'r cwricwlwm newydd, a rhannu adnoddau gyda nifer cynyddol o ysgolion.

Gwerth am Arian

Yn gyffredinol, mae prosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith gan y consortiwm. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r cyd bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Rydym wrthi'n gwella ein dadansoddi ariannol i'n cefnogi wrth gyflawni ein cynllun busnes diwygiedig dros dair blynedd. Datblygir cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu i gyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Gwnaed gwaith manwl i gysoni dyraniadau grant gyda'n blaenoriaethau, er mai cyfyngedig fu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Mae ymgynghorwyr bellach yn herio ysgolion ar eu defnydd o arian grant, gyda set pendant o feini prawf i bwyso a mesur sut maent yn defnyddio'r arian hwn. Gwelwyd hyn yn lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran gweld beth yw effaith defnyddio'r arian grant ar ddeilliannau disgyblion.

Rydym bellach yn casglu'r wybodaeth a gesglir ar ddefnydd ysgolion o arian grant, felly manteisir yn well ar gyfleoedd i rannu arferion effeithiol a dysgu ehangach.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Rydym bellach yn arfarnu ac yn adolygu ein gwasanaethau a'n mentrau tra byddant wrthi'n cael eu gweithredu, a hynny er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant a gwerth am arian.

Atodiad 1 - Safonau

Crynodeb o'r Cyfnod Sylfaen

- Mae'r cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS] rhwng 2014 a 2016 yn debyg i'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol.
- Yn 2016, mae perfformiad GwE yn y DPC yn is na'r disgwyl [3ydd o'r 4 consortiwm], gan gymryd bod yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd. Mae perfformiad 5 o'r 6 awdurdod yn is na'r disgwyl mewn perthynas â'u safle o ran y ganran sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (ac mae Sir Ddinbych yn perfformio'n well).
- Yn 2016, o ran y deilliannau disgwyliedig, gwelwyd gostyngiad ar lefel ranbarthol yn y ganran sy'n cyflawni'r dangosyddion ar gyfer Cymraeg a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, a chynnydd bach yn y rhai ar gyfer Saesneg Iaith a Datblygiad Mathemategol. Heblaw am Sir Ddinbych, mae'r awdurdodau'n perfformio'n is na'u safleoedd PYD disgwyliedig yn gyffredinol.
- Yn y deilliannau uwch [deilliant disgwyliedig +1] gwelwyd cynnydd yn y dangosyddion ar gyfer Saesneg, Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Personol, sy'n uwch neu'n debyg i'r cynnydd cenedlaethol. Cafwyd gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd Cymraeg. Mae perfformiad yr awdurdodau lleol unigol yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth.
- Mae perfformiad y rhanbarth yn is na'r targed ar gyfer y DCS. Heblaw am Gymraeg Iaith, mae'r perfformiad yn uwch na'r targed ar gyfer y dangosyddion ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch. Mae angen rhoi sylw i sicrhau bod targedau'n fwy ymestynnol ac yn anelu at berfformiad a fydd yn rhoi awdurdodau mewn safle sy'n debyg, neu'n well, na'u safle PYD.
- Fodd bynnag, mae'r perfformiad yn is na'r targed ar y lefelau uwch, yn enwedig ar gyfer y pynciau iaith.
- Mae perfformiad dysgwyr PYD yn amrywio. Gwelwyd cynnydd bach yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DCS, Saesneg Iaith a Datblygiad Mathemategol (ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant +1). Er hynny, mae bylchau sylweddol o hyd rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD mewn amryw o awdurdodau ar draws y dangosyddion. Gwelir y bylchau mwyaf yn y DCS yn Ynys Môn, Sir y Fflint a Chonwy.
- Mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad y rhywiau yn y DCS yn debyg i'r hyn a welir ar lefel genedlaethol, ac mae'r bylchau mwyaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae maint y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a genethod, yn yr holl ddangosyddion, yn amrywio'n sylweddol yn yr awdurdodau unigol.

Crynodeb CA2

- Mae'r cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] rhwng 2014 a 2016 yn uwch na'r cynnydd yn genedlaethol. Er hynny, cafwyd llai o gynnydd eleni [0.6% o'i gymharu â 0.9% ar lefel genedlaethol]. Yn 2016, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint, ac Ynys Môn oedd yr unig awdurdod lle cafwyd gostyngiad.
- Yn 2016, mae perfformiad GwE yn y DPC wedi disgyn i'r 3ydd safle o'r 4 consortiwm. Perfformiodd 3 o'r 6 awdurdod yn well na'u safle PYD, neu'n debyg. Roedd 2 o'r 6 awdurdod [Conwy a Wrecsam] wedi perfformio'n sylweddol well na'u safle PYD disgwyliedig.
- Yn 2016, o ran y deilliannau disgwyliedig, gwelwyd gostyngiad ar lefel ranbarthol yn y ganran sy'n cyflawni mewn Cymraeg a mathemateg, gydag ychydig o gynnydd mewn Saesneg, a dim newid mewn gwyddoniaeth.

- Yn 2016, ar y lefelau uwch [lefel 5+], gwelwyd cynnydd mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ond dim ond mewn Gwyddoniaeth y mae'r cynnydd hwn yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol. Nid yw perfformiad y rhanbarth ar y lefelau uwch gystal â'r disgwyl ac mae hyn yn agwedd sy'n galw am sylw [Ynys Môn: Cymraeg a gwyddoniaeth; Conwy: Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth; Sir Ddinbych: mathemateg a Saesneg; Sir y Fflint: Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth; Wrecsam: Cymraeg, Saesneg a mathemateg].
- Heblaw am Gymraeg ar y lefel ddisgwyliedig, mae perfformiad y rhanbarth yn agos neu'n uwch na'r targed a'r rhagamcan. Er hynny, mae perfformiad yn amrywio'n fawr ar lefel yr awdurdod unigol. Yn gyffredinol, mae angen gosod targedau mwy ymestynnol sy'n anelu at berfformiadau a fydd yn rhoi'r awdurdodau mewn safle tebyg, neu uwch na'u safleoedd PYD.
- Gwelwyd cynnydd yng nghanran y dysgwyr PYD a gyflawnodd y DPC ac yn y pedwar pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae perfformiad dysgwyr PYD ar y lefelau uwch yn faes sydd angen ei wella, gan fod y bwlch rhwng perfformiadau dysgwyr PYD a dim PYD wedi cynyddu mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Ar lefel ranbarthol, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiadau'r rhywiau yn y DPC ychydig yn uwch nag ar y lefel genedlaethol, ac mae'r bwlch mwyaf yn Ynys Môn a Sir Ddinbych. Mae'r bwlch ranbarthol yn llai ar y lefelau uwch ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth, ond ychydig yn fwy ar gyfer Saesneg, a mwy o lawer ar gyfer Cymraeg. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a genethod yn yr holl ddangosyddion yn amrywio'n fawr yn yr awdurdodau unigol.

Crynodeb CA3

- Yn 2016, gwelwyd rhagor o gynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC]. Mae perfformiad y rhanbarth yn dal i fod yr uchaf ymhlith y pedwar consortiwm, gyda phob awdurdod, ac eithrio Wrecsam, yn perfformio'n well na'u safle PYD, neu'n agos.
- Yn 2016, ar y lefel ddisgwyliedig, perfformiad y rhanbarth yw'r gorau ym mhob pwnc craidd, er gwaethaf y gostyngiad bach yn y ganran sy'n cyflawni yn y Gymraeg.
- Yn 2016, ar y lefelau uwch [lefel 6+], gwelwyd cynnydd ym mhob pwnc craidd. Mae cynnydd y rhanbarth yn uwch na'r cynnydd cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, ond yn is ar gyfer y pynciau craidd eraill. Perfformiad mewn mathemateg yw'r gorau o'r pedwar consortiwm, gyda'r tri phwnc craidd arall yn ail orau. Mae perfformiadau'r awdurdodau'n well neu'n debyg i'w safleoedd PYD, ac eithrio: Ynys Môn mewn gwyddoniaeth; Gwynedd mewn Cymraeg [lle mae'r niferoedd sy'n dilyn Cymraeg iaith yn uwch o lawer na'r awdurdodau eraill ar lefel genedlaethol]; Sir y Fflint mewn Gwyddoniaeth a Wrecsam mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- Mae perfformiad y rhanbarth yn agos, neu'n uwch na'r targed ar y lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae'r perfformiad ar y lefelau uwch yn gyffredinol is na'r targed, yn enwedig yn y pynciau iaith.
- Gwelir cynnydd sylweddol yng nghanran y disgyblion PYD sy'n cyflawni'r DPC. Gwelwyd cynnydd hefyd ym mhob un o'r 4 pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefelau uwch. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o sylw i wella perfformiad dysgwyr PYD mewn awdurdodau penodol lle mae'r perfformiad wedi gostwng mewn rhai pynciau craidd.
- Yn 2016, ar lefel ranbarthol, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiadau'r rhywiau yn y DPC yn is na'r gwahaniaeth ar lefel genedlaethol. Ceir y bwlch mwyaf o hyd yn Ynys Môn. Mae'r bwlch yn llai ar y lefel ranbarthol ar gyfer y pedwar pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig. Ar y lefelau uwch, mae'r bwlch ranbarthol yn fwy na'r bwlch cenedlaethol ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg, a Gwyddoniaeth yw'r unig bwnc lle mae'r bwlch yn llai. Mae'r bwlch rhwng perfformiadau bechgyn a genethod


yn yr holl ddangosyddion, ar y lefelau uwch, yn amrywio'n sylweddol yn yr awdurdodau unigol.

Crynodeb CA4


Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni Trothwy Cynwysedig Lefel 2 [L2+] yn uwch o lawer eleni [+2.0% neu +3.0% heb gynnwys 'mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol'] na'r cynnydd a welwyd yn 2015 [0.4%]. Yn 2016, mae pob un o'r 6 awdurdod wedi gwneud cynnydd yn L2+, a gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Ngwynedd a Sir Ddinbych.

Tabl 2a: Canran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Cynwysedig Lefel 2 [L2+] heb gynnwys 'mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol'



Tabl 2b: Canran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Cynwysedig Lefel 2 [L2+] yn cynnwys 'mathau eraill o Addysg Heblaw yn yr Ysgol'



Mae Tabl 3 yn dangos perfformiad pob un o'r ALI yn y dangosyddion perfformiad allweddol [Lefel 2+, Lefel 1, Lefel 2, Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio a 5A*-A] o'i gymharu â pherfformiad y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Tabl 3: crynodeb o safleoedd yr awdurdodau yn y dangosyddion perfformiad allweddol yn CA4

	2014					2015					2016				
	L2+	L1	L2	SPCh	5A*-A	L2+	L1	L2	SPCh	5A*-A	L2+	L1	L2	SPCh	5A*-A
Ynys Môn (10)	14	6	9	3	10	12	8	16	9	13	14	5	15	11	10
Gwynedd (4)	5	1	4	1	2	5	1	6	1	3	4	1	9	4	8
Conwy (8)	11	8	8	11	8	18	14	14	17	16	17	17	16	17	19
Sir Ddinbych (14)	10	11	2	5	9	14	17	10	11	8	13	20	14	16	14
Sir y Fflint (6)	3	14	15	13	19	8	18	15	15	15	10	13	17	15	12
Wrecsam (9)	18	21	21	20	20	20	20	22	21	20	18	19	21	18	20
GwE (1)	2	2	2	2		3	3	3	3		3	-	-	3	

Mae perfformiad yr awdurdodau lleol unigol yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Yn 2016, Gwynedd a Sir Ddinbych yw'r unig ddau awdurdod sydd wedi perfformio yn ôl y disgwyl yn L2+. Yn gyffredinol y flwyddyn hon, mae Gwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn wedi perfformio yn ôl y disgwyl ym mwyafrif y dangosyddion; Mae Sir y Fflint wedi perfformio'n is na'r disgwyl ym mhob un, a Wrecsam a Chonwy wedi perfformio'n is o lawer na hynny. Mae gwella safonau yn yr awdurdodau lleol hynny sy'n perfformio'n is na'u safle cymharol am y ganran sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn flaenoriaeth bwysig.

Pynciau Craidd


Cafwyd cynnydd cadarn yng nghanran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-C mewn Saesneg yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych. Fodd bynnag, dim ond cynnydd bach a welwyd yng Nghonwy a gostyngiad yn Wrecsam a Sir y Fflint. Mae cynnydd wedi bod yng nghanran y disgyblion sy'n ennill graddau A*-C mewn Mathemateg ym mhob un o'r 6 awdurdod. Er hynny, mae'r cynnydd yn amrywio'n sylweddol rhwng yr awdurdodau a chafwyd y cynnydd isaf yng Nghonwy a Sir y Fflint. Mae'r perfformiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn parhau'n dda ledled y rhanbarth ac yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr yn hytrach na chohort y flwyddyn gyfan. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yn y ganran a enillodd raddau A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yng Ngwynedd (yr awdurdod lle mae'r ganran uchaf o'i gohort yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf). Mae canran y dysgwyr sydd wedi cyflawni Gwyddoniaeth Lefel 2 yn y rhanbarth yn is y flwyddyn hon. Gwelwyd gostyngiad o'r fath hefyd ar lefel genedlaethol gan fod mwy o ysgolion yn cyflwyno disgyblion i ddilyn TGAU Gwyddoniaeth yn hytrach na chymwysterau galwedigaethol. Cafwyd y gostyngiad mwyaf mewn Gwyddoniaeth Lefel 2 yng Nghonwy tra oedd cynnydd sylweddol yn Wrecsam.

Perfformiad ysgolion unigol

Yn 2016, roedd tua un rhan o dair o'r holl ysgolion o fewn 1% i'w rhagamcanion terfynol ar gyfer L2+; roedd tua dwy ran o dair wedi cyrraedd eu rhagamcan neu o fewn 5% iddo; a dim ond mewn 6 ysgol (11%) roedd y perfformiad yn 10% yn is na'u rhagamcan. Mae hyn yn well na'r sefyllfa yn 2015 pan oedd gormod o ysgolion yn is na'u rhagamcanion terfynol.

Yn gyffredinol yn 2016, mae gormod o ysgolion ar draws y rhanbarth yn perfformio'n is na'r canolrif yn y meincnodi ar gyfer PYD yn y dangosyddion perfformiad allweddol (heblaw ar Lefel 1) ac mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn yn peri pryder.

Tabl 5: dosbarthiad ysgolion yn y chwarteli meincnodi PYD



Mae perfformiad ysgolion unigol yn amrywio'n sylweddol o fewn a rhwng Awdurdodau Lleol. Er bod y proffiliau meincnodi PYD ar gyfer Gwynedd, Sir Ddinbych ac Ynys Môn yn gystal neu'n well na'r disgwyl yn gyffredinol, mae'r proffiliau ar gyfer Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam yn peri pryder gan fod gormod o ysgolion o dan y canolrif yn y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r dangosyddion allweddol.

Atodiad 2 Safonau Grwpiau o Ddysgwyr

Perfformiad grwpiau o ddysgwyr

Bechgyn a Genethod

Mae perfformiad y bechgyn a'r genethod yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, mae'r genethod yn parhau i berfformio yn well na'r bechgyn, ac mae'r bwlch rhwng perfformiad y genethod a'r bechgyn yn parhau.

- Yng nghyfnod allweddol 4, mae %L2+ y genethod wedi cynyddu o 61.2% yn 2015 i 64.2% yn 2016 ac yn uwch na'r bechgyn, sydd hefyd wedi cynyddu o 53.9% yn 2015 i 55.1% yn 2016. Mae'r bwlch wedi cynyddu i 9.1% yn 2016 o gymharu â 7.3% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn fwy amlwg o edrych ar yr ieithoedd. Mae'r bwlch wedi cynyddu yn 2016 o 17.8% i 19.0% yn y %A*-C Saesneg, wedi cynyddu o 14.8% i 17.8% yn y Gymraeg o gymharu â bwlch o 2.7% mewn Gwyddoniaeth a 0.3% mewn Mathemateg. Roedd cohort 2016 wedi ei rannu yn 50.8% bechgyn ac yn 49.2% genethod, o gymharu â 51.7% bechgyn a 48% genethod yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 3 mae % DPC y genethod wedi cynyddu o 90.2% yn 2015 i 91.2% yn 2016 ac yn uwch na'r bechgyn sydd hefyd wedi cynyddu o 82.0% yn 2015 i 84.5% yn 2016. Mae'r bwlch o 6.8% yn llai na'r bwlch o 8.3% yn 2015 a 9.3% yn 2014. Roedd cohort 2016 wedi ei rannu 51.1% bechgyn a 48.9% genethod o gymharu â 50.4% bechgyn a 49.6% genethod yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae % DPC y genethod wedi cynyddu o 91.1% yn 2015 i 91.7% yn 2016, ac yn uwch na'r bechgyn sydd hefyd wedi cynyddu o 85.5% yn 2015 i 86.0% yn 2016. Mae'r bwlch o 5.7% yn hafal efo'r bwlch o 5.7% yn 2015. Roedd cohort 2016 wedi ei rannu yn 51.3% bechgyn a 48.7% genethod o gymharu â 52.1% bechgyn a 47.9% genethod yn 2015.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae % DPC y genethod wedi cynyddu o 90.1% yn 2015 i 90.4% yn 2016, ac yn uwch na'r bechgyn sydd hefyd wedi cynyddu o 81.8% yn 2015 i 82.2% yn 2016. Mae'r bwlch o 8.2% yn gymharol efo bwlch o 8.3% yn 2015. Roedd cohort 2016 wedi ei rannu yn 50.8% bechgyn a 49.2% genethod o gymharu â 50.7% bechgyn a 49.3% genethod yn 2015.

Prydau Ysgol am Ddim (PYD)

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gyda'r bwlch rhwng disgyblion PYD a dim PYD wedi lleihau yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol.

- Yng nghyfnod allweddol 4 mae %L2+ disgyblion PYD wedi cynyddu yn 2016 i 34.3%, o gymharu â 30.1% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng y disgyblion PYD a dim PYD wedi lleihau o 32.9% yn 2015 i 31.6% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 12.0% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 12.3% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 3 mae %DPC y disgyblion PYD wedi cynyddu yn 2016 i 73.3%, o gymharu â 67.6% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng y disgyblion PYD a dim PYD wedi lleihau o 21.9% yn 2015 i 17.2% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 14.8% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 14.9% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae %DPC y disgyblion PYD wedi cynyddu yn 2016 i 76.0%, o gymharu â 74.6% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng y disgyblion PYD a dim PYD wedi lleihau o 16.2% yn 2015 i 15.2% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 15.4% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 15.7% yn 2015.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae %DCS y disgyblion PYD wedi cynyddu yn 2016 i 73.3%, o gymharu â 72.0% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng y disgyblion PYD a dim PYD wedi

lleihau o 16.9% yn 2015 i 15.7% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 16.6% o'r cohort llawn yn 2016 o gymharu â 17.4% yn 2015.

Plant Mewn Gofal (PMG)

Mae niferoedd plant mewn gofal ar draws y rhanbarth yn fychan – rhwng 0.6% a 1% o'r cohortiau yn 2016 felly gall perfformiad amrywio yn sylweddol yn seiliedig ar berfformiad unigolyn. Ar y cyfan, mae perfformiad PMG yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn yn y prif ddangosyddion. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn eithriad.

- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae canran L2+ PMG wedi gostwng i 21.7% yn 2016, o gymharu â 22.4% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng PMG a dim PMG wedi lleihau o 36.7% yn 2015 i 40.6% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 1.0% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 0.7% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 3 mae %DPC plant mewn gofal wedi codi i 67.8% yn 2016, o gymharu â 67.3% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng PMG a dim PMG wedi cynyddu o 19.2% yn 2015 i 20.4% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 0.9% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 0.8% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 3 mae %DPC plant mewn gofal wedi codi i 67.8% yn 2016, o gymharu â 67.3% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng PMG a dim PMG wedi lleihau o 36.7% yn 2015 i 40.6% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 0.9% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 0.8% yn 2015.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae %DCS y disgyblion PYD wedi cynyddu yn 2016 i 73.3%, o gymharu â 72.0% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng PMG a dim PMG wedi lleihau o 36.7% yn 2015 i 40.6% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 0.9% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 0.8% yn 2015.

Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)

Mae nifer y disgyblion y cofnodwyd sydd â'r Saesneg fel iaith ychwanegol ar draws y rhanbarth, yn weddol fychan – rhwng 1.0% a 4.9% o'r cohortiau yn 2016, felly gall perfformiad amrywio yn sylweddol yn seiliedig ar berfformiad nifer bach o blant.

Mae perfformiad plant y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi disgyn yn 2016 yn y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod.

- Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae canran L2+ plant SIY wedi gostwng i 28.6% yn 2016, o gymharu â 36.2% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 23.7% yn 2015, i 34.3% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 1.0% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 0.9% yn 2015.
- Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae DPC plant SIY wedi gostwng i 64.2% yn 2016, o gymharu â 66.7% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 19.8% yn 2015, i 24.1% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 1.2% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 1.2% yn 2015.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae DPC plant SIY wedi gostwng i 80.5% yn 2016, o gymharu â 81.0% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 7.3% yn 2015, i 8.5% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 2.1% o'r cohort llawn yn 2016 o gymharu â 2.1% yn 2015.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae DPC plant SIY wedi gostwng i 82.3% yn 2016, o gymharu â 82.8% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 3.3% yn 2015, i 4.3% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 4.9% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 4.3% yn 2015.

Anghenion Addysgol Arbennig - Disgyblion ar Ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy

Mae perfformiad plant ar ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy, yn y prif ddangosyddion, yn amrywio ar draws y cyfnodau.

- Yng nghyfnod allweddol 4, mae canran y plant ar ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy sy'n cyflawni L2+, wedi disgyn yn 2016 i 18.0%, o gymharu â 18.8% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 44.9% yn 2015, i 48.4% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 8.9% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 10.5% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 3 mae %DPC plant ar ddatganiad neu weithredu ysgol a mwy, wedi codi i 47.8% yn 2016, o gymharu â 44.3% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi lleihau o 47.6% yn 2015, i 45.6% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 11.9% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 11.7% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae %DPC plant ar ddatganiad neu weithredu ysgol a mwy, wedi codi i 47.0% yn 2016, o gymharu â 45.9% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi lleihau o 49.0% yn 2015, i 48.4% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 13.5% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 13.6% yn 2015.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae canran y plant ar ddatganiad neu Weithredu Ysgol a Mwy sy'n cyflawni'r DCS, wedi disgyn i 38.7% yn 2016, o gymharu â 42.7% yn 2015. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 48.0% yn 2015, i 53.1% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 10.1% o'r cohort llawn yn 2016 o gymharu â 9.8% yn 2015.

Perfformiad yn ôl Tarddiad Ethnig

Ar y cyfan, mae perfformiad plant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig, wedi cynyddu yn y prif ddangosyddion, ond mae'n is na'r ganran ar gyfer disgyblion Gwyn/Prydeinig.

- Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ganran o blant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig a lwyddodd i gyrraedd y L2+ wedi cynyddu ychydig i 60.9% yn 2016, o'i gymharu â 60.2% yn 2015. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 4.6% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 4.3% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 3, mae canran DPC plant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig wedi gostwng i 83.0%, o gymharu â 84.9% yn 2015, ac yn is na chanran DPC disgyblion Gwyn/Prydeinig, oedd yn 88.2% yn 2016. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 1.4% yn 2015, i 5.3% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 4.7% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 4.4% yn 2015.
- Yng nghyfnod allweddol 3, mae canran DPC plant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig wedi codi i 86.1%, o gymharu â 86.0% yn 2015, ac yn is na chanran DPC disgyblion Gwyn/Prydeinig, oedd yn 89.0% yn 2016. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi codi o 2.3% yn 2015, i 2.9% yn 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 5.5% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 4.9% yn 2015.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae canran DPC plant o darddiad ethnig sydd ddim yn Wyn/Prydeinig wedi codi i 83.6%, o gymharu â 83.0% yn 2015, ac yn is na chanran

DPC disgyblion Gwyn/Prydeinig, oedd yn 86.0% yn 2016. Mae'r bwlch rhwng disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, o gymharu â'r rheiny nad yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi gostwng o 3% yn 2015, i 2.9% yn 3.0% 2016. Mae'r cohort yma yn cynrychioli 7.8% o'r cohort llawn yn 2016, o gymharu â 6.8% yn 2015.

Sipsiwn a Theithwyr

- Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2016, roedd 5 disgybl ym Mlwyddyn 11 ar draws y rhanbarth. Mae'r ganran a lwyddodd i gyrraedd y L2+ wedi disgyn i 20.0% yn 2016, o'i gymharu â 33.3% yn 2015 a 20% yn 2014.
- Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2016, roedd 8 disgybl yn y garfan ar draws y rhanbarth. Gostyngodd y ganran DPC o 57.1% yn 2015 i 50% yn 2016.
- Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2016, roedd 14 disgybl yn y garfan ar draws y rhanbarth. Gostyngodd y ganran DPC o 64.3% yn 2015 i 57.1% yn 2016.
- Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2016, roedd 22 disgybl yn y garfan ar draws y rhanbarth. Gostyngodd y ganran DCS o 50.0% yn 2015 i 45.5% yn 2016.

Mwy Abl a Thalentog

- Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ganran sy'n ennill 5A*-A wedi gostwng yn 2016, o gymharu â 15.1% yn 2015. Os caiff disgyblion EOTAS eu cynnwys, mae'r % yma yn disgyn i 13.9% sydd yn is na'r % cenedlaethol o 15.8%.
- Yng nghyfnod allweddol 3 mae'r % a lwyddodd i gyrraedd y lefel 6 neu uwch mewn Saesneg wedi cynyddu o 54.5% yn 2015 i 57.7% yn 2016, ac yn uwch na'r ganran genedlaethol o 56.2%, gyda GwE yn perfformio ail orau o'r holl ranbarthau. Cododd y Gymraeg o 59.8% yn 2015 i 61.3% yn 2016, ac mae'n uwch na'r ganran genedlaethol o 57.2%. GwE sy'n perfformio ail orau o'r holl ranbarthau. Cododd Gwyddoniaeth o 60.3% yn 2015 i 63.8% yn 2016, ac mae'n uwch na'r ganran genedlaethol o 62.9% gyda GwE yn perfformio ail orau o'r holl ranbarthau. Cododd Mathemateg o 62.1% yn 2015 i 64.4% yn 2016, ac mae'n uwch na'r ganran genedlaethol o 62.7%, gyda GwE yn perfformio orau o'r holl ranbarthau.
- Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r ganran a lwyddodd i gyrraedd y lefel 5 neu uwch mewn Saesneg wedi cynyddu o 40.2% yn 2015 i 40.8% yn 2016, ac mae'n is na'r ganran genedlaethol o 42.0%, gyda GwE yn perfformio yn drydydd orau o'r holl ranbarthau. Y Gymraeg wedi disgyn o 38.4% yn 2015 i 37.1% yn 2016 ac yn is na'r ganran genedlaethol o 38.0%, gyda GwE yn perfformio ail orau o'r holl ranbarthau. Cododd Gwyddoniaeth o 40.8% yn 2015 i 42.3% yn 2016, ac mae'n is na'r ganran genedlaethol o 42.5% gyda GwE yn perfformio trydydd orau o'r holl ranbarthau. Cododd Mathemateg o 40.8% yn 2015 i 42.1% yn 2016, ac mae'n is na'r ganran genedlaethol o 43.2%, gyda GwE yn perfformio trydydd orau o'r holl ranbarthau.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ganran a lwyddodd i gyrraedd Deilliant 6 neu uwch yn y Saesneg wedi cynyddu o 33.6% yn 2015 i 36.2% yn 2016, ac mae'n gyfartal â'r ganran genedlaethol, gyda GwE yn perfformio ail orau o'r holl ranbarthau. Y Gymraeg wedi disgyn o 36% yn 2015 i 34.8% yn 2016, ac yn is na'r ganran genedlaethol o 36.2%, gyda GwE yn perfformio ddiwethaf o'r holl ranbarthau. Cododd Datblygiad Personol o 58.1% yn 2015 i 61.6% yn 2016, ac mae'n uwch na'r ganran genedlaethol o 58.9%, gyda GwE yn perfformio orau o'r holl ranbarthau. Cododd Datblygiad Mathemategol o 33.8% yn 2015 i 35.9% yn 2016, ac mae'n is na'r ganran genedlaethol o 36.4%, gyda GwE yn perfformio trydydd orau o'r holl ranbarthau.

Atodiad 3 - Deilliannau Arolygiadau ESTYN: Medi 2015-Mawrth 2017

Yn ystod 2015-16, roedd cyfanswm o 61 o Sefydliadau Addysgol (48 Ysgol Gynradd / 9 Ysgol Uwchradd / 1 i Bob Oed / 1 Ysgol Arbennig / 2 Uned Cyfeirio Disgyblion) yn rhanbarth GwE wedi cael eu harolygu gan Estyn. O blith y rhain:

- Barnwyd bod 39 o ysgolion (64%) yn Dda neu well ar sail eu perfformiad presennol. Mae hyn yn welliant o 1.7% ar ganlyniadau 2014-15 (77 wedi'u harolygu).
- Barnwyd bod 2 ysgol (3.3%) yn Anfoddhaol ar sail eu perfformiad presennol – roedd y ddwy'n ysgolion uwchradd. Yn 2014-15, barnwyd bod 1 ysgol (uwchradd) yn anfoddhaol.
- Barnwyd bod 42 o ysgolion (68.8%) yn Dda neu well o ran eu rhagolygon gwella. Mae hyn yn welliant o 3.9% ar ganlyniadau 2014-15.
- Barnwyd bod 6 ysgol (10%) yn Anfoddhaol o ran eu rhagolygon gwella – dwy ysgol gynradd, dwy ysgol uwchradd, a'r ddwy Uned Cyfeirio Disgyblion. Yn 2014-15, barnwyd bod 5 ysgol yn anfoddhaol (3 ysgol gynradd, 2 ysgol uwchradd).
- Ni roddwyd un rhan o dair o ysgolion (x21) mewn unrhyw gategori 'dilyniant'. Yn 2014-15, ni roddwyd 40% o'r ysgolion (31) a arolygwyd mewn unrhyw gategori 'dilyniant'.
- Roedd mwy na 10% o ysgolion (7) wedi'u rhoi mewn categori 'Gwelliant Sylweddol' neu 'Mesurau Arbennig', a bron chwarter yr ysgolion uwchradd (2) wedi'u rhoi mewn categori 'Mesurau Arbennig'. Yn 2014-15, roedd 6 ysgol (3 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd) wedi'u rhoi mewn categori 'Gwelliant Sylweddol' neu 'Mesurau Arbennig'.
- Barnwyd bod Safonau (CwA1) yn Dda neu'n well mewn 39 o ysgolion (64%). Mae hyn yn welliant o 1.7% ar ganlyniadau 2014-15.
- Barnwyd bod Darpariaeth (CwA2) yn Dda neu'n well mewn 46 ysgol (75.8%). Mae hyn yn welliant o 3.1% ar ganlyniadau 2014-15.
- Barnwyd bod Arweinyddiaeth (CwA3) yn Dda neu'n well mewn 42 ysgol (68.8%). Mae hyn yn welliant o 2.6% ar ganlyniadau 2014-15.
- Barnwyd bod Safonau ac Arweinyddiaeth yn Anfoddhaol ym mron chwarter yr ysgolion uwchradd a arolygwyd.

Mae'r proffil arolygiadau at gyfer ysgolion Cynradd yn gadarnhaol ac yn dangos gwelliannau pendant. O'r ysgolion a arolygwyd (48 o ysgolion), barnwyd bod 70% neu ragor yn dda neu'n well yn yr holl ddyfarniadau allweddol. Mae'r canlyniadau hyn yn cymharu'n ffafriol â'r canlyniadau i Gymru gyfan. Mae'r proffil ar gyfer ysgolion Uwchradd yn llai cadarnhaol, gyda dim ond 44.4 % o'r ysgolion a arolygwyd (9 ysgol) yn cael eu dyfarnu'n dda neu'n well yn yr holl ddyfarniadau allweddol. Mae'r canlyniadau hyn yn well na rhai Cymru gyfan, fodd bynnag, mae canran yr ysgolion uwchradd y barnwyd eu bod yn anfoddhaol mewn pedwar o'r pum dyfarniad allweddol (22.2%), yn uwch o lawer na'r canlyniadau ar gyfer Cymru gyfan.

2015-16	Cynradd				Uwchradd			
	Yn dda neu'n well		Anfoddhaol		Yn dda neu'n well		Anfoddhaol	
	GwE	Cymru	GwE	Cymru	GwE	Cymru	GwE	Cymru
Perfformiad cyfredol	70.9%	72%	0%	1%	44.4%	39%	22.2%	12%
Rhagolygon gwella	75.0%	72%	4.2%	3%	55.5%	54%	22.2%	12%
Safonau	70.9%	72%	0%	1%	44.4%	39%	22.2%	12%
Darpariaeth	77.1%	78%	0%	1%	77.8%	67%	0%	3%

Arweinyddiaeth	75.0%	73%	4.2%	3%	55.5%	54%	22.2%	12%
----------------	-------	-----	------	----	-------	-----	-------	-----

Yn ystod 2016-17 (hyd at, ac yn cynnwys mis Chwefror 2017), mae cyfanswm o 24 o Sefydliadau Addysgol (22 ysgol gynradd/2 ysgol uwchradd) wedi'u harolygu gan Estyn a'r adroddiad arolygu ar eu cyfer wedi'i gyhoeddi. O blith y rhain:

- Barnwyd bod 19 o ysgolion (79.2%) yn Dda neu'n well ar sail eu perfformiad presennol, 15.2% yn well nag yn 2015-16.
- Barnwyd bod 1 ysgol (Uwchradd) yn Anfoddhaol ar sail ei pherfformiad presennol.
- Barnwyd bod 18 o ysgolion (75%) yn Dda neu'n well o ran eu rhagolygon gwella, 6.2% yn well nag yn 2015-16.
- nid oedd yr un ysgol wedi'i barnu'n Anfoddhaol o ran ei rhagolygon gwella
- Roedd 75% o ysgolion (18) heb gael eu rhoi mewn categori sy'n galw am weithgarwch 'dilynol'.
- Mae un ysgol (Uwchradd) wedi'i rhoi yn y categori 'Gwelliant Sylweddol' ac nid yw'r un ysgol wedi'i rhoi yn y categori 'Mesurau Arbennig'.
- Barnwyd bod Safonau (CwA1) yn Dda neu'n well mewn 19 o ysgolion (79.2%), 15.2% yn well nag yn 2015-16.
- Barnwyd bod Darpariaeth (CwA2) yn Dda neu'n well mewn 20 ysgol (83.3%), 7.5% yn well nag yn 2015-16.
- Barnwyd bod Arweinyddiaeth (CwA3) yn Dda neu'n well mewn 18 o ysgolion (75%), 6.2% yn well nag yn 2015-16
- Nid oedd yr un ysgol wedi'i barnu'n Anfoddhaol o ran Darpariaeth ac Arweinyddiaeth.

Yn yr arolygiadau o ysgolion Cynradd a gyflawnwyd eisoes yn 2016-17 [20 ysgol], mae'r ffigurau ar gyfer yr holl Ddyfarniadau Allweddol wedi codi'n sylweddol.

2016-17	Cynradd				Uwchradd			
	Yn dda neu'n well		Anfoddhaol		Yn dda neu'n well		Anfoddhaol	
	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17*	2015-16	2016-17*
Perfformiad cyfredol	70.9%	81.8%	0%	0%	44.4%	50%	22.2%	50%
Rhagolygon gwella	75.0%	77.2%	4.2%	0%	55.5%	50%	22.2%	0%
Safonau	70.9%	81.8%	0%	0%	44.4%	50%	22.2%	50%
Darpariaeth	77.1%	86.4%	0%	0%	77.8%	50%	0%	0%
Arweinyddiaeth	75.0%	77.2%	4.2%	0%	55.5%	50%	22.2%	0%

*dim ond dwy ysgol uwchradd

Yn 2015-16, barnwyd bod 70% neu ragor o'r ysgolion a arolygwyd (48 o ysgolion) yn dda neu'n well ym mhob un o'r dyfarniadau allweddol.

Categori dilyniant	Monitro gan yr ALI		Monitro gan ESTYN		Gwelliant Sylweddol		Mesurau Arbennig	
	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17	2015-16	2016-17
	19	0	14	5	4	1	3	0

Yn ystod y cyfarfodydd clwstwr eleni, roedd cynrychiolaeth o bron pob ysgol o fewn y rhanbarth.

Categori dilyniant	Monitro gan yr ALI	Monitro gan ESTYN	Gwelliant Sylweddol	Mesurau Arbennig
	14	22	4	3

Mae tair o'r pum ysgol a roddwyd yn y categori 'Gwelliant Sylweddol' neu 'Mesurau Arbennig' yn ysgolion uwchradd, ac ysgolion cynradd yw dwy. Mae dwy Uned Cyfeirio Disgyblion yn y categori 'Gwelliant Sylweddol'.

Yn 2016-17, tynnwyd 26 ysgol (7 uwchradd, 19 cynradd) o gategori 'dilyniant' ESTYN.

Mae proffiliau arolygiadau Estyn ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol (mewn perthynas â'r ysgolion a'r UCD a arolygwyd yn ystod 2015-16) yn rhanbarth GwE fel a ganlyn:

2015-16	Perfformiad cyfredol		Rhagolygon gwella		Safonau		Darpariaeth		Arweinyddiaeth	
	Yn dda neu'n well	anfodddhaol	Yn dda neu'n well	anfodddhaol	Yn dda neu'n well	anfodddhaol	Yn dda neu'n well	anfodddhaol	Yn dda neu'n well	anfodddhaol
Ynys Môn (x8)	63%	0%	50%	25%	63%	0%	63%	13%	50%	25%
Gwynedd (x13)	84%	0%	92%	0%	84%	0%	92%	0%	93%	0%
Conwy (x9)	56%	0%	78%	11%	56%	0%	78%	0%	78%	11%
Sir Ddinbych (x8)	63%	0%	63%	0%	63%	0%	75%	0%	63%	0%
Sir y Fflint (x14)	57%	14%	57%	14%	57%	14%	64%	0%	57%	14%
Wrecsam (x9)	56%	0%	67%	11%	56%	0%	78%	0%	67%	0%
Cymru (x223)	65%	3%	67%	6%	65%	3%	74%	2%	68%	6%

- Yng Ngwynedd, o'r ysgolion a arolygwyd yn 2015-16, mae'r ganran a gafodd ddyfarniad 'Da neu well' ar gyfer yr holl ddyfarniadau allweddol yn arwyddocaol uwch na'r canlyniadau ar gyfer Cymru.
- Yn Sir y Fflint, o'r ysgolion a arolygwyd yn 2015-16, mae'r ganran a gafodd ddyfarniad 'Da neu well' ar gyfer yr holl ddyfarniadau allweddol yn arwyddocaol is na'r canlyniadau ar gyfer Cymru.
- Yn yr ysgolion a arolygwyd yn Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam, mae canran yr ysgolion y barnwyd bod eu Perfformiad Presennol a Safonau yn Anfodddhaol yn arwyddocaol is na'r canlyniadau ar gyfer Cymru.
- Yn yr ysgolion a arolygwyd yn Ynys Môn, Sir y Fflint a Chonwy, mae canran yr ysgolion y barnwyd bod eu Harweinyddiaeth yn Anfodddhaol yn arwyddocaol uwch na'r canlyniadau ar gyfer Cymru.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 GORFFENNAF 2017

Adroddiad gan: Cyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a'r Rheolwr
Cyfarwyddwr

Pwnc: Cofrestr Risg GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Mae yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol yn ogystal a phan mae risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol

3.2 Dilynydd y matrices risg canlynol wrth bennu statws y risg weddilliol.

Matrics Risg					
Tebygolrwydd	Bron yn sicr	Isel (4)	Canolig (8)	Uchel (12)	Uchel (16)
	Tebygol	Isel (3)	Canolig (6)	Canolig (9)	Uchel (12)
	Posib	Isel (2)	Isel (4)	Canolig (6)	Canolig (8)
	Annhebygol	Isel (1)	Isel (2)	Isel (3)	Isel (4)
		Isel	Canolig	Uchel	Hynod uchel
Effaith					

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.

4.2 Gofynnir i'r Cydbwyllgor benderfynu a oes unrhyw risgiau yr hoffent eu dwyn i sylw eu Cabinet ayyb.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau o ran Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Mae'r Bwrdd Ymgynghorol a'r Bwrdd Rheoli wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel bo'n briodol.

9.0 Atodiadau

9.1 Cofrestr Risg GwE

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae trefniadau rheoli risg cadarn yn rhan bwysig o'r gyfundrefn llywodraethu. Byddaf yn cefnogi'r gyfundrefn yma ac yn rhoi arweiniad ar risgiau cyfreithiol neu lywodraethu yn ôl yr angen.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Credaf fod cofrestr risg drafft GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Byddwn yn darparu cefnogaeth i Reolwr Gyfarwyddwr GwE, fel bo angen, ynghylch risgiau cyllidol. Cyflwynir sylwadau pellach ar risgiau penodol ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar 20/07/2017.



RHIF RISG	RHANBARTH OL neu LEOL	CRYNODEB	BLAENORIAE TH GŴE	RISG A NODWYD	TEBYGOLRW YDD RISG	EFFAITH RISG	GWEITHGAREDDAU PRESENOL / LUNIAU	RISG WEDDOLUOL / RISG GYFFREDINOL	PERCHENNOG RISG	CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL
1	Rh	Cyllidol	I GYD	Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.	C	U	Gwneir rhagdybiaethau yngŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau.	C	RhG / RhB&Ch	Fframwaith Gwerth am Arian wedi'i lunio i fwydo i benderfyniadau yn y dyfodol.
2	Rh	Cyllidol	I GYD	Mae ansicrwydd yngŷn â threfniadau cyllid grant gan LIC yn rhwystro cynllunio strategol tymor hir.	C	U	Gwneir rhagdybiaethau yngŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Gweithir yn agos gyda LIC i fwydo i'r sefyllfa gyllidol am y tair blynedd nesaf. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau.	C	RhG / RhB&Ch	Cynllun cyllideb tymor canolig mewn lle
3	Rh	Cyllidol	I GYD	Mae cyllid grant yn cael ei ddosbarthu'n anghydradd rhwng y consortia gan arwain at anawsterau wrth gynharu perfformiad	C	U	Mae trafodaethau yn parhau ar lefel RhG y Consortia a LIC i gyfuno ar fformiwlâ mwy cydradd ar gyfer dosbarthu'r grant.	C	RhG	Gwaith meincnodi wedi cychwyn
4	Rh	Safonau	B1	Anawsterau recriwtio gweithlu addysgu cynnwys o ansawdd uchel o fewn ysgolion yn y rhanbarth, sy'n cael effaith ar safonau ym mhob pwnc megis Saesneg a mathemateg	U	U	Ymgynghorwyr Her pynciol mewn swydd gyda Chynlluniau Busnes Lefel 3 cyfatebol ar gyfer gweithredu'r ymgyrch recriwtio #DarganfodAddysgu. Gwaith ar y gweill i wella'r ddarpariaeth AGA ar draws y rhanbarth - Partneriaeth Addysg Athrawon Gogledd Cymru.	C	RhG / CC	Partneriaeth Addysg Athrawon Gogledd Cymru i sicrhau rhaglen ddysgu broffesiynol effeithiol i ddarparuwr AGA ar draws y rhanbarth.
5	Rh	Safonau	P1	Newidiadau Cwricwlwm a chymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion	C	U	Uwch Arweinydd Dyfodol Llwyddiannus bellach mewn swydd. Arweinydd portfolio hefyd mewn swydd. Gweithgareddi ymgynhyrddu wedi'i chynnal ac ar y gweill. Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid.	C	UA - DU	Gwahoddwyd ysgolion ar draws y rhanbarth i benodi Arweinydd Dyfodol Llwyddiannus fesul cwestwr uwchradd i weithio'n uniongyrchol gyda phob ysgol.
6	Rh	Safonau	B2/B3	Anawsterau recriwtio Penaeithiad ar draws y rhanbarth	U	U	Cyllwyno CPCS, Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth i gynnwys rhaglenni ar gyfer darpar arweinydd a phenaeithiad. Ymgyrch #DarganfodAddysgu yn mynd rhagddi.	C	RhG / CC	Cydweithio gydag Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol ar ddarparu datblygiad proffesiynol ar gyfer Penaeithiad Darpar
7	Rh	Safonau	I GYD	Mae toriadau i gyllidebau ysgolion yn effeithio ar allu ysgolion i barhau i godi safonau.	U	U	Is-grŵp Cyllid yn gweithio gydag ysgolion i leihau effaith.	C/U	Is-grŵp Cyllid	
8	Rh	Busnes	I GYD	Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol	U	U	Adolygu strwythur atebolrwydd a rolau'r rhwydwaith rhanbarthol.	C	Bwrdd Rheoli	Gweithredu'r Fframwaith Gwerth am Arian i fwydo i benderfyniadau yn y dyfodol.
9	Rh	Llywodraethu/ Safonau	B5	Ansicrwydd am gyfeiriad yr effennau o fewn y Model Cenedlaethol yn y dyfodol.	C	C	Aros am adolygiad gan Lywodraeth Cymru.	C	Bwrdd Rheoli	Gweithredu a rheoli unrhyw newid yn llawn.
10	Rh	Llywodraethu	B5	Gall newidiadau i arweinyddiaeth yr awdurdodau effeithio ar y gefnogaeth wleidyddol neu gorfforaethol	C	C	Mae dealltwriaeth glir o gyfrifodebau'r holl awdurdodau a GwE dros gyfeiriad strategol y rhanbarth.	C	CA / RhG	Gofalu bod amcanion GwE yn glir a bod llwybrau cyfathrebu ar agor gydag unrhyw aelodau newydd.
11	Rh	Safonau	B1	Nad yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol/Perfformiad Disgyblion PYD.	C	C	Wrthi'n adolygu'r defnydd o'r GAD drwy'r Ymgynghorydd Lles Rhanbarthol.	C	YLrh	Adnabod a rhannu arferion da er mwyn gwella perfformiad disgyblion PYD.
12	Rh	Busnes	B1/B2	Nid oes gan lywodraethwyr y wybodaeth na'r sgiliau angenrheidiol i weithredu fel ffrindiau beirniadol	C	C / U	Adolygu strwythur atebolrwydd a rolau'r rhwydweithiau rhanbarthol. Cynllun Busnes Lefel 3 ar waith. Arweinydd Portfolio a GwE i Lywodraethwyr bellach mewn swydd. Offeryn Hunan Arfarnu i Lywodraethwyr bellach ar y we, ac yn cael ei gyflwyno.	C	Bwrdd Rheoli	Ymgynghorydd Her i gymeryd y cyfrifodeb o gydlynw rhaglen llywodraethwyr mewn partneriaeth gyda ALI a Lywodraethwyr Cymru
13	Rh	Safonau	B1 / B4	Diffyg cefnogaeth arbennigol i UCD ar draws y rhanbarth, ac felly nid oes gan GwE drosolwg o safonau yn y sector pwysig hwn.	C	U	Cyfunodd y Bwrdd Rheoli i ddatblygu cynhwysedd GwE i gefnogi UCD.	C	RhG	Adolygu UCD ar draws y rhanbarth i gael bod yn eglur am y disgwyliadau ar draws y rhanbarth.
14	Rh	I GYD	I GYD	Nid yw'r cyfeiriad strategol yn adlewyrchu barnau Plant a Phobl Ifanc yn y rhanbarth	C	U		U	RhG	Mae angen datblygu strategaeth i gasglu barnau Plant a Phobl Ifanc ar gamau gweithredu GwE.
15	Rh	Safonau	B1	Amrywiad yn mhefformiad yr awdurdodau unigol yn CA4.	U	C / U	Ailstrwythuredd rolau allweddol yn GwE a phenodwyd Uwch Arweinydd Uwchradd i arwain tim uwchradd rhanbarthol a gweithredu model cefnogaeth a her newydd. Adolygwyd strwythurau atebolrwydd a'u cryfhau ar lefel rhanbarthol a lleol.	C / U	Bwrdd Rheoli	Gweithredu ac arfarnu'r model uwchradd. Sicrhau atebolrwydd cadarn ar lefel rhanbarthol a lleol.
16	Rh	Safonau	B1	Cyfradd gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn arafach na hwnnw ar lefel genedlaethol.	U	C	Cynnig pecyn cefnogaeth i bob awdurdod, yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a darpariaeth dda, a disgwyliadau a safonau uchel yn y CS. Adnabod ysgolion sy'n perfformio'n arswydol a'u rheiny mewn perygl. Targedu cynhaliach i'r ysgolion hyn a chlystrau o ysgolion.	U	UA-C	Cydweithio gyda'r chwe awdurdod a pharhau i ddatblygu cynhwysedd tim y CS yn rhanbarthol. Parhau i fonitro perfformiad ysgolion unigol, a'u targedu yn ôl yr angen.
17	Rh	Safonau	B1	Mae perfformiad disgyblion MAT mewn awdurdodau unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol.	C / U	C	Aros i ddadansoddi ac arfarnu perfformiad 2017. Caiff Cynlluniau Busnes eu diweddaru yn unol â hyn.	C	RhG/CC/Uwch Arweinydd	Penodwyd Arweinydd Ansawdd a Data yn ddiweddar o fis Medi 2017 i sicrhau bod data yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol i wella perfformiad pob dysgw.
18	Rh	Safonau	B1	Arolygiadau ALI - amrywiad ym mhefformiad yr awdurdodau unigol.	U	U	Yn aros am Arweiniad a Fframwaith Arolygu newydd Estyn. Cynhwysedd isel o fewn yr ALI i gefnogi GwE	C / U	Bwrdd Rheoli	Angen eglurhad ar rôl GwE yn y cyd-destun hwn.
19	Rh	Safonau	B1	Rhoi ysgolion mewn categori Statudol Estyn.	U	U	Mae dros 10% o'r holl ysgolion uwchradd mewn Categori Statudol Estyn. Mae aesiad risg ar gyfer pob un o ysgolion y rhanbarth ar sail profffil perfformiad yn awgymu bod 10-20% arall o ysgolion uwchradd mewn perygl mewn unrhyw arolygiad a ddaw. Sefydlwyd model uwchradd newydd i gefnogi, herio a sicrhau atebolrwydd ar bob lefel.	U	RhG/CC/Uwch Arweinydd	Gweithredu ac arfarnu'r model uwchradd newydd. Gofalu bod gwelliant ysgol yn digwydd drwy bartneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol, yr ALI a GwE.
20	Rh	Safonau	I GYD	Dysgu ôl-16 - Gall mesurau perfformiad newydd a'r angen i gonortio addysg rhanbarthol roi mwy o bwyslais ar berfformiad y chweched dosbarth (yn eu rôl 'herio a chefnogi') i ysgolion, a defnyddio dull 'traws awdurdod' i yrru gwelliannau a sicrhau cysondeb yn genedlaethol amharu ar bwyslais consortia rhanbarthol ar safonau mewn addysg cyn-16.	C	U	Trafodaethau cychwynnol yn mynd rhagdynt ar lefel consortia/LIC.	C	Bwrdd Rheoli/RhG	Angen eglurhad ar rôl y consortia yn y cyd-destun hwn. Angen cynnwys yr ALI mewn trafodaethau.
21	Rh	Safonau	B6	Ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben o fewn Dyfodol Llwyddiannus a datblygu Meysydd Dysgu a Phroffiad fel rhan o ddwygadu'r cwricwlwm yn gyfyngedig ac yn creu ansicrwydd yn yr ysgolion	C	C / U	Tim wedi gweithio ar gyfres o adnoddau i gefnogi ysgolion wrth edrych ar y 4 diben. Cynhaliwyd gweithdai Gwanwyn a Haf 2017 i rannu'r adnoddau hyn gyda phob ysgol.	C	UA - DU	Gweithio rhagor gydag Arweinydd Cwestwr Dyfodol Llwyddiannus. Cynnwys adnodd ymwybyddiaeth Dyfodol Llwyddiannus fel rhan o bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth.
22	Rh	Safonau	B2	Strategaeth yr Iaith Gymraeg - cynhwysedd ac adnoddau i weithredu'r strategaeth yn annigonol	U	U	Angen adnabod a mynd i'r afael a chynhwysedd ac adnoddau i weithredu'r strategaeth	C	RhG	Is-grŵp Addysg Gymraeg i adnabod a chynllunio i fynd i'r afael a unrhyw ddffigion
23	Rh	Safonau	B2	Recriwtio Arweinyddiaeth o ansawdd ar bob lefel	C / U	C / U	GwE yn darparu rhaglenni addysgu proffesiynol ar gyfer pob carreg filltir a nodir ar y llwybr datblygu gyrfar ar gyfer ymarferwyr ar draws y sectorau ar hyd y rhanbarth	C	CC	Datblygiadau pellach yngŷn a'r rhaglen dysgu proffesiynol ar draws y rhanbarth. Cydweithio gyda LLC, consortia eraill a'r Academi Arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu arewinwyr y dyfodol
24	Rh	Busnes	B6	Camddealltwriaeth o rôl GwE ar adegau yn creu tensiwn gyda'r Undebau Athrawon	U	C / U	Cyfluo yn glir rôl a chyfrifodebau GwE wrth wella ysgolion gyda'r Undebau Athrawon	C	RhG	Parhau i ymgysylltu â'r undebau athrawon yn rheolaidd
25	Rh	Busnes	B6	Amrywiaeth yn y gefnogaeth AD a ddarperir i ysgolion ar draws y rhanbarth	C / U	C / U	Is-grŵp AD a chynllun busnes cyfatebol mewn lle er mwyn cydlynu gweithgareddi ar lefel rhanbarthol. Angen sicrhau cefnogaeth AD cyson ac o safon uchel i ysgolion	C / U	Bwrdd Rheoli	Egluro ac adnabod newidiadau sydd eu hangen i'r strwythur a'r gweithdrefnau presennol. Adnabod arfer gorau rhanbarthol i'w fabwysiadu yn rhanbarthol
26	Rh	I GYD	B4/B5/B6	Bod y diwygiadau sylweddol mewn Addysg sy'n cynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygiad cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, ddim yn cael eu cynnwys a'u gweithredu yn llwyddiannus ac yn creu ansicrwydd yn yr ysgolion	C	U	Uwch sgilio tim o 11 o bobl o'r consortia/ysgolion Arloesi drwy ddarparu achrediad Rheoli Newid Sylfaenol. Gweithio gydag ymgynghorydd allanol ar reoli Newid ymhellach. Datblygu Fframwaith Darparu ar gyfer Rheoli Newid pendant gyda chrofta adnoddau i ysgolion fynd i'r afael â'r newidiadau a'u rholi ar waith. Ailstrwythuro yn fewnol i gynosi arweinyddiaeth ddosranedig i Dyfodol Llwyddiannus.	C / U	UA - DU	Datblygu hyfforddiant deuddydd unigryw gyda achrediad i'w gyflwyno i bob Ymgynghorydd Her ac Arweinydd Cwestwr Dyfodol Llwyddiannus. Gweithio rhagor gyda LIC i edrych ar rôl rheoli newid yn genedlaethol. Parhau i ddatblygu'r cynllun rheoli newid i gefnogi ysgolion wrth asesu eu parodrwydd am y cwricwlwm newydd wrth i'r diwygiadau fynd rhagddynt.
27	Rh	I GYD	B5	Bod Awdurdod Lleol yn dymuno tymu'n ôl o'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (yn ei gyfarwydd neu o effennau neilltuo).	C	U	Cynllunio busnes GwE a phrosesau atebolrwydd yn cynnwys mewnbwn lleol sylweddol. Cynlluniau lefel 2 a 3 yn cynnwys darparu yn lleol yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol Penodwyd Arweinydd Craidd i'r cynnadau a'r uwchradd yn mhob ALI. Cytundeb Rhyng-Awdurdod i'w adolygu yn ddibynnol ar adolygiad y Model Cenedlaethol.	C / U	RhG	Fframwaith Gwerth am Arian wedi'i lunio i fwydo i benderfyniadau yn y dyfodol.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 GORFFENNAF 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Argymhellion Estyn – Adroddiad Cynnydd

1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd wrth gyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortïwm Gogledd Cymru (Estyn, Ebrill 2016).

2.0 Materion i'w hystyried

2.1 Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn ystod y pythefnos yn dechrau ar 18 Ebrill 2016.

2.2 Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar eu canfyddiadau, oedd yn cynnwys y 6 argymhelliad

canlynol:

- **A1:** Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.
- **A2:** Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
- **A3:** Gwella trylwyrdd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.
- **A4:** Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.
- **A5:** Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.
- **A6:** Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu priso'n llawn.

2.3 Mae cynllun gweithredu ôl-arolygiad wedi'i ffurfio ac wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Busnes Rhanbarthol GwE.

2.4 Mae'r Adroddiad Cynnydd yn cynnwys naratif sy'n manylu ar y cynnydd hyd yma yn erbyn yr argymhellion.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.0 Goblygiadau ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith o ran cydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori a wnaed

7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

8.0 Atodiadau

8.1 Argymhellion Estyn: Adroddiad Cynnydd (Gorffennaf 2017)

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Mae elfenau o'r ymateb i Estyn a'g oblygiadau o safbwynt trefniadau llywodraethu a bydd angen mewn osod yr ymatebion ble'n berthnasol wrth ffurfioli'r fframwaith yn derfynol

Swyddog Cyllid Statudol:

Yn gyffredinol, rwy'n cefnogi'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad sydd wedi'i ymgorffori yng 'Nghynllun Busnes Rhanbarthol GwE'. Lle bo angen, byddaf yn cynorthwyo Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i weithredu, gan gynnwys argymhelliad 'A6' Estyn, sy'n cynnwys materion gwerth am arian a chynllun cyllidol tymor canolig.

Argymhellion Estyn: Adroddiad Cynnydd

Gorffennaf 2017



R1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perthynas GwE ag ysgolion wedi gwella wrth i'r sefydliad daro gwell cydbwysedd rhwng yr angen i gefnogi ysgolion a'u herio. Mae *Rhaglen Her a Chefnogaeth GwE* wedi rhoi ystyriaeth lawn i ganllawiau Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn y ddogfen arweiniad '*Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol*' [Tachwedd 2015]. Fodd bynnag, rhwng 2013 a 2016, bu patrwm y gwelliant ar draws y rhanbarth yn anghyson, ac erys pryderon am berfformiad a phroffiliau arolygu canran sylweddol o ysgolion yn y sector uwchradd. Yn 2015-16, adolygwyd y rhaglen gefnogaeth i'r ddau sector ac, er bod hyn wedi arwain at welliannau yng nghadernid ac ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a'r profiadau dysgu yn y sector cynradd, ychydig o effaith a welwyd ar safonau a deilliannau mewn nifer sylweddol o ysgolion uwchradd. Yn gyffredinol, bu cyflymder y cynnydd yn y prif ddangosyddion yn CA4 yn rhy araf o gymharu â gweddill Cymru, a gwella perfformiad ysgolion uwchradd yw prif flaenoriaeth y consortiwm.

Roedd y ffaith bod gormod o ysgolion uwchradd yn tanberfformio yn dangos yn glir bod angen adolygu'r rhaglen her a chefnogaeth, a dod o hyd i ffordd arall o gefnogi, herio a sicrhau atebolrwydd ar bob lefel. O'r herwydd, sefydlwyd model her a chefnogaeth newydd i'r uwchradd. Gyda'r model newydd, sicrhau bod arbenigedd a phrofiadau Uwch Arweinwyr, Ymgynghorwyr Her GwE ac Uwch Arweinwyr Ysgolion yn cael eu defnyddio'n well er mwyn darparu cymorth a chefnogaeth safonol mewn dull cyson ar draws y rhanbarth. Cafwyd gwared â'r model 3 hwb a sefydlwyd tîm uwchradd rhanbarthol i sicrhau mwy o gysondeb. Mae ansawdd yr ymgynghorwyr her hefyd wedi gwella, gyda phob aelod â phrofiad o arwain ar lefel uwch a llwyddo wrth geisio gwella ysgolion.

Ailstrwythurwyd rolau allweddol o fewn GwE, a phenodwyd Uwch Arweinydd Uwchradd i arwain y tîm uwchradd rhanbarthol newydd. Penodwyd chwe Arweinydd Craidd Uwchradd hefyd, gyda phob un yn gysylltiedig ag un o'r chwe Awdurdod Lleol. Byddant yn gyfrifol am reoli llinell a sicrhau ansawdd gwaith yr Ymgynghorwyr Her. Bydd y tîm uwchradd yn atebol i Fwrdd Rheoli GwE drwy'r *Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol*. Bydd hefyd yn atebol, ar lefel leol, i'r *Bwrdd Ansawdd Safonau* [BAS] yn yr awdurdodau perthnasol. Cyfrifoldeb y BAS fydd adrodd ar y gweithredu a'r cynnydd a wnaed yn lleol i Dîm Rheoli yr Adran Addysg, ac ymateb i unrhyw ymholiadau yn sgil gwaith craffu gan yr aelodau etholedig. Rhennir canlyniadau unrhyw graffu lleol yn y chwe awdurdod gyda Chyd-bwyllgor GwE, a fydd yn ystyried y gweithredu a'r cynnydd ar lefel ranbarthol. Mae hyn wedi crisialu a chryfhau'r llinellau atebolrwydd, yn fawr, ar bob lefel.

Adnabuwyd Arweinwyr Portffolio hefyd i sicrhau bod arweiniad a gwybodaeth, sy'n gyson a safonol, yn cael ei darparu i bob ysgol yn y rhanbarth. Drwy symud tuag at fodel arweinyddiaeth ddosranedig, bu modd cael model cefnogi mwy ymestynnol gydag aelodau'r tîm yn cael mwy o berchnogaeth ar benderfyniadau allweddol. Mae aelodau'r tîm yn gyfrifol am arfarnu datblygiadau a chynnydd yn erbyn eu meysydd cyfrifoldeb, eto gan arwain at well perchnogaeth ar ddeilliannau.

Mae Ymgynghorwyr Her Pynciau Craidd hefyd yn ffurfio rhan o'r tîm ac yn herio a chefnogi adrannau sy'n tanberfformio, ac hefyd yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu llythrennedd a rhifedd. Maent wedi hwyluso rhwydweithiau pynciau craidd ar gyfer rhannu arferion effeithiol ar draws y rhanbarth. Mae eu gwaith wedi cael dylanwad ar berfformiad ysgolion ac adrannau targed, fel yr enghreifftir yn yr astudiaethau achos. Mae strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gwella safonau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg ar draws y rhanbarth wedi'i datblygu yn y Cynlluniau Busnes. Mae ymarferwyr arweiniol yn hwyluso ystod o rwydweithiau proffesiynol i rannu arferion da mewn pynciau di-graidd. Serch hynny, mae angen datblygu'r gefnogaeth i bynciau di-graidd ymhellach ac adnabod yr arferion gorau a'u rhannu'n fwy effeithiol ar draws y rhanbarth.

Gwnaed asesiad risg ar gyfer pob ysgol uwchradd i adnabod anghenion rhanbarthol a lleol i'w cefnogi a'u datblygu. Mae pob ysgol uwchradd wedi cael *Rhaglen Gefnogaeth* sy'n amlygu natur y gefnogaeth a'r cymorth sydd angen arnynt. Wrth gynnal rhaglen strwythuredig o ymweliadau adolygu a chefnogi, mae GwE wedi adnabod meysydd i'w gwella a'u datblygu mewn ysgolion targed, a hynny'n fwy effeithiol a phendant. Rhoddodd GwE flaenoriaeth i ysgolion uwchradd Wrecsam yn ystod tymor yr Haf. Bydd disgwyliad ychwanegol ar bob ysgol yn y *categori cefnogaeth Melyngoch/Coch i sefydlu i sefydlu Bwrdd Safonau* i fonitro cynnydd tuag at y deilliannau disgwylidig. Bydd yr aelodau yn cynnwys y Pennaeth, yr YH cyswllt, y Swyddog Addysg a chynrychiolaeth o'r Bwrdd Llywodraethu. Cyflwynir adroddiadau cynnydd i sylw'r *Bwrdd Safonau Rhanbarthol*.

Mae GwE hefyd wedi adnabod ysgolion partner yn rhan o'r rhaglen her a chefnogaeth, gan ddefnyddio cyfoedion i helpu ysgolion eraill ar eu teithiau gwella. Mae'r pennaeth hefyd yn Ymgynghorydd Her i'r ysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi arwain, yn gyflym, at newidiadau sylweddol yn strwythurau, systemau a phrosesau'r ysgolion hyn sydd bellach angen eu corffori fel eu bod nhw'n cael effaith ar safonau.

Mae'r datblygiadau y sonnir amdanynt uchod yn darparu strwythur mwy effeithiol i fod yn herio a chefnogi ysgolion i wella'u perfformiad. Mae'n rhoi modd hefyd i'r gwasanaeth gwella ysgolion ddefnyddio gweithdrefnau data, gosod targedau a thracio yn fwy effeithiol.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dangosfwrdd ysgol, i fod yn weithredol ym mhob ysgol o fis Medi 2017, a fydd yn darparu data cyfredol a pharhaus. Bydd hyn yn hwyluso cyfathrebu, cefnogi a herio ar lefel uwch rhwng y rhanddeiliaid allweddol, ac yn gadael i GwE fonitro, yn fwy effeithiol, effaith y gwaith a chynnydd ysgolion yn erbyn blaenoriaethau cyffredin. Ar ben hynny, mae GwE wrthi'n datblygu ysgol rithiol a fydd yn enghreifftio'r arferion gorau ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. Bydd y system rheoli gwybodaeth yn cryfhau'n fawr y defnydd o ddata a gwybodaeth, gan roi GwE mewn sefyllfa i ddefnyddio data 'byw' a'r adroddiadau cynnydd diweddaraf, yn fwy effeithiol, er mwyn targedu a defnyddio'i adnoddau yn well. Bydd modd:

- rhannu arferion da/rhagorol, y mae eu hansawdd wedi'u sicrhau
- i ysgolion gael arlwy o gyfleoedd unigryw a pherthnasol i ddatblygu'n broffesiynol
- cael data 'byw' i Benaethiaid allu rhoi ymyrraeth amserol a mwy effeithiol ar waith
- cael gwybodaeth mewn 'amser byw' am ysgolion a'u cynnydd
- defnyddio offeryn hunan arfarnu ar gyfer mapio a chefnogi parodrwydd yr ysgol am 'Dyfodol Llwyddiannus' (sy'n adnabod anghenion presennol a chefnogi cynllunio i'r dyfodol)
- cael cerrig milltir pendant i'r ysgol ddarparu *Meysydd Dysgu a Phrofiad* o fewn y cwricwlwm newydd.
- cael gafael ar ddogfennau a gwybodaeth allweddol, a hynny'n rhwydd
- i randdeiliaid allweddol, fel llywodraethwyr, gael gafael ar bob math o ddata a gwybodaeth berthnasol
- i ysgolion arfarnu i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r gofynion statudol
- sicrhau mwy o gysondeb yng ngwaith yr Ymgynghorwyr Her, a chael prosesau sicrhau ansawdd mwy effeithiol ar waith
- cael cyfle i ddatblygu system agored i hwyluso cydweithio a gweithio rhwng ysgolion
- cael siop-un-stop i ysgolion, ALI a GwE

Yn sgil ailstrwythuro GwE yn ddiweddar, penodwyd Arweinydd Uned Ansawdd a Data rhanbarthol. Mae hon yn swydd uwch sy'n gyfrifol am ddefnyddio data yn fwy effeithiol i wella perfformiad pob dysgwr ac ysgol ar draws y rhanbarth. Gyda phroses cipio data mwy cynhwysfawr drwy'r Uned Ddata, gall yr Ymgynghorwyr Her a Swyddogion yr ALI gael gafael ar ddata ar lefel ysgol, ALI a rhanbarth. Cynyddwyd capasiti yr Uned Ddata drwy benodi Rheolwr Data Cynorthwyol, sy'n golygu bod modd rheoli a dadansoddi data yn fwy effeithiol. Mae proses gadarnach ar gyfer gosod targedau a thracio ar lefel ranbarthol, er mwyn monitro data cynnydd gan bob ysgol drwy gydol y flwyddyn academaidd [gan

gynnwys tracio grwpiau o ddysgwyr]. Cryfheir hyn yn fwy o fis Medi 2017. Er hynny, erys y berthynas wan mewn llawer o ysgolion uwchradd rhwng targedau, rhagamcanion a pherfformiad terfynol, sy'n awgrymu bod problemau o ran gwella prosesau gosod targedau, asesu, tracio a rhaglenni ymyrraeth. Mae'r maes hwn yn dal i gael sylw o fewn y Cynlluniau Busnes presennol.

Ceir dadansoddiad trylwyr hefyd o berfformiad grwpiau o ddysgwyr. Yn gyffredinol, bu cyflymder y cynnydd ym mherfformiad dysgwyr PYD yn y prif ddangosyddion yn CA4, yn rhy araf o gymharu â gweddill Cymru. Mae gwella perfformiad dysgwyr PYD yn dal yn flaenoriaeth allweddol i'r rhanbarth. Rhoddir sylw i broblemau drwy gyfrwng y Cynlluniau Busnes Lefel 3 a Chynlluniau Busnes yr ALI unigol, sy'n canolbwyntio ar gau'r bwlch rhwng perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr a gwella cyflawniad disgyblion MAT. Yn ystod ymweliadau her a chefnogaeth GwE, bydd yr Ymgynghorwyr Her yn monitro sut y defnyddir y Grant Gwella Addysg (GGA) a'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) ym mhob ysgol. Rhoddir sylw i dracio deilliannau dysgwyr PYD i sicrhau bod y ffrydiau arian yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ac amserol i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu, sydd wedi'u gwahaniaethu, i fodloni anghenion y disgyblion. Er hynny, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod pob ysgol yn gosod targedau heriol i wahanol grwpiau o ddysgwyr. Rhaid hefyd herio ysgolion yn fwy cadarn ar eu defnydd o'r GAD i wella deilliannau dysgwyr PYD. Mae GwE wrthi hefyd yn adolygu'r defnydd o gyllid rhanbarthol ar gyfer cefnogi Plant Mewn Gofal.

Yn sgil ailstrwythuro GwE yn ddiweddar, penodwyd Arweinydd Llesiant a datblygir strategaeth ar gyfer gwella safonau lles. Mae hyn yn golygu defnyddio data i dracio cynnydd mewn agweddau eraill sy'n gysylltiedig â lles, tu hwnt i berfformiad a chyflawniad academiaidd.

Cydnabu ysgolion, awdurdodau lleol a GwE y bu elfen o ddryswch, yn y gorffennol, wrth benderfynu ar 'ffit orau' yn asesiadau athrawon. Cafodd ysgolion negeseuon cymysg wrth ddyfarnu lefel i ddysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol, gan arwain at ddiffyg eglurder. Rhoddwyd cynlluniau gwaith ar waith i wella cysondeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon, a rhannwyd dogfen ganllawiau gydag ysgolion i grisialu'r disgrifiadau a'r barnau 'ffit orau'. Eleni, cafodd ddylanwad cadarnhaol ar berfformiad disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Er hynny, mae angen gwneud rhagor o waith yn y Cyfnod Sylfaen i wella ansawdd y ddarpariaeth a chywirdeb asesiadau athrawon. Mae'r maes hwn yn cael sylw o fewn Cynlluniau Busnes GwE.

Bu gwelliant mawr felly yn y modd mae UDA a Bwrdd Rheoli GwE yn cael gafael ar ddata, a'i ddefnyddio. Mae hyn yn sicrhau bod meysydd pryder rhanbarthol/ALI yn cael eu hadnabod, ac yn cael sylw, ynghynt ac yn fwy effeithiol. Adnabuwyd pob ysgol uwchradd sy'n tanberfformio yn y dangosyddion allweddol, ac mae cynlluniau cefnogaeth ar waith i wella'u perfformiad. Drwy roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio data 'byw' a'r adroddiadau cynnydd diweddaraf, bydd modd i'r sefydliad ddyrannu adnoddau yn fwy effeithiol ar draws y rhanbarth i sicrhau bod gwelliant yn digwydd yn gyflymach. Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) i sefydlu systemau arfarnu mwy effeithiol o fewn ein sefydliad. Bydd data a dadansoddiad arfarnol yn rhoi'r sefydliad mewn gwell sefyllfa i farnu gwerth am arian a chynllunio i'r dyfodol. Mae'r Rhaglen Her a Chefnogaeth Uwchradd, a rhai o'r rhaglenni dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth, wrthi'n cael eu harfarnu.

Cynnydd:

R2: Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.

Mae hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn nodweddion cryf o fewn GwE ac mae'n ffurfio rhan sylfaenol o ymroddiad GwE i gynnal gwelliant. Mae'n broses gylchol a pharhaus sy'n gadael i GwE weld meysydd ble mae perfformiad yn dda, ac agweddau sydd angen eu datblygu, er mwyn gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr. Mae'n barhaus, ac yn gyrru'r gwaith cynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'n cyfrannu at allu rheoli unigolion a thimau yn effeithiol, er mwyn iddyn nhw, a'r sefydliad, allu perfformio ar lefel uchel. .

Ailstrwythurwyd rolau allweddol o fewn GwE. Mae hyn wedi crisialu a chryfhau'r llinellau atebolrwydd, yn fawr, ar bob lefel. *Adnabuwyd Arweinwyr Portffolio* hefyd i arwain ar feysydd allweddol sydd â blaenoriaeth. Drwy symud tuag at fodel arweinyddiaeth ddosranedig, bu modd cael model cefnogi mwy ymestynnol gydag aelodau'r tîm yn perchnogi penderfyniadau allweddol yn well. Mae aelodau'r tîm yn gyfrifol am arfarnu datblygiadau a chynnydd yn erbyn eu meysydd cyfrifoldeb, eto gan arwain at well perchnogaeth ac atebolrwydd am gyflawni yn erbyn y deilliannau.

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn gryfder pwysig yn GwE. Mae cynlluniau manwl ar amryw o lefelau yn delio gyda phob agwedd ar waith GwE. Mae'r swyddogion dynodedig sydd yn gyfrifol am bob cynllun, yn amlwg yn cyfrannu at y cynllun busnes. Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl sydd wedi'u seilio ar y fframwaith hwn. Bydd Ymgynghorwyr Her yn adolygu eu cynlluniau pob chwarter, ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Yr adolygiadau hyn sy'n llywio gwaith arfarnu'r cynllun busnes, sy'n bwydo i arfarniad chwarterol y gwasanaeth, fel bod hoel clir o arfarnu tîm yn yr adolygiad corfforaethol. Yna, caiff blaenoriaethau newydd o'r adolygiad gwasanaeth eu cynnwys yng nghynlluniau tîm yn gyflym.

Mae hyn yn seiliedig ar fyfyrrio, herio a chefnogi ymysg ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol. Drwy'r broses hon, rydym wedi gosod amcanion heriol i'n hunain erbyn 2020, i sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein blaenoriaethau. gwella safonau, cwricwlwm ac asesu, arweinyddiaeth, lles, addysgu, cefnogaeth fusnes, a gwneud cynnydd cadarn yn erbyn argymhellion Estyn. Nodir yr amcanion yn glir yn y Cynllun Busnes Lefel 1, e.e. ar gyfer Safonau.

- Bydd canran y dysgwyr sy'n cyflawni L2+ yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio yn unol â'r deiliant ar gyfer L2+, neu'n uwch, yn codi.
- Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD, ar gyfer L2+, yn codi i 55%.
- Bydd y bwlch rhwng yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio uchaf ac isaf mewn L2+, yn lleihau i ddim mwy na 7%.
- Bydd canran y dysgwyr sy'n ennill 5A*-A mewn TGAU, neu gyfystyr, yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- Bydd canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r DCS yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- Bydd canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r deilliannau uwch ar ddiwedd y CS yn tyfu ar 1.5, y gyfradd ar gyfer gweddill Cymru.
- Bydd safonau llythrennedd yn gwella fel bod o leiaf 20% o'r holl ddisgyblion yn cyflawni sgorau safonedig >115 mewn profion cenedlaethol, ym mhob cyfnod allweddol.
- Bydd safonau rhifedd yn gwella fel bod o leiaf 20% o'r holl ddisgyblion yn cyflawni sgorau safonedig >115 mewn profion cenedlaethol, ym mhob cyfnod allweddol.
- Bydd y bwlch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn parhau i gau, o 5% o leiaf, mewn L2+ a'r DCS.

Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) i sefydlu systemau arfarnu mwy effeithiol o fewn ein sefydliad. Bydd data a dadansoddiad arfarnol yn rhoi'r sefydliad mewn gwell sefyllfa i farnu gwerth am arian a chynllunio i'r dyfodol. Mae'r Rhaglen Her a Chefnogaeth Uwchradd a rhai o'r rhaglenni dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth wrthi'n cael eu harfarnu.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dangosfwrdd ysgol, i fod yn weithredol ym mhob ysgol o fis Medi 2017, a fydd yn darparu data cyfredol a pharhaus. Bydd hyn yn hwyluso cyfathrebu, cefnogi a herio ar lefel uwch rhwng y rhanddeiliaid allweddol, ac yn gadael i GwE fonitro, yn fwy effeithiol, effaith y gwaith a chynnydd ysgolion yn erbyn blaenoriaethau cyffredin. Drwy gyfrwng y dangosfwrdd, bydd modd defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu ansawdd y gwaith a'i effaith ar berfformiad pob dysgwr ac

ysgol ar draws y rhanbarth. Bydd yn rhoi modd hefyd i'r gwasanaeth gwella ysgolion dargedu ei adnoddau yn fwy effeithiol i gyflawni ei flaenoriaethau, ac addasu ac ail gyfeirio adnoddau yn gyflym pan nad yw pethau yn llwyddo.

Cynnydd:

R3: Gwella trylwyrdd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.

Mae'r gweithdrefnau rheoli risg presennol wedi'u hadolygu.

Drwy adolygu'r trefniadau rheoli risg, mae hyn wedi arwain at broses newydd a chyfoethocach. Cafodd Cofrestr Risg GwE ei hailddatblygu mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac yn ystod ei datblygiad fe'i trafodwyd gan y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Ymgynghorol.

Dilynwyd y matrices risg canlynol wrth bennu statws y risg weddilliol:

Matrics Risg					
Tebygolrwydd	Bron yn sicr	Isel (4)	Canolig (8)	Uchel (12)	Uchel (16)
	Tebygol	Isel (3)	Canolig (6)	Canolig (9)	Uchel (12)
	Posib	Isel (2)	Isel (4)	Canolig (6)	Canolig (8)
	Annhebygol	Isel (1)	Isel (2)	Isel (3)	Isel (4)
		Isel	Canolig	Uchel	Hynod uchel
Effaith					

Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol byddwn yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Rhoddir ddiweddariadau chwarterol, sy'n dod â risgiau y chwe ALI a GwE at ei gilydd, i ofalu bod y prosesau yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, yn hytrach nag osgoi neu fethu problemau.

Mae'r Gofrestr Risg yn eitem sefydlog gan yr UDA, y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor, a chaiff ei harfarnu, fel rhan o'r drefn, gan y Cyd-Bwyllgor neu grwpiau eraill.

Cynnydd: Boddhaol

R4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.

Strwythur cynllunio a rheoli perfformiad GwE sy'n llywio cyfeiriad gwasanaethau'r Consortiwm. Mae'r cynllun strategaeth lefel uchel yn perthyn i gynlluniau manylach gan y tîm, gyda thargedau gwella mesuradwy a meini prawf llwyddiant eglur, er mwyn mesur cynnydd yn y rhanbarth yn fanwl gywir. Mae holl gynlluniau tîm GwE yn dilyn y patrwm hwn, a rheolir eu perfformiad yn fanwl. Mae llinellau atebolrwydd clir ar bob lefel o gynllunio ar draws GwE.

Mae GwE wedi gosod amcanion heriol a mesuradwy erbyn 2020. gwella safonau, cwricwlwm, ac asesu,

arweinyddiaeth, lles ac addysgu, sy'n ffurfio rhan o'r cynlluniau busnes ar bob lefel. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny. Mae prosesau monitro cadarn hefyd, gyda llinellau atebolrwydd clir a chraffu priodol, ar lefel leol a rhanbarthol.

Mae'r fframwaith atebolrwydd (Atodiad 1) clir a chadarn yn gryfder pwysig yn GwE. Mae cynlluniau manwl ar amryw o lefelau yn delio gyda phob agwedd ar waith GwE. Mae'r swyddogion dynodedig sydd yn gyfrifol am bob cynllun, yn amlwg yn cyfrannu at y cynllun busnes. Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl sydd wedi'u seilio ar y fframwaith hwn. Bydd Ymgynghorwyr Her yn adolygu eu cynlluniau pob chwarter, ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Yr adolygiadau hyn sy'n llywio gwaith arfarnu'r cynllun busnes, sy'n bwydo i arfarniad chwarterol y gwasanaeth fel bod hoel clir o arfarnu tîm yn yr adolygiad corfforaethol. Yna, caiff blaenoriaethau newydd o'r adolygiad gwasanaeth eu cynnwys mewn cynlluniau tîm yn gyflym.

Mae gan yr Ymgynghorwyr Her ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd am welliant yn eu meysydd. Drwy rannu cynlluniau ac arfarniadau yn agored, mae hyn yn glynu timau at ei gilydd ac yn gyrru'r cydweithio cryf sydd wedi arwain at ddarparu gwasanaethau gwell, a gwella safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. Bydd y pwyslais hwn ar arfarnu ac adolygu yn arwain at welliant sylweddol.

Arferion llwyddiannus o fewn GwE sydd wedi arwain at y meddylfryd hwn. Rhaid i Ymgynghorwyr Her gyfiawnhau tanberfformiad ac adnabod risgiau posibl, gan gynnwys gorwario. Mae llinellau atebolrwydd clir.

Cynnydd:

R5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.

Adolygwyd y rhwydweithiau rhanbarthol presennol - pwrpas, cwmpas ac aelodaeth.

Yn dilyn adolygu'r strwythur presennol, argymhellir y canlynol:

- Dileu'r cysyniad o 'Cyfarwyddwyr sy'n noddi'.
- Newid i 'Is-grwpiau' yn hytrach na 'Rhwydweithiau', fel a ganlyn:
Safonau:
 - Y Gymraeg
 - Cyfnod Sylfaen
 - Fframwaith Digidol
 - Lles
 - LlywodraethwyrBusnes:
 - Cyllid / Grantiau
 - Adnoddau Dynol
 - TGCh – Systemau Data
- Yr Is-grwpiau i lunio Cynllun Busnes.
- Yr Is-grwpiau i lunio adroddiad monitro/cynnydd Cynllun Busnes a'i ddadansoddi ar sail cyflawniad a risg pellach.
- Yn unol â'r drefn gytunedig, cyfeirio materion sydd yn eu hamlygu eu hunain fel rhai sydd angen

sylw at y Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol ar gyfer ystyriaeth bellach.

- Cyfrannu at gynllunio ac argymell camau gweithredu i'r Bwrdd Ansawdd Busnes ynglŷn â grantiau ac adnoddau rhanbarthol.

Mae'r fframwaith atebolrwydd hwn ar gyfer yr holl is-grwpiau yn cyd-fynd â'r broses cynllunio busnes newydd a'r model atebolrwydd.

Mae hefyd yn sicrhau bod yr is-grwpiau yn gwbl gyson â blaenoriaethau'r rhanbarth, a bod strwythurau rhanbarthol ar waith i gyflawni holl ofynion y Model Cenedlaethol.

Cynnydd:

R6: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.

Yn gyffredinol, mae prosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith gan y consortiwm. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r cyd bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Rydym wrthi'n gwella ein dadansoddi ariannol i'n cefnogi wrth gyflawni ein cynllun busnes diwygiedig dros dair blynedd. Datblygir cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu i gyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Gwnaed gwaith manwl i gysoni dyraniadau grant gyda'n blaenoriaethau, er mai cyfyngedig fu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Mae ymgynghorwyr bellach yn herio ysgolion ar eu defnydd o arian grant, gyda set pendant o feini prawf i bwyso a mesur sut maent yn defnyddio'r arian hwn. Gwelwyd hyn yn lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran gweld beth yw effaith defnyddio'r arian grant ar ddeilliannau disgyblion.

Rydym bellach yn casglu'r wybodaeth a gesglir ar ddefnydd ysgolion o arian grant, felly manteisir yn well ar gyfleoedd i rannu arferion effeithiol a dysgu ehangach.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Rydym bellach yn arfarnu ac yn adolygu ein gwasanaethau a'n mentrau tra byddant wrthi'n cael eu gweithredu, a hynny er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant a gwerth am arian.

IECHYD SEFYDLIADOL

Cefndir

Mae Iechyd Sefydliadol yn mesur pa mor dda mae sefydliad wedi'i drefnu, yn gallu gweithredu, ac adnewyddu ei hun dros amser - er mwyn i'r sefydliad allu dysgu o'r gorffennol, ac arloesi yn y dyfodol.

Yn ôl gwaith ymchwil, mae'r cwmnïau hynny sydd iachaf ddwywaith fwy tebygol o berfformio'n well nag eraill. Mewn sefydliadau iach, mae gweithwyr sy'n:

- Deall y darlun mawr - maent yn gwybod beth yw'r weledigaeth a'r strategaeth, a sut rydych chi'n bwriadu eu cyflawni
- Gallu gwneud i bethau ddigwydd - mae ganddynt y modd, y sgiliau, y cymhelliant a'r gefnogaeth i roi'r cynlluniau hynny ar waith

- Aros ar y blaen - cânt eu hannog i fentro, ac addasu i ofalu eich bod chi'n aros yn gystadleuol

Cysylltu iechyd sefydliadol a pherfformiad yn GwE

Bydd y Mynegai Iechyd Sefydliadol (OHI) yn rhoi darlun manwl i GwE o sut mae'n perfformio yn erbyn y naw elfen iechyd (gweler isod).



Drwy hyn, ceir darlun trylwyr o ba mor iach yw'r sefydliad. Gellir cymharu'r canlyniadau yn erbyn eraill. Bydd hyn hefyd yn ein rhoi ni mewn sefyllfa i bwyso a mesur cryfderau presennol y sefydliad, a'i hanghenion o ran datblygu, a'n helpu ni i ddeall ble mae angen i ni weithredu er mwyn cynnal y lefelau presennol, neu wella arnynt dros amser.

Symud y sefydliad i berfformio'n well

- Edrych ar y meddylfryd a'r ymddygiad sy'n effeithio ar berfformiad
- Cymharu mynegai iechyd y sefydliad yn erbyn meincnodau'r sectorau cyhoeddus a phreifat
- Deall archdeip y sefydliad er mwyn adnabod y chwe neu saith arfer y mae'n rhaid eu cael er mwyn llwyddo
- Rhoi blaenoriaeth i raglenni ymyrraeth sydd eu hangen i wella iechyd
- Cadw golwg ar iechyd, pob hyn a hyn, i ofalu bod cynnydd cyson a bod unrhyw broblemau posibl yn cael eu dal yn fua

Y ffordd ymlaen

1. Cynnal arolwg o iechyd y sefydliad cyn diwedd y tymor
2. Arfarnu'r canfyddiadau a'r negeseuon allweddol
3. Addasu ymddygiad y sefydliad yn unol â'r hyn a ddysgwyd, gan ddylanwadu ar gynllunio busnes a'r gweithlu hefyd
4. Cynnal arolwg o iechyd y sefydliad pob hyn a hyn, er mwyn cadw golwg ar gynnydd a sylwi ar unrhyw beth sy'n newydd.

Cynnydd:

CYNLLULNIAU RHEOLI PERFFORMIAD

LEFEL 1 –

CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL

LEFEL 2 -

2.1 CYNRADD

2.2 UWCHRADDD

2.3 DYFODOL LLWYDDIANNUS

2.4 CYNLLUNIAU BUSNES YR ALL UNIGOL

2.5 Y GYMRAEG CYSAG

LEFEL 3 -

3.1 CWRICWLWM ACASESU

3.2 ARWEINYDDIAETH

3.3 ADDYSGU

3.4. LLES

3.5 BUSNES

LLWDIANNUS
D Y F O D O L
Tud. 78

3.1.1 Asesu a Thracio

3.1.2. Y Gymraeg a Llythrennedd

3.1.3 Saesneg & Llythrennedd

3.1.4 Mathemateg a Rhifedd

3.1.5 Gwvddoniaeth

3.1.6 Cynhwysedd Digidol

3.1.7 BAC

3.1.8 Prosiect TGAU

3.1.9 Lefel A/Post 16

3.1.10 Cyfnod Sylfaen

3.2.1 Datblygu Arweinyddiaeth

3.2.2 Arweinwyr Canol

3.2.3 Penaethiaid Newydd

3.2.4 Rheolaeth/ Compliancee

3.2.5 Cefnogaeth Llywodraethwyr

3.2.6 Ysgolion Bach Gwledig

3.2.7 Cymorthyddion

3.2.8 Gwerthuso ac ymchwil

3.3.1 Dysgu ac Addysgu

3.3.2 Arwain Methodoleg Pynciol

3.3.3 AGA (ITE)

3.4.1 Lles/ GAD/ PMG

3.4.2 ADY/ Cynhwysiad

3.4.3 Ffitrwydd ac iechyd

3.4.4 UCD

3.5.1 Ysgol GwE

3.5.2 Dangosfwrdd

3.5.3 Datblygiadau Proffesiynol a chynhwysedd Digidol Staff GwE/Iechyd y Sefydliad & Cynllunio Gweithlu

3.5.4 Cyllid

3.5.5 Rheoli Perfformiad & Llywodraethu

3.5.6 Cyfathrebu/ Marchnata

3.5.7 Adnoddau Dynol



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20/07/2017

Adroddiad gan: Y Rheolwr-Gyfarwyddwr

Pwnc: Trefniadau Gweithredu GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau'r Cydbwyllgor am y cynnydd a wnaed wrth adolygu a gweithredu strwythur gweithredu newydd.

2.0 Cefndir

2.1 Ym mis Tachwedd 2016 fe wnaethom ymrwymo eto i gyflwyno gwelliannau yn ein hysgolion ac i ymdrin ag argymhellion SAC ac Estyn yn gydnerth a buan. Fe wnaethom ymrwymo hefyd i adolygu arferion presennol o ran gwella ysgolion, gan ganolbwyntio yn arbennig ar y cyfnod uwchradd, gan nodi agweddau allweddol o arferion y mae angen i ni ymdrin â hwy fel rhanbarth.

2.2 Yr oedd yr adolygiad o drefniadau gweithredu GwE a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor ym mis Chwefror 2017 yn gosod allan bwysigrwydd symud ymlaen at fodel gweithredu diwygiedig er mwyn ymdrin â gwendidau mewn darpariaeth a deilliannau yn y sector uwchradd.

2.3 Cymeradwyodd y Cydbwyllgor yr argymhellion isod (Chwefror 2017):

- Penodi Rheolwr-Gyfarwyddwr ar fyrder gan gadw mewn cof y dewisiadau yn yr adroddiad hwn;
- Newid y model gweithredu presennol fel mater o frys er mwyn sicrhau y canolir yn glir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4;
- Dylai ALL unigol adolygu eu galluoedd presennol a'u gallu i weithio mewn partneriaeth gyda GwE i sicrhau bod perfformiad yn cael ei wella;
- Adolygu'r strwythurau Llywodraethiant ochr yn ochr â'r adolygiad nesaf o'r Model Cenedlaethol;
- Gweithredu model rheoli perfformiad gwasanaeth ac unigol fydd yn helpu i ymdrin ag argymhellion Estyn;
- Datblygu model arweiniad dosbarthol fydd yn rhoi swyddogaethau arwain i fwy o aelodau staff ac yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau eu hunain;
- Datblygu eglurder rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel eu bod yn ategu ei gilydd, heb gystadlu;
- Datblygu cysondeb ar draws y tri hwb er mwyn sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws y Rhanbarth;
- Adolygu'r cynllun busnes fel bod pawb yn deall blaenoriaethau GwE;

- Bod yn fwy clir ynghylch swyddogaethau'r staff yn enwedig yr uwch staff fel bod y blaenoriaethau yn cael eu cyflwyno; ac
- Adolygu model cefnogi busnes gweithredol GwE.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Cymerwyd camau breision i weithredu ar yr argymhellion a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor:

- Penodwyd Rheolwr-Gyfarwyddwr newydd a gychwynnodd yn ei swydd ar ddechrau Mehefin 2017.
- Mae gwaith ar y gweill i adolygu'r strwythurau llywodraethiant a sicrhau atebolrwydd a gofalu y darperir her a chefnogaeth ddigonol ar y gwahanol lefelau yn y strwythur.
- Gwnaed cryn dipyn o waith i asio blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol trwy'r broses ranbarthol o gynllunio busnes a'r strwythur atebolrwydd.
- Adolygwyd y cynllun busnes, ynghyd â'r strwythur atebolrwydd. Cafodd y cynlluniau ar bob lefel eu datblygu ymhellach ac y maent yn canolbwyntio fwy ar lefel ysgolion unigol. Mae hyn wedi caniatáu i gyfarfodydd monitro ganolbwyntio'n well ac y mae ymgynghorwyr herio unigol yn fwy atebol o ran cyflwyno. Datblygwyd mwy ar y broses fonitro yn gyffredinol, a bydd hyn yn sicrhau agwedd gyson ar draws y rhanbarth.

3.2 Ers creu GwE ym mis Ebrill 2013, cadwodd y strwythur sefydliadol at ei fformat gwreiddiol, ar wahân i greu 2 o swyddi Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, 3 rôl a drosglwyddwyd o Gonsortium Gogledd Cymru, a 2 swydd arall a grëwyd gyda blaenoriaethau penodol, e.e. y cyfnod sylfaen, ysgolion arbennig ac UCD. Nid oedd llawer o hyblygrwydd yn y strwythur gwreiddiol i gwrdd â blaenoriaethau newydd, ac y mae hyn wedi arwain at nifer o gontractau tymor penodol a secondiadau i arwain ar feysydd penodol; yn adweithiol yn bennaf er mwyn ateb blaenoriaethau cenedlaethol. Dengys hyn nad oedd maint a ffurf y tîm yn addas at y diben, a bod heriau a risgiau o ran cwrdd â'r anghenion.

3.3 Yn unol â'r argymhellion (Chwefror 2017), cyflwynwyd strwythur sefydliadol diwygiedig er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth roi ffocws digonol i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau diwygiedig.

- Crëwyd tîm uwchradd cryfach er mwyn roi ffocws clir ar wella perfformiad mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig ar gyfnod allweddol 4. Mae mwy o brofiad yn y tîm hwn, a record lwyddiannus ar lefel uwch yn y sector uwchradd. Bydd y cynnydd hwn mewn gallu yn sicrhau y gall GwE gael effaith yn syth.
- Datblygwyd model arweiniad dosbarthol trwy greu deiliaid portffolio i arwain ar flaenoriaethau penodol yn y Cynllun Busnes, er enghraifft: cwricwlwm; asesu; datblygu arweinwyr; medrusrwydd digidol; addysgu a dysgu; ymchwil a gwerthuso; Bac; Cymraeg; Saesneg; Mathemateg; Gwyddoniaeth; Llythrennedd etc. Bydd hyn yn rhoi arweiniad strategol gwell ar faterion addysgol fydd o les i gyflwyno blaenoriaethau'r consortia ac ALL unigol. Bydd y model newydd yn creu mwy o gyfle i Ymgynghorwyr Herio ddatblygu, a bydd yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd. Bydd y model newydd hefyd yn helpu i ddatblygu cynllunio gweithlu ac olyniaeth.
- Creu timau cynradd ac uwchradd rhanbarthol er mwyn datblygu mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth. Bydd y Bwrdd Ansawdd safonol hefyd yn helpu i greu cysondeb rhanbarthol trwy nodi'r arferion gorau a'i rannu ar hyd a lled y rhanbarth.
- Cwblhawyd adolygiad o'r strwythur a'r swyddi presennol. Mae hyn wedi rhoi mwy o eglurder am swyddogaethau ac atebolrwydd er mwyn sicrhau mwy o ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth.
- Mae adolygiad o'r model cefnogi busnes gweithredol i GwE ar y gweill.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Argymhellir y Cydbwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ac i ail-gadarnhau eu cefnogaeth i barhau a gweithredu'r argymhellion.

5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Bydd y model gweithredu newydd yn cael ei gyllido trwy'r adnoddau sy'n bodoli eisoes.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn deillio o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Ymgynghorwyd yn llawn â staff GwE yn ystod y broses.

8.0 Ymgynghori a Wnaed

- 8.1 Ymgynghorwyd â gwahanol randdeiliaid gan gynnwys Bwrdd Rheoli GwE, Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Penaethiaid, etc.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Mae rhan 5 o'r adroddiad yn nodi fod y strwythur newydd i'w ariannu o adnoddau presennol GwE. Dylid cofio bod cyllideb cyfredol GwE eisoes yn cynnwys targed arbedion £131,967 sefydlwyd wrth gytuno cyfraniadau / cyllideb 2016/17, lle disgwylir i'r Rheolwr Gyfarwyddwr gyflwyno cynllun gweithredu

Eitem 12

CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	20 Gorffennaf 2017
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017
PWRPAS	Cyflwyno – • Adroddiad “alldro” Incwm a Gwariant Refeniw 2016/17, a • Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad.
ARGYMHELLIAD	Derbyn a nodi'r wybodaeth, a chadarnhau'r driniaeth o'r tanwariant.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blyneddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chod CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.6 Bydd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2. CYFRIFON 2016/17

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2016/17 yma fel Atodiad A**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro" sydd, hyderaf, yn fwy dealladwy i aelodau weithredu fel "bwrdd rheolaethol".
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2016/17 (yn amodol ar archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt "llywodraethu".
- 2.3 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yna, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynhyrchu adroddiad "ISA260", sy'n manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte, i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 22 Medi 2017.

3. TANWARIANT

- 3.1 Mae'r tanwariant net terfynol am 2016/17 yn £378,293.
- 3.2 Mae Atodiad A yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r balans.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 **Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau a chadarnhau'r driniaeth o'r tanwariant**, sef –
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2016/17 – Atodiad A
 - Datganiad o'r Cyfrifon 2016/17 (yn amodol ar archwiliad) – Atodiad B

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro :

Dim sylwadau o ran priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol :

Awdur yr adroddiad.

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cyngorau Conwy, Dinbych, Flint,
Gwynedd, Môn a Wreccsam)

Adroddiad Perfformiad
2016/17
(Alldro)

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

CYD-BWYLLGOR GwE

CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2016/17

	Cyllideb Terfynol £	Gwariant Terfynol £	Gor / (Tan) Wariant Net £
Gwariant			
Gweithwyr			
Cyflogau			
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	839,072	826,148	(12,924)
- Ymgynghorwyr Her	2,307,003	1,984,627	(322,376)
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	33,322	20,956	(12,366)
Adeilad			
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	99,074	106,825	7,752
Cludiant			
Costau Teithio	122,822	110,239	(12,583)
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	30,163	57,440	27,277
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	15,000	15,000	0
Ffioedd archwilio	7,617	7,617	0
Broceru	276,270	137,333	(138,937)
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd			
Cyfreithiol	5,206	5,206	0
Adnoddau Dynol	8,926	8,926	0
Cyllid	38,604	38,604	0
Technoleg Gwybodaeth	42,697	42,697	0
Arbedion i'w darganfod	(131,180)		131,180
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	463,004	463,004	0
Defnydd o'r Gronfa Tanwariant			
Rhaglen Cefnogaeth TGAU	100,100	100,100	0
Cyfraniad i'r Gronfa Gofynion Pensiwn	59,938	59,938	0
Prosiectau Penodol			
Grant Gwella Addysg : Comisiynu Awdurdodau	3,907,324	3,907,324	0
Grant Gwella Addysg : Cynlluniau Uniongyrchol	1,005,959	980,894	(25,065)
Grant Gwella Addysg : Cyfraniad Ychwanegol	647,500	647,500	0
Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd a ITM	23,404	23,404	0
Llythrennedd a rhifedd - LIC	5,000	5,000	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	673,512	673,486	(26)
Grant Her Ysgolion Cymru	2,126,136	2,113,607	(12,528)
Grant TGAU newydd, PISA a llythrennedd gwyddonol	1,112,579	1,067,684	(44,894)
DPP - Bagloriaeth Cymru	50,000	37,002	(12,998)
Dysgu yn Cymru Digidol (LiDW)	112,647	112,647	0
Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion (PLPS)	181,383	181,383	0
Mentora & Chefnogaeth Rhwydweithio i Brifathrawon Newydd	24,666	24,666	0
Cyrsiau Dyfal Donc	6,766	6,766	0
Canolfannau Rhagoriaeth i Ysgolion ar gyfer leithoedd Modern	120,000	120,000	0
Ysgolion Arloesi	1,928,253	1,635,364	(292,889)
Athrawon Newydd Gymhwyso	76,211	76,211	0
Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Anghenion Dysgu Ychwanegol)	25,000	24,162	(838)
Prosiect 'Northworts Headsprout'	55,012	55,012	0
Tendr Gwirio Ansawdd	31,591	31,591	0
CPCP	129,355	129,355	0
Digwyddiadau Arbennig	4,870	4,870	0
Dinasyddiaeth Ddigidol	5,000	5,000	0
Cyfanswm Gwariant	16,569,804	15,847,589	(722,215)

	Cyllideb Terfynol £	Gwariant Terfynol £	Gor / (Tan) Wariant Net £
Cyfanswm Gwariant (o tud 1)	16,569,804	15,847,589	(722,215)
<u>Incwm</u>			
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd			
- Cyngor Ynys Môn (10.12%)	(414,698)	(414,698)	0
- Cyngor Gwynedd (17.77%)	(728,215)	(728,215)	0
- Cyngor Conwy (15.40%)	(631,089)	(631,089)	0
- Cyngor Dinbych (15.18%)	(621,918)	(621,918)	0
- Cyngor Fflint (22.67%)	(928,674)	(928,674)	0
- Cyngor Wrecsam (18.86%)	(772,570)	(772,570)	0
Incwm Secondiadau	(99,137)	(99,137)	0
Ffioedd Cyffredinol	(21,236)	(21,236)	0
Incwm Amrywiol	0	(1,883)	(1,883)
Defnydd o Tanwariant	(100,100)	(100,100)	0
<u>Prosiectau Penodol</u>			
Grant Gwella Addysg : Comisiynu Awdurdodau	(3,907,324)	(3,907,324)	0
Grant Gwella Addysg : Cynlluniau Uniongyrchol	(1,005,959)	(980,894)	25,065
Grant Gwella Addysg : Cyfraniad Ychwanegol	(647,500)	(647,500)	0
Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd a ITM	(23,404)	(23,404)	0
Llythrennedd a rhifedd - LIC	(5,000)	(5,000)	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(673,512)	(673,486)	26
Grant Her Ysgolion Cymru	(2,126,136)	(2,113,607)	12,528
Grant TGAU newydd, PISA a llythrennedd gwyddonol	(1,112,579)	(1,067,684)	44,894
DPP - Bagloriaeth Cymru	(50,000)	(37,002)	12,998
Dysgu yn Cymru Digidol (LiDW)	(112,647)	(112,647)	0
Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion (PLPS)	(181,383)	(181,383)	0
Mentora & Cefnogaeth Rhwydweithio i Brifathrawon Newydd	(24,666)	(24,666)	0
Cyrsiau Dyfal Donc	(6,766)	(6,766)	0
Canolfannau Rhagoriaeth i Ysgolion ar gyfer leithoedd Modern	(120,000)	(120,000)	0
Ysgolion Arloesi	(1,928,253)	(1,635,364)	292,889
Athrawon Newydd Gymhwyso	(76,211)	(76,211)	0
Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Anghenion Dysgu Ychwanegol)	(25,000)	(24,162)	838
Prosiect 'Northworts Headsprout'	(55,012)	(55,012)	0
Tendr Gwirio Ansawdd	(31,591)	(71,932)	(40,341)
CPCP	(129,355)	(129,355)	0
Digwyddiadau Arbennig	(4,870)	(4,870)	0
Dinasyddiaeth Ddigidol	(5,000)	(5,000)	0
Llog ar falansau	0	(3,094)	(3,094)
Cyfanswm Incwm	(16,569,804)	(16,225,882)	343,922
Cyfanswm	0	(378,293)	(378,293)
<u>Memorandwm -</u>			
<u>Y Gronfa Tanwariant</u>			
	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2016	(460,379)	
	Llai - Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2016/17	(378,293)	
	Llai - Defnydd o'r Gronfa	100,100	
	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2017	(738,572)	
<u>Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth</u>			
	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2016	(45,000)	
	Ychwaneger - Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2016/17	(15,000)	
	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2017	(60,000)	
<u>Cronfa Gofynion Pensiwn</u>			
	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2016	(36,157)	
	Ychwaneger - Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2016/17	(59,938)	
	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2017	(96,095)	

1. AMRYWIADAU ARIANNOL

1.1 Gweithwyr – Rheolaeth, Broceriaeth, Safonau a Gweinyddiaeth:

Terfynol: gwir tanwariant (£12,924): (lonawr 2017: gorwariant rhagwelwyd £31,921).

Y prif reswm dros y gorwariant yr adroddwyd amdano ym mis Ionawr oedd oherwydd penderfyniad i secondio aelod ychwanegol i'r tîm data heb gyfraniad ariannol ychwanegol gan yr awdurdodau ym mlwyddyn ariannol 2016/17. Bydd yr Awdurdodau yn darparu cyfraniad ariannol parhaol ychwanegol o 2017/18 ymlaen.

Hefyd, mae GwE yn derbyn cyfraniad o rai o'r grantiau tuag at eu costau Rheoli/Gweinyddu perthnasol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, ymdriniwyd ag elfen o'r gwaith rheoli /gweinyddu hwn o blith adnoddau craidd.

Cafwyd anawsterau pellach i benodi cyfieithydd dros dro (yn ystod absenoldeb mamolaeth). Defnyddiwyd cyfieithwyr allanol, ond cynhwysir eu costau dan bennawd gwahanol (gweler paragraff 1.6 isod).

1.2 Gweithwyr – Ymgynghorwyr Herio:

Terfynol: gwir tanwariant (£322,376): (lonawr 2017: tanwariant rhagwelwyd (£133,789)).

Fel nodir uchod, mae GwE yn derbyn cyfraniad o rai o'r grantiau tuag at eu costau Rheoli/Gweinyddu. Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, ymdriniwyd ag elfen o'r gwaith rheoli /gweinyddu hwn o blith adnoddau craidd.

Mae secondiadau staff a chyfraniadau amser staff craidd i gynlluniau a phrosiectau newydd (ariannwyd drwy grant) wedi arwain at fwy o danwariant. Oherwydd amserlenni a blaenoriaethau, fel tasg unwaith ac am byth, gwnaed y gwaith hwn o'r tu mewn i'r adnoddau presennol, yn arwain at danwariant sylweddol un-tro.

1.3 Gweithwyr - Hyfforddiant, hysbysebu a chostau gweithwyr eraill:

Terfynol: gwir tanwariant (£12,366): (lonawr 2017: ni rhagwelwyd gor na thanwariant).

Bu gostyngiad mewn costau am hysbysebu swyddi oherwydd ein sianeli cyfathrebu newydd a'u llwyddiant, e.e., gwefan, bwletin wythnosol, cyfryngau cymdeithasol.

1.4 Adeiladau:

Terfynol: gwir gorwariant £7,752: (lonawr 2017: ni rhagwelwyd gor na thanwariant).

Y prif reswm dros y gorwariant yw cost ystafelloedd cyfarfod a hyfforddi am amrywiol weithgareddau ar gyfer digwyddiadau mwy lle nad oes gennym le yn ein swyddfeydd ein hunain. Rheswm arall yw'r diffyg cyfleusterau cyfarfod a hyfforddi yn hwb Wrecsam / Sir y Fflint, o ganlyniad, mae'n rhaid i ni logi cyfleusterau allanol ar gyfer pob cyfarfod cynhaliwyd yno.

- 1.5 **Trafnidiaeth:**
Terfynol: gwir tanwariant (£12,583): (lonawr 2017: tanwariant rhagwelwyd (£10,000)).
 Mae tueddiadau hanesyddol costau teithio yn dangos fod y gwir gost flynyddol yn fymryn yn is na'r hyn a amcangyfrifwyd yn y gyllideb. Parhaodd y patrwm hwn yn ystod 2016/17.
- 1.6 **Dodrefn, cyfarpar, argraffu, postio, teliffon, llogi ystafelloedd etc:**
Terfynol: gwir gorwariant £27,277: (lonawr 2017: ni rhagwelwyd gor na thanwariant).
 Oherwydd anawsterau penodi cyfieithydd dros dro (yn ystod absenoldeb mamolaeth), defnyddiwyd cyfieithwyr allanol. Cynhwyswyd eu costau yma ac y maent felly wedi cyfrannu tuag at orwariant ar y pennawd hwn.
 Mae grantiau wedi talu am rai aelodau staff ychwanegol, sydd wedi arwain at gynyddu'r angen i wario ar adnoddau TGCh. Nid oedd y costau TGCh ychwanegol yn gymwys i gael eu cyllido o'r grantiau.
- 1.7 **Broceriaeth:**
Terfynol: gwir tanwariant (£138,937): (lonawr 2017: tanwariant rhagwelwyd (£74,000)).
 Mae cynlluniau penodol, gan gynnwys y rhai a gyllidir gan grantiau allanol, wedi eu blaenoriaethau' gan y gwasanaeth sy'n golygu tanwariant ar y pennawd yn 2016/17.
- 1.8 **Arbedion i'w canfod:**
Terfynol: gwir gorwariant £131,180. (lonawr 2017: gorwariant rhagwelwyd £131,180).
 Hyd yma strategaeth barhaol yn dal i fod i weithredu'r targed arbedion, felly mae "gorwariant" fel rhagwelwyd.
 O ystyried goblygiadau ariannol net yr adroddiad am weddill y penawdau cyllideb, yn unol â'r hyn a grybwyllwyd yn y cyfarfod ar 24 Chwefror 2016 wrth ystyried cyllideb 2016/17, defnyddir rhan o'r gronfa wrth gefn ar gyfer unrhyw lithriad yn yr amserlen ar gyfer gweithredu'r targed arbedion.
Cydbwyllgor 24 Chwefror 2016
"3.2 Bydd angen clustnodi cyfran briodol o'r gronfa ar gyfer unrhyw elfen o'r targed arbedion (gweler 1.3) na all GwE ei ganfod yn ystod 2017/18."
- 1.9 **Prosiectau penodol: gwir tanwariant (£389,239) - Dim effaith net:**
 Mae'r gwasanaeth yn ymwneud â nifer o brosiectau penodol a gyllidir o ffynonellau allanol, gan gynnwys grantiau. Mae arian sylweddol ar gael (£12,252,167 yn 2016/17) gydag amodau caeth a therfyn amser gwario cyfyngedig.
- Sylwadau gan reolwyr GwE a'r Rhwydweithiau Rhanbarthol i esbonio rhesymau y tu ôl i danwariant y grant:**
- Grant Gwella Addysg: tanwariant (£25,065)**
 Yr oedd union gostau rhai o'r gweithgareddau a gyllidwyd o'r GGA yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd oherwydd patrymau hanesyddol.

TGAU: tanwariant (£44,894)

Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant hwn oherwydd effaith dilynol cyllid 2014/15 a 2015/16 a gariwyd ymlaen, ac nad oed modd ei wario o fewn yr amser a bennwyd.

Rhwydwaith Ysgolion Arloesol: tanwariant (£292,889)

Fe wnaeth pedwar ysgol benderfynu dynnu'n ôl o'r rhaglen oherwydd newid mewn amgylchiadau, wnaeth arwain at ddiffyg capasiti i ymrwymo i'r rhaglen yn llawn.

Amryw o weithgareddau / prosiectau yn y cynllun gwreiddiol heb ei wireddu.

2 Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

2.1 Yr oedd y Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn yn £460,379 ar ddechrau blwyddyn ariannol 2016/17, gyda £100,100 yn cael ei ymrwymo ar y cychwyn tuag at raglen cefnogi TGAU. Mae'r tanwariant net cyffredinol o £378,293 yn ystod 2016/17 yn dod â'r arian wrth gefn i fyny i £738,572 ar ddiwedd 2016/17.

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cyngorau Conwy, Dinbych, Flint,
Gwynedd, Môn a Wrecsam)

DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2016/17
(Yn amodol ar
Archwiliad)

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 - 4
Datganiad Cyfrifoldebau	5
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	6
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	7
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	8
Y Fantolen	9
Datganiad Llif Arian	10
Nodiadau i'r Cyfrifon	11 – 32

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cyngorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2016/17 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 6 i 32. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2016/17*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw yn ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blyneddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwech Cyngor isod fel a ganlyn am 2016/17 :

Conwy	15.40%
Dinbych	15.18%
Fflint	22.67%
Gwynedd	17.77%
Ynys Môn	10.12%
Wrecsam	18.86%
Cyfanswm	100%

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2017.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2016/17 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

GWARIANT REFENIW YN 2016/17

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 7 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel Cost Gwasanaethau yn £15,720k yn ystod 2016/17, gyda'r sefyllfa net yn (£406k).
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2016/17 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2017. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o

£378k i reserf penodol.

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalen 7 a 8 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad. Ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant ar Weithgareddau	16,570	15,848	(722)
Incwm			
Cyfraniadau'r Cyngorau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd:			
Conwy	(631)	(631)	0
Dinbych	(622)	(622)	0
Fflint	(929)	(929)	0
Gwynedd	(728)	(728)	0
Ynys Môn	(415)	(415)	0
Wrecsam	(772)	(772)	0
Incwm Arall	(12,473)	(12,129)	344
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(378)	(378)

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	*Addasiad Trawsddodiad	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	*Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant	15,848	(75)	15,773	(53)	15,720
Incwm	(16,226)	100	(16,126)	0	(16,126)
Cost Gwasanaethau Net	(378)	25	(353)	(53)	(406)

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at gyfraniad i ac o reserfau, a'r golofn Addasiadau rhwng sail Ariannu a'r sail Cyfrifo yn cyfeirio at addasiadau technegol pensiynau ac absenoldebau cronedig.

Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- Newid o £5,244k yn y maes pensiwn ar aillfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- Cynnydd o £2,015k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).

Materion Eraill

- Bu problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol fyd-eang yn y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Cyd-Bwyllgor gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o reserfau.

- Ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, bu cryn ansicrwydd economaidd. Disgwylir i hyn barhau am gyfnod a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor yn 2017/18 a'r tymor canolig.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ddarpariaethau o £3k a reserfau a glustnodwyd o £895k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9 a 14.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau'r Gronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £3,714k i £6,945k yn 2016/17. Gweler Nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn.

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 11.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Nid oes unrhyw newid i'r polisiau cyfrifo yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/17.

GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Hywyn Lewis Jones
Uwch Gyfrifydd
01286 679145

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor. Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw.

Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

28 Mehefin 2017

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

<u>2015/16</u>				<u>2016/17</u>		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Cyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Cyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
3,028	25	3,053	Gweithwyr	3,448	(53)	3,395
41	0	41	Eiddo	204	0	204
148	0	148	Cludiant	139	0	139
1,007	0	1,007	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,593	0	1,593
9,675	0	9,675	Trydydd Parti	10,389	0	10,389
(14,144)	0	(14,144)	Incwm	(16,126)	0	(16,126)
(245)	25	(220)	Cost Gwasanaethau	(353)	(53)	(406)
0	0	0	Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0
0	149	149	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	113	113
0	0	0	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0
(245)	174	(71)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(353)	60	(293)
(297)			Balans Agoriadol y Gronfa Cyffredinol	(542)		
(245)			Llai (Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Cyffredinol yn y flwyddyn	(353)		
(542)			Balans Cau y Gronfa Cyffredinol	(895)		

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2015/16			Nodyn	2016/17		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
3,053	0	3,053		3,395	0	3,395
41	0	41	Gweithwyr	204	0	204
148	0	148	Eiddo	139	0	139
1,007	0	1,007	Cludiant	1,593	0	1,593
9,675	0	9,675	Gwasanaethau a Chyflenwadau	10,389	0	10,389
0	(14,144)	(14,144)	Trydydd Parti	0	(16,126)	(16,126)
13,924	(14,144)	(220)	Incwm	15,720	(16,126)	(406)
0	0	0	Cost Gwasanaethau	0	0	0
149	0	149	Gwariant Gweithredol Arall	113	0	113
0	0	0	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	0	0
14,073	(14,144)	(71)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	15,833	(16,126)	(293)
			(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau			
		(1,578)	Ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net			3,666
		(1,578)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			3,666
		(1,649)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			3,373

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyd-Bwyllgor.

		Gwybodaeth ychwanegol	Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau				
	Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi £'000	Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £'000	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy £'000	Reserfau na ellir eu defnyddio £'000	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor £'000
Balans 31 Mawrth 2015 a ddygwyd ymlaen		0	(297)	(297)	(297)	4,697	4,400
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2015/16</u>							
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(71)	0	(71)	(71)	0	(71)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	(1,578)	(1,578)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(71)	0	(71)	(71)	(1,578)	(1,649)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(174)	0	(174)	(174)	174	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		(245)	0	(245)	(245)	(1,404)	(1,649)
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	9	245	(245)	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2015/16		0	(245)	(245)	(245)	(1,404)	(1,649)
Balans 31 Mawrth 2016 a ddygwyd ymlaen		0	(542)	(542)	(542)	3,293	2,751
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2016/17</u>							
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(293)	0	(293)	(293)	0	(293)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	3,666	3,666
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(293)	0	(293)	(293)	3,666	3,373
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(60)	0	(60)	(60)	60	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		(353)	0	(353)	(353)	3,726	3,373
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	9	353	(353)	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2016/17		0	(353)	(353)	(353)	3,726	3,373
Balans 31 Mawrth 2017 a ddygwyd ymlaen		0	(895)	(895)	(895)	7,019	6,124

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau/(ymrwymïadau) net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddeler gan y Cyd-Bwyllgor.

31 Mawrth 2016 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2017 £'000
7	Dyledwyr Tymor Hir		3
7	Asedau Tymor Hir		3
1,447	Dyledwyr Tymor Byr	11	3,933
1,561	Arian a Chyfwertthoedd Arian	12	543
3,008	Asedau Cyfredol		4,476
(2,406)	Credydwyr Tymor Byr	13	(3,299)
(2)	Darpariaethau Tymor Byr	14	(3)
(127)	Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	21	(356)
(2,535)	Ymrwymïadau Cyfredol		(3,658)
(3,231)	Ymrwymïad Pensiwn	25	(6,945)
(3,231)	Ymrwymïadau Tymor Hir		(6,945)
(2,751)	Asedau Net		(6,124)
(542)	Reserfau Defnyddiadwy	15	(895)
3,293	Reserfau na ellir eu defnyddio	16	7,019
2,751	Cyfanswm Reserfau		6,124

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd.

2015/16 £'000	Nodyn	2016/17 £'000
(71) (Gwarged) / Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		(293)
(2,247) Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (<i>credydwy, dyledwy a pensiwn</i>)	17	1,314
(2,318) Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		1,021
(5) Gweithgareddau Buddsoddi		(3)
(2,323) (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian		1,018
762 Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(1,561)
(1,561) Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd		(543)

*Sefyllfa Llif Arian yn unol â Pholisi Cyfrifo 1.3.

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2016/17 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2017. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2016/17*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2014.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiâu perthnasol yn unig.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymryd lle, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na phryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyfwertoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

I.4 Buddiannau Gweithwyr

I.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronïad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cronïad yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y cronïad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tâl diswyddo gwirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi yn eu lle, y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-p-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.6% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar y buddion diffiniedig/(asedau) net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynnwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi yn eu lle'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Adrodd Ryngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion IAS19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau wedi dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail cronriadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu Dosrannau ac yn cynnwys cost buddiannau dewisol ddyfarnwyd i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

1.10 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Dosberthir y darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.11 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

NODYN 1 – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'Reserfau na ellir eu defnyddio' i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

1.12 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy'. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.13 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm yn berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, p'run a'u os yw'r taliadau a'r derbyniadau wedi eu talu neu eu derbyn a'i peidio yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.14 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred sydd wedi ei Gyd-reoli.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Nid oedd newidiadau i bolisiâu cyfrifeg yn ystod 2016/17.

NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eto eu mabwysiadu gael eu datgan.

Mae'r safonau cyfrifeg gysylltiedig sydd yn y Côt Ymarfer 2017/18 yn effeithio ar ddatganiadau o fewn y cyfrifon Pensiwn.

Mae'n ofynnol fod y Côt yn weithredol o 1 Ebrill 2017 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2016/17.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau yr asedau ac ymrwymïadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiad proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiaid yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymïadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu selio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2017 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 24 a 25

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- Newid o £5,244k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymïadau/(asedau) buddion diffiniedig net, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16)
- Cynnydd o £2,015k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2016/17	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Gweithwyr	0	(65)	12	(53)
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	(65)	12	(53)
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	113	0	113
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	48	12	60

2015/16	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Gweithwyr	0	16	9	25
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	16	9	25
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	149	0	149
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	165	9	174

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(i) Newid Net gogyfer ag Addasiadau Pensiynnau

Newidiadau Net gogyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* IAS 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Gogyfer â **Gwasanaethau** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan yr awdurdod fel y caniateir trwy statud a'r amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Gogyfer ag **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn DIGC.

(ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/debryniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Gogyfer â **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a ennillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Gogyfer ag **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol gogyfer a gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2016/17		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU		
	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(734)	734
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	686	(686)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(12)	12
Cyfanswm Addasiadau	(60)	60

2015/16		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU		
	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(741)	741
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	576	(576)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(9)	9
Cyfanswm Addasiadau	(174)	174

NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

Reserfau a Glustnodwyd

	Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE £'000
Balans 31 Mawrth 2016	542
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Rhwng Cronfeydd	0
Mewn	453
Allan	(100)
Balans 31 Mawrth 2017	895

NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2015/16 £'000	2016/17 £'000
149 Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	113
149 Cyfanswm	113

NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Llywodraeth Cymru	1,218	2,697
Cyrff Llywodraeth Ganolog	54	67
Awdurdodau Lleol Eraill	125	1,081
Endidau Eraill ac Unigolion	50	88
Cyfanswm	1,447	3,933

NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod neu orddrafft banc wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Arian Mewn Llaw	1,561	543
Arian a Chyfwertthoedd Arian	1,561	543
Gorddrafft Banc	0	0
Cyfanswm	1,561	543

NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Llywodraeth Cymru	88	113
Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill	65	76
Awdurdodau Lleol Eraill	1,704	2,563
Endidau Eraill ac Unigolion	549	547
Cyfanswm	2,406	3,299

NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

	Balans ar 31 Mawrth 2016 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2017 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd	(2)	(1)	0	(3)
	(2)	(1)	0	(3)

Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

NODYN 15 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2017
£'000		£'000
(3,231)	Reserf Pensiynau	(6,945)
(62)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(74)
(3,293)	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(7,019)

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r rhwymedigaeth yn diweddar i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu ariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu yn y diwedd talu pensiwn ble mae'n bennaf gyfrifol. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enilledig gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol ble mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2015/16		2016/17
£000		£000
(4,644)	Balans 1 Ebrill	(3,231)
1,578	Ailfesuriad (ymrwymadau) / asedau buddion diffiniedig net (Nodyn 25)	(3,666)
(741)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(734)
576	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	686
(3,231)	Balans 31 Mawrth	(6,945)

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blyneddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2015/16		2016/17
£000		£000
(53)	Balans 1 Ebrill	(62)
(9)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronïadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(12)
(62)	Balans 31 Mawrth	(74)

NODYN 17 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2015/16		2016/17
£'000		£'000
1,873	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd	(893)
(3,951)	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	2,485
(164)	Ymrwymiad Pensiwn	(48)
(5)	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth	(230)
(2,247)		1,314

NODYN 18 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen.

NODYN 19 – TALIADAU I SWYDDOGION

19a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer gweithwyr sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sydd gyda chyflog o rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy a hefyd gyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

2015/16				Uwch Swyddogion	2016/17			
Cyfraniadau		Costau			Cyfraniadau		Costau	
Pensiwn		Eraill			Pensiwn		Eraill	
Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£	£		£	£	£	£
85,482	22,062	0	107,544	Prif Swyddog ¹	50,118	12,937	0	63,055

1) Deilydd yn y swydd hyd at ddiwedd Hydref 2016

2) Ers 1 Tachwedd 2016, mae Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro i GwE ar sail rhan amser. Mae wedi ei benodi'n ffurfiol gan Cyngor Gwynedd, ac mae GwE yn ad-dalu 80% o'i gostau cyflog a thâl eraill cyfwerth â £43k (yn cynnwys costau Yswiriant Gwladol cyflogwr).

19b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2015/16 a 2016/17.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:			
Nifer yn 2015-16		Nifer yn 2016-17	
Cyfanswm		Cyfanswm	
3	£60,000 - 64,999	2	
1	£65,000 - 69,999	2	

NODYN 20 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2015/16		2016/17
£'000		£'000
8	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	8

Yn 2015/16, apwyntwyd Deloitte, yn archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, ac felly GwE, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

NODYN 2I – INCWM GRANT

2Ia. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2015/16		2016/17	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru -				
Her Ysgolion Cymru	1,291		2,108	
TGAU, PISA a Llythrennedd Gwyddoniaeth	710		1,058	
CPCP - Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth	93		129	
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal *	586		672	
Rhwydwaith Ysgolion Arloesi	338		1,608	
Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd a Ieithoedd				
Tramor Modern	250		23	
Canolfannau Rhagoriaeth Ieithoedd Tramor Modern	137		120	
Dysgu yn Cymru Digidol (LiDW)	102		113	
Arall	173		114	
	3,680		5,945	
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall				
Cyngor Chwaraeon Cymru	205		181	
Cyngor Gweithlu Addysg	0		76	
	205		257	
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Cyngorau tuag at y Gwasanaeth Craidd				
Conwy	640		631	
Dinbych	628		622	
Fflint	929		929	
Gwynedd	734		728	
Ynys Môn	418		415	
Wrecsam	778		772	
	4,127		4,097	
Grant Gwella Addysg (GGA) * :				
Ariannu Cyfatebol gan Gyngorau				
Conwy	67		67	
Dinbych	363		346	
Fflint	88		87	
Gwynedd	579		551	
Ynys Môn	307		293	
Wrecsam	98		0	
Llywodraeth Cymru	4,350		4,120	
	5,852		5,464	
Arall	209		325	
	10,188		9,886	
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
	14,073		16,088	

*Ddim yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

NODYN 21 – INCWM GRANT (parhad)

21b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu ella y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Byr</u>		
Cyngor Chwaraeon Cymru	127	46
Rhwydwaith Ysgolion Arloesi	0	112
Rhaglen Athrawon Newydd Gymhwyso	0	198
Cyfanswm	127	356

NODYN 22 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor.

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiâu ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2017 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2016/17 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£'000	£'000	£'000
16	1	0

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cyngorwyr.

Swyddogion

Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau yma yn ystod 2016/17 ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a nodwyd.

NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r gost berthnasol i'r cyflogwr yn hytrach na gwir gost y taliadau i'r unigolion.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ymhob band	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17
£	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	£'000	£'000
0 - 20,000	0	3	0	0	0	3	0	4
Cyfanswm	0	3	0	0	0	3	0	4

NODYN 24 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2016/17 talodd y Cyd-Bwyllgor £11k (2015/16: £11k) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 15.65%, ar gyfartaledd, o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Nid oedd unrhyw gostau am hyn yn 2016/17 a 2015/16. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 25.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er nad yw'r buddion yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawlau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl cyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014 ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwnau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiwnau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff y polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Y pwyllgor sy'n penodi rheolwyr buddsoddi'r gronfa.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisiau cyfrifo i'r Cyd-Bwyllgor.

Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion ar ôl Cyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddion yn cael eu talu. Fodd bynnag, mae'r gost sydd rhaid ei ddangos yn erbyn Treth y Cyngor (trwy gyfraniadau'r Cyngorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn. Felly, mae gwir gost buddion ar ôl cyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrth-droi allan o Gronfa Gyffredinol y Cyd-Bwyllgor trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2016			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2017		
	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	12,910	0	12,910	13,529	0	13,529
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(17,554)	(17,554)	0	(16,760)	(16,760)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth	12,910	(17,554)	(4,644)	13,529	(16,760)	(3,231)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(592)	(592)	0	(621)	(621)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(592)	(592)	0	(621)	(621)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	418	0	418	482	0	482
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(567)	(567)	0	(595)	(595)
Cyfanswm Llog Net	418	(567)	(149)	482	(595)	(113)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	418	(1,159)	(741)	482	(1,216)	(734)
Llif Arian						
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	166	(166)	0	195	(195)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	540	0	540	624	0	624
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	(416)	416	0	(334)	334	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	13,618	(18,463)	(4,845)	14,496	(17,837)	(3,341)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	0	0	0	50	50
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	1,596	1,596	0	(2,295)	(2,295)
Profiadau Eraill	0	107	107	0	(1,565)	(1,565)
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	(89)	0	(89)	206	0	206
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	(89)	1,703	1,614	(206)	(3,810)	(3,604)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	13,529	0	13,529	14,702	0	14,702
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(16,760)	(16,760)	0	21,647	(21,647)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu**	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	13,529	(16,760)	(3,231)	14,702	(21,647)	(6,945)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Ar gyfer ymrwymiaid heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2017, tybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu, yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd bod 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) pan fuont farw ac y bydd eu priod (cydbreswylwyr) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheini sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheini nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfrannedd â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2016. Mae'r tabl uchod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,843m ar 31 Mawrth 2017, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod a'r gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2016				Ar 31 Mawrth 2017			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	430	0	430	3	504	0	504	3
Cynhyrchu	0	0	0	0	455	0	455	3
Ynni a Gwasanaethau	74	0	74	1	82	0	82	1
Sefydliadau Ariannol	221	0	221	2	282	0	282	2
Iechyd a Gofal	780	0	780	6	726	0	726	5
Technoleg Gwybodaeth	448	0	448	3	591	0	591	4
Eraill	539	0	539	4	40	0	40	0
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	1,808	1,808	13	0	1,837	1,837	12
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	550	550	4	0	664	664	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	258	1,139	1,397	10	323	803	1,126	8
Eiddo Tramor	0	26	26	0	0	30	30	0
Cronfeydd								
Buddsoddi ac								
Ymddiriedolaethau								
Unedol								
Ecwiti	2,746	3,981	6,727	50	3,143	4,472	7,615	52
Bondiau	0	0	0	0	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	112	112	0	0	197	197	1
Deilliadau								
Chwyddiant	0	0	0	0	0	0	0	0
Arian a								
Chyfwertthoedd								
Arian								
Y cyfan	417	0	417	3	553	0	553	4
Cyfanswm	5,913	7,616	13,529	100	6,699	8,003	14,702	100

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymïadau

Mae'r ymrwymïadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymïadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymïadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymïadau fel a ganlyn:-

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.2	2.4
Cyfradd Codiad Cyflogau*	4.2	2.4
Cyfradd Chwyddiant	2.2	2.4
Cyfradd Ddisgownt	3.5	2.6
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau	3.5	3.2
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol		
Dynion	22	22.0
Merched	24	24.2
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	24.4	24.0
Merched	26.6	26.4

*Ar gyfer ymrwymïadau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2017, thybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu yn daladwy am weddill oes yr aelod. Thybir hefyd bydd 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) wrth farw ac y bydd eu priod (cydbreswlydd) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraid sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintoli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymïadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2017 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintoli'r ansicrwydd disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn benodol i oedrannau iau neu hyn).

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016, dyddiad y prisiad actiwaraid mwyaf diweddar. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwyd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	Amcan Cynnydd i'r Cyflogwr 31 Mawrth 2017	Amcan Swm ariannol 31 Mawrth 2017
	%	£'000
Lleihad 0.5% i'r gwir gyfradd ddisgownt	11	2,330
cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad cyflog	3	600
cynnydd 0.5% i'r gyfradd codiad pensiwn	8	1,683

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2016), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2020 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, cyfeiriwch at adroddiad actiwaraid 2016, dyddiedig 31 Mawrth 2017.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad		Parhad
	£'000	%	
Aelodau Gweithredol	14,745	68.1	23.1
Aelodau Gohiriedig	486	2.2	32.9
Aelodau Pensiynwyr	6,416	29.7	14.0
Cyfanswm	21,647	100.0	20.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu ac nad ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2016.

Effaith ym Mlynnyddoedd y Dyfodol

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £823,000 yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2018.

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae gwahaniaeth o £61,892 yn 2016/17 (£35,950 yn 2015/16) rhwng ffigyrau diffyg yn y Gronfa yn ôl yr actiwari i gymharu gyda'r ymrwymiad yn perthyn i gynllun pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Chollodion Actiwaraid ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad yn perthyn i gynllun pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen.



ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR 20 GORFFENNAF 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol

2.0 Cefndir

- 2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.
- 2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

3.0 Argymhellion

- 3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4.0 Goblygiadau ariannol

- 4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith o ran cydraddoldeb

- 5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.
-

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Atodiadau

8.1 Datganiad Llwyodraethu Blynyddol 2016/17

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r datganiad yma yn adlewyrchiad priodol o drefniadau llywodraethu GwE. Nodir for gwaith o ddiweddaru'r trefniadau yn digwydd ar hyn o bryd. Mae angen bellach symud ymlaen i gwblhau y diwigiadau i'r trefniadau rhwng awdurdod.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r adolygiad o'r gwasanaeth gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn Ionawr 2015, gydag adolygiad pellach gan Estyn yn Ebrill 2016, wedi cynorthwyo GwE i adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu, ac mae ymrwymiad wedi ei wneud i ymateb i'r adroddiadau hyn. Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE am y flwyddyn 2016/17.

Er hynny, mae rôl allweddol a her sylweddol i aelodau'r Cyd-bwyllgor (yn arbennig y Cyngorwyr a'r Prif Swyddogion Addysg o'r 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, ynghyd â Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth) i gydweithio er mwyn sicrhau fod GwE yn cyflawni'r cyfrifoldebau'n effeithiol, er budd ysgolion a disgyblion y rhanbarth, ac yn datblygu'n bositif er mwyn sicrhau parhad y cytundeb rhwng y 6 awdurdod.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Sefydlwyd GwE yn Gyd-bwyllgor gan 6 awdurdod lleol gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei dylunio i alluogi GwE i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiâu ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiâu, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu perthnasol a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le ar gyfer GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2017, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

3.1 Aelodaeth

Mae'r Cyngorau wedi dod i gytundeb i sefydlu a gweithredu GwE yn unol â'r pwerau sydd ganddynt dan Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 101 a 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau Cysylltiedig.

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys un aelod yr un o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â hawl i bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae'r Prif Swyddogion Addysg Statudol, un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru, yn aelodau heb hawl pleidleisio.

Mae un cynrychiolydd o'r Esgobaeth, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig ac un Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr yn Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais.

3.2 Swyddogaethau

Mae'r Cyngorau wedi arwyddo Cytundeb ar 13 Chwefror 2013 i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau bob un mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletyol ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

Mae'r cytundeb yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys gwybodaeth am agweddau llywodraethu a gweinyddol y Cyd-bwyllgor. Y cytundeb yw sylfaen fframwaith llywodraethu GwE.

3.3 Egwyddorion

Trwy arwyddo'r Cytundeb, mae'r Cyngorau wedi cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:

- Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth

Mewn perthynas â'r cytundeb bydd y Cyngorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd ar wneud y cydweithio'n llwyddiannus;

- Ymrwymiad a Chymhelliant

Bydd y Cyngorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

- Sgiliau a Chreadigedd

Mae'r Cyngorau'n cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth defnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cyngorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n gweithio oddi mewn iddo;

- Perthnasau Effeithiol

Bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol i gynrychiolwyr ei gilydd;

- Datblygu ac Addasu

Mae'r Cyngorau'n cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses effeithiol ar y cyd er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

- Enw Da

Mae'r Cyngorau'n cytuno, mewn perthynas â'r cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da ei gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n methu â gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

- Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Cyngorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

- Caniatâd Angenrheidiol

Mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cyngorau eraill eu bod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn; ac

- Ymrwymïadau Aelodau a Swyddogion

Bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau a'u swyddogion hwy sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithio er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cyngorau eraill.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae GwE yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.

Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lletyol y Cyd-bwyllgor. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côt Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen llywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ym mis Ionawr 2015, gofynnodd Lywodraeth Cymru i Estyn gynnal dilyniant i'r adolygiad drwy arolygu ac adrodd ar bob consortiwm yn unigol. Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn ystod y pythefnos yn dechrau 18 Ebrill 2016. Cynhyrchwyd yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru ar 30 Mehefin 2016.

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/GwE%20cy_l.pdf

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ar 6 Gorffennaf 2016 ac yna aethpwyd ati i drafod ymhellach a chyflwyno'r Cynllun Busnes Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad i'r Cyd-Bwyllgor ar 22 Medi 2016.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/4670f438-120e-4153-99d0-cdb35ac05fff.pdf>

Amcanion

Mae Achos Busnes Llawn wedi ei ddarparu ar gyfer y Gwasanaeth, dyddiedig Mawrth 2012, gyda'r achos busnes yn dangos tystiolaeth bod amcanion clir wedi eu sefydlu, eu bod yn SMART a bod rhaglen waith briodol yn ei lle.

Mae Cynllun Busnes 3 Blynedd yn ei le ar gyfer y gwasanaeth sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Busnes yn sicrhau bod rhaglenni gwaith priodol yn eu lle a bod adroddiadau monitro yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfodydd.

Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Cyd-bwyllgor wedi ei sefydlu, gydag aelodaeth briodol.

Gwelwyd bod strwythur trefniadaethol clir ar gyfer y Gwasanaeth, ond yn dilyn derbyn y model cenedlaethol newydd bydd newidiadau i'r strwythur yn y dyfodol oherwydd bod newidiadau mewn disgwyliadau ar ran y Gwasanaeth.

Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi rhai o'i gyfrifoldebau, ynghyd â rhestr o aelodau'r Cyd-bwyllgor a'u hawliau pleidleisio. Mae rôl yr Awdurdodau wedi'i nodi yn y Cytundeb.

O ganlyniad i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, bu strwythur llywodraethu GwE yn destun adolygiad. Mae hyn wedi golygu creu Bwrdd Ymgynghorol a Bwrdd Rheoli ac adolygu strwythur y Cyd-bwyllgor. Mae elfennau o'r strwythur eisoes ar waith, a bydd yn cael ei fabwysiadu yn llawn pan gaiff ei gymeradwyo gan Weithredwyr pob Partner, a bydd yn arwain at Gytundeb Rhyngawdurdod diwygiedig.

Mae'r cytundeb yn y broses o gael ei hadolygu yn dilyn newidiadau yn deillio o'r Model Cenedlaethol.

Arweinyddiaeth

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 06/07/16
- 22/09/16
- 25/11/16
- 01/02/17
- 08/03/17

Rheolaeth Risg

Mae cofrestr risg GwE yn cael ei diweddarau yn gyson. Mae perthnasedd y gofrestr risg yn cael ei gadw dan adolygiad.

Systemau Rheoli Perfformiad

Yn unol â'r cytundeb, bydd Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol i'r Cyd-bwyllgor ac i bob Cyngor yn unigol ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflawni Swyddogaethau a Nodau Allweddol y Gwasanaeth.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2015/16 i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfod ar 08/03/17.

Anghenion Defnyddiwr a Chwynion

Mae'r Gwasanaeth yn dilyn trefn gwyno Cyngor Gwynedd. Yn ystod 2016/17 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion.

Yn ogystal, mae'n bosibl i'r ysgolion roi adborth drwy'r Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i roi cefnogaeth i'r Cyd-bwyllgor yn ogystal â'u herio. Mae cynrychiolwyr priodol o ysgolion uwchradd a chynradd y 6 Awdurdod yn aelodau o'r Grŵp Defnyddwyr:

Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn gweithredu'n effeithiol oherwydd:

- Mae ganddo'r hawl i adrodd wrth a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor ynglŷn ag unrhyw fater sydd oddi mewn i sgôp swyddogaethau'r Gwasanaeth.
- Mae'r grŵp wedi cyfarfod ar y dyddiadau a ganlyn:
 - 10/05/2016
 - 05/07/2016
 - 27/09/2016
 - 06/12/2016
 - 07/03/2017
- Mae'r grŵp yn cynnwys:
 - 6 cynrychiolydd Uwchradd, un o bob Awdurdod
 - 6 cynrychiolydd Cynradd, un o bob Awdurdod
 - 1 cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
 - Llywodraethwyr Ysgol - un cynrychiolydd fesul Cyngor.

Polisiau Corfforaethol

Ar ddyddiad y fantolen, mae GwE yn gweithredu o dan bolisiau corfforaethol yr awdurdod lletyol.

Rydym wedi cael ein cyngori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan GwE, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**.

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan GwE i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw GwE o'r farn bod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

Yn dilyn Adolygiad Rhanbarthol Estyn ym mis Ebrill 2016, cyflwynwyd yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortium Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor ar 6 Gorffennaf 2016.

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/GwE%20cy_L.pdf

Cyflwynwyd y Cynllun Busnes Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad i'r Cyd-Bwyllgor ar 22 Medi 2016.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/4670f438-120e-4153-99d0-cdb35ac05fff.pdf>

Cyflwynwyd adroddiadau yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad i'r Cyd-bwyllgor ar 25 Tachwedd 2016, a 8 Mawrth, 2017.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/6be6a28c-50de-4109-8c82-9456f79300ed.pdf>

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/e5b8515c-5d51-4836-b0e7-57375a548af8.pdf>

Rhan 6: BARN

Mae'r cytundeb yn y broses o gael ei hadolygu yn dilyn newidiadau yn deillio o'r Model Cenedlaethol.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd GwE yn paratoi i ymateb i adolygiad nesaf y Model Cenedlaethol a bydd yn gweithredu'r newidiadau yn ôl y gofyn.

Swyddog Arweiniol GwE

Dyddiad : _____

ARWYN LLOYD THOMAS

RHEOLWR GYFARWYDDWR GwE

Cadeirydd GwE

Dyddiad: _____



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 GORFFENNAF 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Fframwaith Deilliannau – Grant Gwella Addysg

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r Grant Gwella Addysg – Fframwaith Deilliannau 2017-2018 i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Un o ofynion dyfarniad y Grant Gwella Addysg (GGA) 2017-2018 yw bod consortia yn cwblhau'r Fframwaith Deilliannau.

2.2 Bwriad y Fframwaith yw ynganu beth yw'r deilliannau cenedlaethol; arddangos sut drwy'r GGA, mae strategaethau consortia rhanbarthol yn cyfrannu i ddosbarthu'r deilliannau hyn a sicrhau bod y GGA yn cael effaith bositif ar ddeilliannau dysgwyr.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Cyfanswm y Grant Gwella Addysg ar gyfer rhanbarth GwE yn 2017-18 yw £29,186,163, gyda £2,486,280 o arian cyfatebol, sy'n rhoi cyfanswm o £31,672,443.

3.2 Llwyddwyd i sicrhau cyfradd datganoli i ysgolion o 86% ar gyfer 2017/18.

3.3 Mae'r Fframwaith GGA yn nodi'r deilliannau trosfwaol y dymuna Llywodraeth Cymru eu cyflawni ar gyfer pob dysgwr ledled Cymru. Bydd y GGA yn cyfrannu at bob un o'r deilliannau hyn, a

chydabu'r Fframwaith nad yw cyfraniad y GGA ar wahân i gyfraniadau eraill. Mae'r dyheadau ar gyfer y fframwaith hwn yn glir felly, y bydd yn cefnogi:

- Gwella deilliannau i bob dysgwr, a lleihau amrywiad mewn perfformiad ar draws ysgol;
- Gwella lles dysgwyr;
- Cyflymu cynnydd yr ysgolion hynny mewn categorïau cefnogaeth coch a melyngoch, a chategori ffurfiol Estyn;
- Ysgolion a lleoliadau yn darparu cwricwlwm eang a phriodol;
- Ysgolion a lleoliadau yn cael eu cefnogi a'u herio i weithredu'r agenda Dyfodol Llwyddiannus;
- Gwella ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth;
- Ysgolion a lleoliadau yn gallu tyfu fel sefydliadau dysgu, gan gydweithio a rhannu arbenigedd er budd pob dysgwr;
- Caiff y deilliannau cysylltiedig a'u dangosyddion perfformiad allweddol eu corffori yng nghynllun busnes y consortiwm a'r cynlluniau lefel 2/3.

3.4 Ar gyfer pob deiliant, mae nifer o fesurau/dangosyddion perfformiad; bydd y rhain yn nodwedd allweddol yng nghynlluniau busnes rhanbarthol y consortia (lefel 1), a chynlluniau gweithredu manylach (lefelau 2 a 3).

3.5 Bydd y broses Adolygu a Her yn edrych ar sut y defnyddir y GGA:

- Mis Ebrill/Mai: herio a darparu cefnogaeth ar sut y cyflawnir y cynllun busnes lefel 1;
- Mis Hydref: dylanwadu ar gynnwys y cynllun busnes drafft, a'i herio.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Fframwaith Deilliannau ar gyfer 2017-18.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE wrth ddatblygu'r ddogfen.

9.0 Atodiadau

9.1 Fframwaith Deilliannau 2017-18.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL


Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Fframwaith Deilliannau GGA
Gwella Ysgolion





ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR 20 GORFFENNAF 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Busnes
Pwnc: Calendr Cyfarfodydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y rhaglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

2.0 Cefndir

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blyneddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1 cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu

3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynigir dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2017/18 fel Atodiad 1

3.2 Pe byddai angen gwneud newidiadau i'r calendr, cynigir bod y Cadeirydd yn cael ei awdurdodi i wneud newidiadau yn dilyn ymgynghori priodol.

3.3 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Cymeradwyo'r cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw effeithiau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghoriad yr ymgwymerwyd â fo

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi cyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

9.0 Atodiadau

Atodiad 1: Dyddiadau arfaethedig Cydbwyllgor GwE 2017/18

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt Priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Mae dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas. Yn benodol, bydd 22 Medi 2017 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2016/17, sy'n statudol orfodol cyn 30 Medi. Bydd angen cyfarfod Cydbwyllgor arall ym mis Gorffennaf 2018, ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2017/18.

Atodiad 1

Dyddiadau arfaethedig Cydbwyllgor GwE 2017/18

CYFARFOD	DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
Cyd-bwyllgor GwE	22/09/2017	9.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-bwyllgor GwE	22/11/2017	9.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-bwyllgor GwE	14/02/2018	9.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-bwyllgor GwE	23/05/2018	9.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn